



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 27 Ionawr 2010
Wednesday, 27 January 2010**

Cynnwys Contents

- | | |
|-----|--|
| 3 | Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer |
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services |
| 23 | Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport |
| 39 | Adroddiad yr Is-bwyllogor Datblygu Gwledig ar ei Ymchwiliad i'r Diwydiant Llaeth
The Rural Development Sub-committee's report on its Inquiry into the Dairy Industry |
| 60 | Dadl ar Orchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd
Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010 a'i Gymeradwyo
Debate and Approval of the Draft National Assembly for Wales (Legislative
Competence) (Housing) (Fire Safety) Order 2010 |
| 79 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Strategaeth Swyddi Gwyrdd
Welsh Conservatives Debate: Green Jobs Strategy |
| 108 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 113 | Dadl Fer: Asbestos: Y Llofrudd Cudd
Short Debate: Asbestos: The Hidden Killer |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambra. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Heddiw yw Diwrnod Cofio'r Holocaust. Coffawn gyda'n gilydd mewn cyfnod o ddistawrwydd.

The Presiding Officer: Today is Holocaust Memorial Day. Let us commemorate it together in silence.

Safodd AELODAU'R CYNULLIAD am funud o dawelwch.
ASSEMBLY MEMBERS stood for a minute's silence.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

Smoking

Q1 Val Lloyd: What steps is the Welsh Assembly Government taking to discourage people from taking up smoking?
OAQ(3)1416(HSS)

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): We are investing in programmes to discourage young people from starting smoking. We also propose to reduce young people's access to tobacco products by bringing in regulations under the Health Act 2009, which will regulate the display of tobacco products at the point of sale and prohibit tobacco vending machines.

Val Lloyd: You will be aware of worryingly high rates of smokers among teenagers and, more specifically, among girls. Tobacco use is also higher in the most deprived communities and is the leading cause of health inequalities in Wales. In light of these statistics, will you give an update on any plans to implement a tobacco control strategy for Wales?

Edwina Hart: Powers on these issues were devolved to the Welsh Ministers in the Health Act 2009, which received Royal Assent before Christmas. Preparations for consultation on draft regulations for Wales are currently being finalised. In relation to the ban on vending machines, my intention is that this should take effect from October

Ysmygu

C1 Val Lloyd: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog pobl i beidio â dechrau ysmygu? OAQ(3)1416(HSS)

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Yr ydym yn buddsoddi mewn rhaglenni i annog pobl ifanc i beidio â dechrau ysmygu. Yr ydym hefyd yn bwriadu lleihau gallu pobl ifanc i gael cynnyrch tybaco trwy gyflwyno rheoliadau dan Ddeddf Iechyd 2009, a fydd yn rheoleiddio'r modd y caiff cynnyrch tybaco ei arddangos mewn mannau gwerthu, ac yn gwahardd peiriannau gwerthu tybaco.

Val Lloyd: Gwyddoch am y cyfraddau uchel o bobl ifanc, a merched ifanc yn eui harddegau, yn fwy penodol, sy'n ysmygu, ac mae hynny'n destun gofid. Mae lefelau defnyddio tybaco hefyd yn uwch yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, ac ysmygu yw'r prif achos anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. O gofio'r ystadegau hyn, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw gynlluniau i weithredu strategaeth ar reoli tybaco i Gymru?

Edwina Hart: Cafodd pwerau ar y materion hyn eu datganoli i Weinidogion Cymru yn Neddf Iechyd 2009, a gafodd Gydsyniad Brenhinol cyn y Nadolig. Mae'r paratoadau ar gyfer ymgynghori ar reoliadau drafft i Gymru yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. O ran y gwaharddiad ar beiriannau gwerthu, fy mwriad yw y bydd yn dod i rym ym mis

2011. With regard to the display of products at the point of sale, I propose that regulations take effect for large stores from October 2011 and for small businesses from October 2013. That is in line with the proposals for other parts of the UK and it is designed to offset any potential competitive disadvantage to corner shops compared to larger stores. I also recognise the impact that smoking has on health inequalities and that is one of the themes that we are addressing now in the tobacco control strategy. A key area of its scope will be preventing young people from smoking.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I welcome what the Minister has just said, particularly in relation to banning the display of cigarettes at the point of sale. From my personal point of view, that is highly desirable. Established smokers are brand-loyal—that step will not stop them smoking, although I would be glad if it did—but nearly half of youngsters are attracted to cigarettes that they see at the point of sale. So, I am certainly supportive of that ban. Is there any chance of introducing the regulations earlier?

Edwina Hart: I have listened to officials' advice and we are looking at this in the context of what will happen across the rest of the UK. However, I am certainly prepared to take that point back for further discussion. You are probably in the same camp as the chief medical officer, who is also anxious to ensure that we have the appropriate regulations.

David Lloyd: Parhaf ar yr un tema. Yr wyf yn falch o glywed y cwestiynau a'r atebion. Oedran arferol dechrau ysmgyu i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yng Nghymru yw 11. Yr wyf yn falch felly bod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hynny. A yw'r Gweinidog yn fodlon cefnogi galwadau gan ASH Cymru ac eraill am ganllawiau mor llym â phosibl i geisio atal ein pobl ifanc rhag dechrau ysmgyu? Yn ogystal â chuddio'r cynnrych, fel yr ydych wedi crybwyl eisoes, sut y gallwn fynd i'r afael â gwerthiant sigaréts unigol i blant?

Hydref 2011. O ran arddangos cynnrych mewn mannu gwerthu, yr wyf yn cynnig bod y rheoliadau'n dod i rym ar gyfer siopau mawr o fis Hydref 2011 ymlaen, ac o fis Hydref 2013 ymlaen ar gyfer busnesau bach. Mae hynny'n unol â'r cynigion ar gyfer rhannau eraill o'r DU, a'r bwriad yw gwrtbwys o unrhyw anfantais gystadleuol bosibl i siopau bach o'u cymharu â siopau mwy. Yr wyf hefyd yn cydnabod yr effaith a gaiff ysmgyu ar anghydraddoldebau iechyd, a dyna un o'r themâu yr ydym yn mynd i'r afael â hwy yn awr yn y strategaeth ar reoli tybaco. Un o'r prif feysydd a gaiff sylw yn y strategaeth fydd atal pobl ifanc rhag ysmgyu.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Croesawaf yr hyn y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud, yn enwedig ar wahardd arddangos sigaréts mewn mannu gwerthu. O'm safbwyt personol, mae hynny i'w groesawu'n fawr. Mae pobl sydd wedi bod yn ysmgyu ers amser yn ffyddlon i'w brand—ni fydd y cam hwn yn eu hatal rhag ysmgyu, er y byddwn yn falch pe bai'n gwneud hynny—ond mae bron hanner y bobl ifanc yn cael eu denu at sigaréts a welant mewn mannu gwerthu. Felly, yr wyf yn sicr yn cefnogi'r gwaharddiad hwnnw. A oes unrhyw obaith y gellir cyflwyno'r rheoliadau ynghynt?

Edwina Hart: Yr wyf wedi gwrandu ar gyngor y swyddogion, ac yr ydym yn ystyried y mater hwn yng nghyd-destun yr hyn a fydd yn digwydd yng ngweddill y DU. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr yn barod i fynd â'r pwynt hwnnw yn ôl i'w drafod ymhellach. Mae'n debyg y byddwch o'r un farn â'r prif swyddog meddygol, sydd hefyd yn awyddus i sicrhau bod gennym y rheoliadau priodol.

David Lloyd: I will continue along the same lines. I am pleased to hear the questions and the answers. The usual age at which most children and young people in Wales start to smoke is 11. I am pleased, therefore, that work is under way to get to grips with that. Is the Minister prepared to support the calls of ASH Cymru and others for the strictest possible guidance to try to prevent our young people from starting to smoke? In addition to concealing the product, as you have already suggested, how can we address the sale of single cigarettes to children?

Edwina Hart: It is quite startling when you think that children start smoking at eleven years of age—that comes as quite a shock unless you are au fait with statistics on how early people start smoking. As a Government, we provide money to the ASH Wales charity to carry out advocacy work, including work for the media and information activity such as the provision of a bilingual website and maintaining the all-Wales tobacco control forum. As an organisation, it is extremely active and works well with the Government. We have a good track record of funding it. I have recently approved the continuation of its funding until March 2013 and it will be a key member of the tobacco control strategy stakeholder group, which will discuss the issues that Dr Lloyd has raised today. As part of that group we are looking at preventing young people from starting to smoke. We have to recognise that it is not just about teenagers buying individual cigarettes on the way home from school—we are talking about an even younger generation starting to smoke in primary school.

Eating Disorders Services

Q2 Bethan Jenkins: Will the Minister outline plans for eating disorders services in the new child and adolescent mental health unit at the Princess of Wales Hospital in Bridgend? OAQ(3)1361(HSS)

Edwina Hart: We will be developing services on all particular sites, but Cwm Taf Local Health Board will provide specialist tier 4 services to children and young people with eating disorders. Inpatient care and treatment will transfer from Hafod Newydd to the new unit at the Princess of Wales Hospital in Bridgend. I expect the new unit to be up and running by April 2010. That is good news.

Bethan Jenkins: Thank you for that information, Minister. As you know, I am chair of the cross-party group on eating disorders, whose main aims and objectives

Edwina Hart: Mae'n eithaf brawychus meddwl bod plant yn dechrau ysmigu yn un ar ddeg oed—mae hynny'n peri tipyn o syndod oni bai eich bod yn gyfarwydd ag ystadegau ar ba mor ifanc y mae pobl yn dechrau ysmigu. Fel Llywodraeth, yr ydym yn darparu arian i elusen ASH Cymru gyflawni gwaith eiriolaeth, gan gynnwys gwaith i'r cyfryngau a gweithgarwch yn ymwneud â gwybodaeth, megis darparu gwefan ddwyieithog a chynnal fforwm rheoli tybaco i Gymru gyfan. Mae'n sefydliad hynod o weithgar ac y mae'n gweithio'n dda gyda'r Llywodraeth. Mae gennym hanes da o ariannu'r sefydliad. Yn ddiweddar, yr wyf wedi cymeradwyo parhau i'w ariannu tan fis Mawrth 2013, a bydd yn aelod allweddol o grŵp rhanddeiliaid y strategaeth rheoli tybaco, a fydd yn trafod y materion y mae Dr Lloyd wedi'u codi heddiw. Fel rhan o'r grŵp hwnnw, yr ydym yn edrych ar ffyrdd o atal pobl ifanc rhag dechrau ysmigu. Rhaid inni sylweddoli bod y broblem yn fwy na phobl ifanc yn eu harddegau yn prynu sigaréts unigol ar y ffordd adref o'r ysgol—yr ydym yn sôn am genhedlaeth iau fyth yn dechrau ysmigu yn yr ysgol gynradd.

Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta

C2 Bethan Jenkins: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta yn uned iechyd meddwl plant a'r glasoed yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr? OAQ(3)1361(HSS)

Edwina Hart: Byddwn yn datblygu gwasanaethau ar bob safle penodol, ond bydd Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn darparu gwasanaethau arbenigol haen 4 i blant a phobl ifanc sydd ag anhwylderau bwyta. Bydd gofal a thriniaeth i gleifion mewnol yn cael eu trosglwyddo o Hafod Newydd i'r uned newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yr wyf yn disgwyl i'r uned newydd fod yn barod ac ar waith erbyn mis Ebrill 2010. Mae hynny'n newyddion da.

Bethan Jenkins: Diolch am y wybodaeth honno, Weinidog. Fel y gwyddoch, fi yw cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar anhwylderau bwyta, ac mae prif nodau ac

include establishing a dedicated unit for eating disorders here in Wales. I acknowledge that this is not possible in the short term, but I wanted to hear your thoughts on whether a long-term approach would be possible. The Beat charity says that we need dedicated services for eating disorders, considering that the framework at the moment does not have any strategy for monitoring the impact on a local level. I feel that progress still needs to be made.

Edwina Hart: We have made progress as a Welsh Government in the development of policy in this particular agenda, and NHS Wales is also making progress on this. I accept that these are small steps for individuals whose families have been affected. However, it is written into the specification of the new eating disorders services that they must link to children and adult mental health services—which is important—and that they must ensure that transitions of care are effectively managed across Wales. That is not just an issue at the Princess of Wales Hospital. There has also been development of good practice in north Wales to deal with some of these issues. This is an ongoing agenda, and, when resources become available, I, as Minister, will look at the issue.

Angela Burns: There is a degree of confusion about this. I am delighted about the news on Bridgend because I have a number of constituents currently in Glanrhed Hospital. I have raised with you before the fact that in the Hywel Dda Local Health Board area there is only one serving child psychiatrist currently available to treat people, and teenagers in particular, with mental health issues, especially eating disorders. I note that in the Bridgend community there are also community teams who can go out to work with people and their families, because an eating disorder is a disease that affects an entire family, not just the individual. There are no plans or money for that in the Hywel Dda Local Heath Board area. I note that, in your response to the somewhat damning report that came out, you said that you expect the LHBs to develop plans by October 2010 to ensure that all 16

amcanion y grŵp yn cynnwys sefydlu uned benodol ar gyfer anhwylderau bwyta yma yng Nghymru. Sylweddolaf nad yw hynny'n bosibl yn y tymor byr, ond yr oeddwn am glywed eich barn a fyddai hynny'n bosibl yn y tymor hir. Mae'r elusen Beat yn dweud bod arnom angen gwasanaethau penodol ar gyfer anhwylderau bwyta, o gofio nad yw'r fframwaith ar hyn o bryd yn cynnwys strategaeth ar gyfer monitro'r effaith ar lefel leol. Credaf fod angen gwneud cynnydd o hyd.

Edwina Hart: Yr ydym wedi gwneud cynnydd fel Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi'n gysylltiedig â'r agenda benodol hon, ac mae GIG Cymru hefyd yn gwneud cynnydd yn y maes hwn. Yr wyf yn derbyn mai camau bach yw'r rhain i unigolion y mae anhwylderau bwyta wedi effeithio ar eu teuluoedd. Fodd bynnag, mae manyleb y gwasanaethau anhwylderau bwyta newydd yn nodi ei bod yn rhaid iddynt gysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion—sy'n bwysig—a'i bod yn rhaid iddynt sicrhau bod gwaith trosglwyddo gofal yn cael ei reoli'n effeithiol ar draws Cymru. Nid problem i Ysbyty Tywysoges Cymru yn unig mohoni. Mae arfer da wedi ei ddatblygu yn y gogledd hefyd i ymdrin â rhai o'r problemau hyn. Mae hon yn agenda barhaus, a byddaf fi, fel Gweinidog, yn edrych ar y mater pan fydd adnoddau ar gael.

Angela Burns: Mae ychydig ddryswnch ynghylch hyn. Yr wyf yn falch iawn clywed y newyddion am Ben-y-bont ar Ogwr, oherwydd mae gennyl nifer o etholwyr yn Ysbyty Glan-rhyd ar hyn o bryd. Yr wyf wedi sôn wrthych o'r blaen mai un seiciatydd plant yn unig sy'n gweithio ac ar gael ar hyn o bryd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, i drin pobl, ac yn enwedig pobl ifanc yn eu harddegau, sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac anhwylderau bwyta yn enwedig. Sylwaf hefyd fod timau cymunedol i'w cael yng nghymuned Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gallu mynd allan i weithio gyda phobl a'u teuluoedd, oherwydd mae anhwylder bwyta yn glefyd sy'n effeithio ar y teulu cyfan, nid ar yr unigolyn yn unig. Nid oes dim cynlluniau nac arian ar gyfer hynny yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Sylwaf ichi ddweud, yn eich ymateb i'r adroddiad damniol braidd a gyhoeddwyd,

and 17 year olds can get these services by 2012. What can we do in the interim? That is still a number of years away, and, with only one hard-pressed and frantic-sounding consultant available today, I have constituents who are languishing in hospitals such as Withybush that do not specialise in this disease. They need the help now—they cannot wait until 2012.

eich bod yn disgwyl i'r Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu cynlluniau erbyn mis Hydref 2010 i sicrhau bod yr holl bobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu cael y gwasanaethau hyn erbyn 2012. Beth allwn ni ei wneud yn y cyfamser? Mae hynny lawer blwyddyn i ffwrdd, a chan mai un ymgynghorydd yn unig sydd ar gael heddiw, a hwnnw, fe ymddengys, dan bwysau ac yn gweithio fel lladd nadroedd, mae gennyf etholwyr sy'n nychu mewn ysbytai fel Ysbyty Llwynhelyg nad ydynt yn arbenigo yn yr afiechyd hwn. Mae angen yr help arnynt yn awr—ni allant aros tan 2012.

Edwina Hart: All of us understand the points that you make; as individual Assembly Members we have many cases referred to us of people with eating disorders. They do not just impact on the individual; they have a devastating impact on the family when they try to rationalise why this has happened, which also causes great difficulties. We have advised the LHBs—as have the chief executives—to look at their policies in this area, and to look at the resources that they allocate from their large budgets. I am due to meet the chairs of the LHBs in the next couple of weeks, and I will be raising the issue of resource allocation with them. I will then drop a note to Members on the outcome of my discussions, because I know that there is general concern across the Chamber.

Edwina Hart: Mae pob un ohonom yn deall y pwyntiau yr ydych yn eu gwneud; fel Aelodau Cynulliad unigol, caiff nifer o achosion o bobl ag anhwylderau bwyta eu cyfeirio atom. Nid effeithio ar yr unigolyn yn unig y mae'r anhwylderau hyn; maent yn cael effaith ddinistriol ar y teulu pan fyddant yn ceisio rhesymoli pam y mae hyn wedi digwydd, sydd hefyd yn achosi anawsterau mawr. Yr ydym wedi cynghori'r Byrddau Iechyd Lleol—fel y mae'r prif weithredwyr hefyd wedi'i wneud—i edrych ar eu polisiau yn y maes hwn, ac edrych ar yr adnoddau y maent yn eu dyrannu o'u cyllidebau mawr. Byddaf yn cwrdd â chadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol yn ystod yr wythnosau nesaf, a byddaf yn codi mater dyrannu adnoddau gyda hwy. Yna, byddaf yn anfon nodyn at yr Aelodau am ganlyniad fy nhrafodaethau, oherwydd gwn fod pryder cyffredinol ar draws y Siambra.

1.40 p.m.

The Presiding Officer: Thank you for offering to do so, Minister.

Y Llywydd: Diolch am gynnig gwneud hynny, Weinidog.

Cynllun Iechyd Gwledig

C3 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun iechyd gwledig? OAQ(3)1370(HSS)

Edwina Hart: I announced the completion of the plan in Plenary on 2 December 2009. An implementation group will be set up and will meet for the first time in early February 2010. One of its first tasks will be to take forward the rural health innovation fund to promote improvements in rural health.

Rural Health Plan

Q3 Nerys Evans: Will the Minister make a statement regarding the rural health plan? OAQ(3)1370(HSS)

Edwina Hart: Cyhoeddais fod y cynllun wedi'i gwblhau yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Rhagfyr 2009. Caiff grŵp gweithredu ei sefydlu, a bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf ddechrau mis Chwefror 2010. Un o dasgau cyntaf y grŵp fydd symud y gronfa arloesi iechyd gwledig yn ei blaen i hybu gwelliannau mewn iechyd gwledig.

Nerys Evans: Croesawaf y datblygiadau hynny'n fawr iawn. Yr ydym wedi derbyn adborth positif iawn ar draws y canolborth a'r gorllewin ar yr egwyddor o gael cynllun iechyd gwledig. Edrychaf ymlaen yn fawr i gael manylion am y cynllun, ac i'r cynllun gael ei weithredu.

Yr wyf wedi cael llawer o waith achos ar draws y rhanbarth am y problemau y mae pobl yn eu cael wrth geisio cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, fel sydd wedi ei grybwyl eisoes. Yn benodol, yr wyf wedi clywed am nifer o achosion sy'n ymwneud â materion iechyd meddwl ymmsg pobl ifanc. A allwch amlinellu sut bydd y cynllun iechyd gwledig yn ateb anghenion pobl â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru wledig?

Edwina Hart: The provision of rural healthcare is a key priority for the Government. The rural health plan identifies the need to rethink the way that services are provided in rural areas, covering primary and community services that are outside the traditional models that we have had in Wales. Mental health in rural areas is a key issue, and the plan identifies 3 fundamental themes to address the health needs of people in rural areas. These are the access to service, service integration and community cohesion and engagement. You also referred to young people. Another emerging issue is the increase in dementia and how we are going to deal with it.

The development of the national action plan to reduce suicide and self harm will raise awareness of other issues, and that will look specifically at rural areas. However, if it would be useful, I am more than happy to raise the prioritisation of this aspect of the work with the chair of the implementation group when the group gets to grips with the implementation of the rural health plan, as it brings so many strands together.

Andrew R.T. Davies: Like many initiatives

Nerys Evans: I welcome those developments very much. We have received very positive feedback from people throughout Mid and West Wales on the principle of having a rural health plan. I look forward very much to seeing the detail of the plan, and to its implementation.

I have received a great deal of casework from people across the region relating to their problems in trying to access mental health services, as has already been mentioned. Specifically, I have heard of a number of instances relating to mental health issues among young people. Could you outline how a rural health plan would fulfil the needs of people with mental health problems in rural Wales?

Edwina Hart: Mae darparu gofal iechyd gwledig yn un o brif flaenorriaethau'r Llywodraeth. Mae'r cynllun iechyd gwledig yn nodi'r angen i ailystyried y modd y darperir gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gan ymdrin â gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau cymunedol sydd y tu allan i'r modelau traddodiadol a fu gennym yng Nghymru. Mae iechyd meddwl mewn ardaloedd gwledig yn fater allweddol, ac mae'r cynllun yn nodi 3 thema sylfaenol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd pobl mewn ardaloedd gwledig, sef gallu cael y gwasanaeth, integreiddio'r gwasanaeth a chydlyniad cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned. Soniech hefyd am bobl ifanc. Problem arall sy'n dechrau dod i'r amlwg yw'r cynnydd mewn dementia a'r modd yr ydym yn mynd i ymdrin â hynny.

Bydd datblygu cynllun gweithredu cenedlaethol i leihau achosion o hunanladdiad a hunan-niweidio yn codi ymwybyddiaeth o faterion eraill, a bydd hynny'n edrych yn benodol ar ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, pe bai hynny'n ddefnyddiol, byddwn yn fwy na bodlon codi mater rhoi blaenoriaeth i'r agwedd hon ar y gwaith gyda chadeirydd y grŵp gweithredu, pan fydd y grŵp yn mynd i'r afael â weithredu'r cynllun iechyd gwledig, gan ei fod yn dod â chynifer o llynynnau ynghyd.

Andrew R.T. Davies: Fel nifer o fentrau a

that come out of the Minister's office, the rural health plan depends on having dedicated staff available to implement it. There is a deficit in the numbers of doctors in Wales, which the British Medical Association's recent recruitment campaign has endeavoured to rectify. Could you highlight what your department is doing to engage with the professions to ensure that the professional gaps that exist in the NHS can be filled? Can you also assure us that where plans identify the need for services, they will be provided by the professionals who are required to deliver them for patient care?

Edwina Hart: I am glad that you moved on from the question on doctors to the issue of the wide range of professionals in the health service. We need to identify any gaps that do not allow us to provide the services needed. I have regular meetings with the BMA, the Royal College of Nursing, Unison, and all of the other professional organisations to discuss what is required in the development of healthcare, particularly in rural areas but also across the piece. It is important to recognise that these professions are eager to get to grips with some of these issues, and are prepared to look at new and innovative ways of working. That is what we are going to have to do in rural areas.

The Presiding Officer: I call on Rhodri Morgan to ask the next question. Apologies, in my rush to call on the former First Minister I forgot that there is a supplementary question.

Andrew R.T. Davies: Thank you, Presiding Officer. As you highlighted in your response, Minister, one of the issues is the need to work with the professions. One of the key goals for the Minister and the health boards is to safeguard training opportunities, particularly for students to come to Wales to learn the practice and learn their profession. If they learn that profession in Wales there is a far greater chance of retaining that capacity and filling the gaps that are evident in certain aspects of the service, such as those identified in west Wales by Angela Burns. Are you committed to safeguarding training budgets,

ddaw o swyddfa'r Gweinidog, mae'r cynllun iechyd gwledig yn dibynnu ar gael staff penodol i weithredu'r cynllun. Mae diffyg yn nifer y meddygon sydd yng Nghymru, ac y mae ymgrych reciwtio'n ddiweddar gan Gymdeithas Feddygol Prydain wedi ceisio'i unioni. A allech dynnu sylw at yr hyn y mae eich adran yn ei wneud i ymwneud â'r proffesiynau i sicrhau bod modd llenwi'r bylchau proffesiynol sydd yn y GIG? A allwch roi sicrwydd inni hefyd, os bydd cynlluniau'n nodi bod angen gwasanaethau, y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu gan y bobl broffesiynol sy'n ofynnol er mwyn rhoi gofal i gleifion?

Edwina Hart: Yr wyf yn falch ichi symud ymlaen o'r cwestiwn am feddygon i'r ystod eang o weithwyr proffesiynol yn y gwasanaeth iechyd. Mae angen inni nodi unrhyw fylchau sy'n ein rhwystro rhag gallu darparu'r gwasanaethau angenheidiol. Byddaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd â Chymdeithas Feddygol Prydain, y Coleg Nyrso Brenhinol, Unsain, a'r holl sefydliadau proffesiynol eraill i drafod yr hyn y mae ei angen wrth ddatblygu gofal iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ond yn gyffredinol hefyd. Mae'n bwysig sylweddoli bod y proffesiynau hyn yn awyddus i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, ac maent yn barod i edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o weithio. Dyna fydd yn rhaid inni ei wneud mewn ardaloedd gwledig.

Y Llywydd: Galwaf ar Rhodri Morgan i ofyn y cwestiwn nesaf. Ymddiheuriadau, yn fy mrys i alw ar y cyn-Brif Weinidog, anghofiaisiai fod yna gwestiwn atodol.

Andrew R.T. Davies: Diolch, Lywydd. Fel yr ydych wedi tynnu sylw yn eich ymateb, Weinidog, un o'r materion yw'r angen i weithio gyda'r proffesiynau. Un o'r prif nodau ar gyfer y Gweinidog a'r byrddau iechyd yw diogelu cyfleoedd hyfforddi, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr sy'n dod i Gymru i ddysgu ymarfer a dysgu eu proffesiwn. Os byddant yn dysgu'r proffesiwn hwnnw yng Nghymru, mae llawer mwy o obaith y gallwn gadw'r capaciti hwnnw a llenwi'r bylchau sydd mewn agweddau penodol ar y gwasanaeth, megis y bylchau yn y gorllewin a nodwyd gan Angela Burns. A ydych wedi

in particular for student nurses, so that we will not have the deficits in staff numbers that might occur if those budgets come under attack due to cost efficiencies?

ymrwymo i ddiogelu cyllidebau hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr sy'n cael eu hyfforddi i fod yn nyrssys, fel na fydd gennym y diffygion mewn niferoedd staff a allai ddigwydd pe bai'r cyllidebau hynny'n cael eu gwasgu gan arbedion effeithlonrwydd?

Edwina Hart: On the issue of workforce planning, I am currently considering the numbers of students that I will be requiring and will be commissioning from higher education institutions. You have alluded to the fact that a major review of what nursing requirements and specifications will be relevant in the years ahead—looking at community nurses or whether other specialised nurses will be required—is taking place.

We also have to look at how the role of healthcare support workers fits in, and the Chief Nursing Officer has already started work on that wider agenda. In order to determine what I commission this year I will be looking at the holistic needs of the service across all professions.

Edwina Hart: O ran cynllunio gweithlu, yr wyf wrthi'n ystyried nifer y myfyrwyr y bydd arnaf eu hangen ac y byddaf yn eu comisiynu o sefydliadau addysg uwch. Yr ydych wedi cyfeirio at y ffaith fod adolygiad mawr yn cael ei gynnal o'r gofynion a'r manylebau nyrssio a fydd yn berthnasol yn y blynnyddoedd nesaf—gan ystyried nyrssys cymunedol neu a fydd angen nyrssys arbenigol eraill.

Mae angen hefyd inni edrych ar y modd y mae rôl gweithwyr gofal iechyd cynorthwyo yn cyd-fynd â rolau eraill, ac mae'r Prif Swyddog Nyrssio eisoes wedi dechrau gweithio ar yr agenda ehangach honno. Er mwyn penderfynu beth i'w gomisiynu eleni, byddaf yn edrych ar holl anghenion y gwasanaeth ar draws pob proffesiwn.

Andrew R.T. Davies: Obviously, I was looking for some assurance that budgets would be safeguarded, but you talk of the long-term holistic view. Does that mean that you are looking at transforming the training agenda in Wales and that what we might have historically achieved in Wales will certainly not be the case with regard to nurses having training places provided by the Welsh Assembly Government?

Andrew R.T. Davies: Yn amlwg, yr oeddwn am gael ychydig sicrwydd y byddai cyllidebau'n cael eu diogelu, ond yr ydych yn sôn am y sefyllfa gyfannol yn y tymor hir. A yw hynny'n golygu eich bod yn ystyried trawsnewid yr agenda hyfforddi yng Nghymru, ac na fydd yr hyn y gallem fod wedi'i gyflawni yn y gorffennol yng Nghymru yn sicr yn dal yn wir, o ran bod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu lleoedd hyfforddi i nyrssys?

Edwina Hart: We will of course provide what is required and what the service thinks its requirements are. A substantial amount of nurses qualified this year and the previous year, and it is important that we have the right numbers in the workforce. Workforce planning has not been a perfect art in the past, but it has certainly improved. I am considering the options that were put before me by officials this week.

Edwina Hart: Wrth reswm, byddwn yn darparu'r hyn y mae ei angen a'r hyn y mae'r gwasanaeth yn credu yw ei ofynion. Cymhwysodd nifer sylweddol o nyrssys eleni a'r flwyddyn flaenorol, ac mae'n bwysig fod gennym y nifer iawn o weithwyr yn y gweithlu. Nid yw'r gwaith cynllunio gweithlu wedi bod yn berffaith yn y gorffennol, ond mae'n sicr wedi gwella. Yr wyf yn ystyried y dewisiadau a roddodd fy swyddogion ger fy mron yr wythnos hon.

Rehabilitation Services

Q4 Rhodri Morgan: Will the Minister make

Gwasanaethau Adsefydlu

C4 Rhodri Morgan: A wnaiff y Gweinidog

a statement on specialist rehabilitation services for young Welsh patients? OAQ(3)1360(HSS)

Edwina Hart: I am committed to ensuring that all young Welsh patients are able to access the specialist rehabilitation services that they need.

Rhodri Morgan: I am grateful for that answer. On specialist services for young patients who have suffered a brain injury, could you confirm that Rookwood Hospital, in my constituency, does not offer those services for anyone under 16 and nor does any other hospital in Wales? When the, fortunately, small number of young patients requiring brain injury rehabilitation are offered services, it will frequently be at great expense in hospitals such as Tadworth Court in Surrey at a cost of around £250,000 a year for six months. If, therefore, as is currently the case, two patients from Wales, or from south and mid Wales, require such a service, and Health Commission Wales agrees to it, it will cost £500,000 a year. However, setting up a service in Wales would, at a deluxe level, probably cost a bit more than that at around £600,000, but a basic service could be provided for less money, for example, for £300,000 a year. Although it would obviously cost the local health board money to set up the basic service, doing it could save HCW and the NHS more money overall. What guidance would you offer on this?

ddatganiad am wasanaethau adsefydlu arbenigol ar gyfer cleifion ifanc Cymru? OAQ(3)1360(HSS)

Edwina Hart: Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod pob claf ifanc yng Nghymru yn gallu cael y gwasanaethau adsefydlu arbenigol y mae arno'u hangen.

Rhodri Morgan: Yr wyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw. O ran gwasanaethau arbenigol ar gyfer cleifion ifanc sydd wedi dioddef niwed i'r ymennydd, a allech gadarnhau nad yw Ysbyty Rookwood yn fy etholaeth i yn cynnig y gwasanaethau hynny i neb dan 16 oed, ac nad oes yr un ysbyty arall yng Nghymru'n gwneud hynny ychwaith? Yn ffodus, ar nifer bach o gleifion ifanc y mae angen gwasanaeth adsefydlu ar ôl niwed i'r ymennydd, ond pan fydd y rheini'n cael cynnig gwasanaethau, yn aml bydd pris mawr amdanyst mewn ysbtyai megis Tadworth Court yn Surrey, sy'n costio oddeutu £250,000 y flwyddyn am chwe mis. Felly, os oes angen y gwasanaeth ar ddau glaf o Gymru, neu o'r de a'r canolbarth, fel sy'n wir ar hyn o bryd, a bod Comisiwn Iechyd Cymru'n cytuno i hynny, bydd yn costio £500,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai sefydlu gwasanaeth yng Nghymru yn costio ychydig yn fwy na hynny, sef oddeutu £600,000 ar gyfer y gwasanaeth gorau possibl. Ond gellid darparu gwasanaeth sylfaenol am lai o arian, am £300,000 y flwyddyn, er enghraift. Er y byddai'n amlwg yn costio arian i'r bwrdd iechyd lleol sefydlu'r gwasanaeth sylfaenol, gallai hynny olygu bod Comisiwn Iechyd Cymru a'r GIG yn arbed arian rhwng popeth. Pa arweiniad fyddchi'n ei gynnig ar hyn?

Edwina Hart: Health Commission Wales, as an organisation, will not exist by 1 April 2010. We are now entering new types of arrangements that will allow the LHBs to look at specialist services commissioning together, with a small group looking at the very specialised services. Obviously, we have to take into account the numbers, which play an important part in this. We never have any objections from parents or others, if they have to travel to England to access specialist services, and especially if those are the top specialist services available. We have considered that the NHS could not provide

Edwina Hart: Ni fydd Comisiwn Iechyd Cymru yn bodoli fel sefydliad erbyn 1 Ebrill 2010. Yr ydym yn awr ar drothwy math newydd o drefniadau a fydd yn galluogi'r Byrddau Iechyd Lleol i ystyried comisiynu gwasanaethau arbenigol gyda'i gilydd, a grŵp bach ohonynt yn edrych ar y gwasanaeth arbenigol iawn. Yn amlwg, rhaid inni ystyried y niferoedd, sydd â rhan bwysig yn yr ystyriaethau hyn. Ni fyddwn byth yn cael gwrrhwynebiad gan rieni neu bobl eraill os ydynt yn gorfol teithio i Loegr i gael gwasanaethau arbenigol, yn enwedig os dyna'r gwasanaethau arbenigol gorau sydd ar

services here because we did not seem to have the mass in terms of expertise or the necessary requirements. However, I am more than happy to take your point up in the future to look at bringing services closer to home as long as they are safe and effective.

gael. Yr ydym wedi ystyried na allai'r GIG ddarparu gwasanaethau yma am ei bod yn ymddangos nad oedd gennym ddigon o arbenigedd na'r gofynion angenrheidiol. Fodd bynnag, yr wyf yn fwy na bodlon ystyried eich pwynt yn y dyfodol ac edrych ar ddod â'r gwasanaethau yn nes gartref, cyhyd â'u bod yn ddiogel ac yn effeithiol.

William Graham: Following on from that, you will know that there is a complete lack of treatment or rehabilitation facilities in south-east Wales for young people with an acquired brain injury. Could you, as a matter of urgency, request proper talks with the local health board to ensure that it is at least beginning to offer these people some hope, because, as you know and as the former First Minister has commented, people with those sorts of injuries have to travel long distances for such treatment, which is distressing for them and for their families.

Edwina Hart: You have raised this issue with me before. These issues that you and Rhodri Morgan have raised today are worthy of consideration, and it is certainly something that I will ask the local health boards to consider in relation to the provision of services. As long as they are safe and effective services, we need to look to them in the future.

Janet Ryder: Cognitive behavioural therapy is sometimes offered to young people to help them recover from mental health disorders in particular. I have a case in north Wales where a constituent has been told that her condition needs to stabilise before the therapy can be offered, and yet it would appear that nothing is being offered to help her stabilise that condition. How do we break into this vicious circle? This condition could have serious consequences for her life if it is not stabilised, and yet, no help will be offered to her unless she can control it of her own volition.

1.50 p.m.

Edwina Hart: I do not think that I can comment on the detail of this case.

William Graham: Yn dilyn ymlaen o hynny, gwyddoch nad oes dim cyfleusterau yn y deddwyraint i drin ac adsefydlu pobl ifanc sydd wedi cael niwed i'r ymennydd. A allech weithredu ar frys i geisio cael trafodaethau priodol gyda'r bwrdd iechyd lleol i sicrhau ei fod yn dechrau cynnig ychydig obaith i'r bobl hyn o leiaf, oherwydd fel y gwyddoch, ac fel y mae'r cyn-Brif Weinidog wedi'i nodi, rhaid i bobl sydd â'r mathau hynny o anafiadau deithio ymhell i gael triniaeth o'r fath, sy'n brofiad helbulus iddynt hwy a'u teuluoedd.

Edwina Hart: Yr ydych wedi codi'r mater hwn gyda mi o'r blaen. Mae'r materion yr ydych chi a Rhodri Morgan wedi'u codi heddiw yn haeddu sylw, ac maent yn sicr yn bethau y byddaf yn gofyn i'r byrddau iechyd lleol eu hystyried o ran darparu gwasanaethau. Cyhyd â'u bod yn wasanaethau diogel ac effeithiol, mae angen inni eu hystyried yn y dyfodol.

Janet Ryder: Caiff therapi gwybyddol ymddygiadol ei gynnig weithiau i bobl ifanc i'w helpu i wella o anhwylderau iechyd meddwl yn benodol. Mae gennyf achos yn y gogledd lle mae etholwraig wedi cael gwybod bod angen i'w chyflwr sefydlogi cyn y gellir cynnig y therapi iddi, ac eto i gyd ymddengys nad oes dim yn cael ei gynnig i'w helpu i sefydlogi'r cyflwr hwnnw. Sut mae torri'r cylch cythreulig hwn? Gallai'r cyflwr hwn gael canlyniadau difrifol i'w bywyd os na chaiff ei sefydlogi, ac eto, ni fydd dim cymorth yn cael ei roi iddi oni bai ei bod yn gallu ei reoli ohoni ei hun.

Edwina Hart: Ni chredaf y gallaf roi sylwadau ar fanylion yr achos hwn.

Gwasanaethau Meddygol

Q5 Paul Davies: What is the Welsh Assembly Government doing to improve access to medical services in Wales? OAQ(3)1359(HSS)

Edwina Hart: I have put in place a wide range of targets and programmes to improve access to medical services across rural and urban communities in Wales. They address access to medical services in primary, community and secondary care, and they are reflected in the 'One Wales' commitments.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for that answer. Accessing local specialised medical services is extremely important for my constituents. In my constituency, a local independent charity called Hope provides essential therapy to those suffering from multiple sclerosis and related conditions. I am sure that the Minister will agree that this is a fantastic charity that provides a much-needed service to the people in my area.

Last year, the Assembly Government announced a consultation on the introduction of regulatory fees for the independent healthcare sector in Wales, which I understand closed last November. Charities like Hope are concerned that the consultation included adding a further financial burden of at least £1,500 per year on these kinds of organisations, which already rely on the generosity of local people to raise money. Will the Minister confirm what action she is taking as a result of this consultation? What consideration has she given to the concerns raised by charities such as Hope that this regulation could lead to an unnecessary financial burden?

Edwina Hart: Now that you have raised this matter with me formally in the Chamber, I will take the opportunity to discuss further with officials the issues that you have raised.

Christine Chapman: Minister, 5 per cent of people in the Cynon valley are currently living with diabetes, which is higher than the

Medical Services

C5 Paul Davies: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella gallu cael gwasanaethau meddygol yng Nghymru? OAQ(3)1359(HSS)

Edwina Hart: Yr wyf wedi cyflwyno ystod eang o dargedau a rhaglenni i wella'r gallu i gael gwasanaethau meddygol ar draws cymunedau gwledig a threfol yng Nghymru. Maent yn mynd i'r afael â gallu cael gwasanaethau meddygol yn y sectorau gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal eilaidd, a chânt eu hadlewyrchu yn ymrwymiadau 'Cymru'n Un'.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Mae gallu cael gwasanaethau meddygol arbenigol lleol yn hynod o bwysig i'm hetholwyr. Yn fy etholaeth i, mae elusen annibynnol leol o'r enw Hope yn darparu therapi hollbwysig i bobl sy'n dioddef gan sglerosis ymledol a chyflyrau cysylltiedig. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno bod hon yn elusen ardderchog sy'n darparu gwasanaeth y mae ei angen yn fawr ar y bobl yn fy ardal i.

Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad ar gyflwyno ffioedd rheoleiddio ar gyfer y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, ac yr wyf ar ddeall bod yr ymgynghori hwnnw wedi dod i ben fis Tachwedd diwethaf. Mae elusennau fel Hope yn pryeru bod yr ymgynghoriad yn cynnwys rhoi baich ariannol pellach o £1,500 y flwyddyn o leiaf ar y mathau hyn o fudiadau, sydd eisoes yn dibynnu ar haelioni pobl leol i godi arian iddynt. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa gamau y mae'n eu cymryd o ganlyniad i'r ymgynghori hwn? Pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i'r pryerion a godwyd gan elusennau megis Hope y gallai'r gwaith rheoleiddio hwn arwain at faich ariannol diangen?

Edwina Hart: Gan ichi godi'r mater hwn gyda mi yn ffurfiol yn y Siambwr, cymeraf y cyfle i drafod gyda'm swyddogion ymhellach y materion yr ydych wedi'u codi.

Christine Chapman: Weinidog, mae 5 y cant o bobl yng Nghwm Cynon yn dioddef gan ddiabetes ar hyn o bryd, sy'n uwch na'r

national average. You will know that, historically, Rhondda Cynon Taf has had a high proportion of diabetes sufferers. Nevertheless, I would like to welcome the fact that diabetes is a priority for the Welsh Assembly Government and I understand that 9 per cent of the health budget is set aside to treat the disease. I also welcome the fact that you recently announced £1.19 million for diabetic screening and treatment. Do you agree that it is crucial that people living with diabetes have the right support and can access effective services and that, through the diabetes national service framework, and through more local groups such as the diabetes peer support group in my constituency, we can ensure that this is happening?

Edwina Hart: I do not think that I can praise highly enough the work of some of the voluntary sector organisations in their work to support, for example, those suffering from diabetes. They do an excellent job and are certainly very helpful to those who have the disease. Local health boards have to plan and deliver prompt access to high-quality diabetic services in line with the standards that you alluded to in the national service framework and the clinical guidance that we publish for the management of diabetes, not just for adults but for children, because the management of the disease in children is also important.

Eleanor Burnham: I am sure, Minister, that you heard Dr Dai discuss muscular dystrophy. Later, I believe he is chairing—and some of us will be attending—a meeting of the muscular dystrophy cross-party group. It is sad to read what is apparently one of the worst cases relating to sufferers of muscular dystrophy, where a patient is sleeping in his wheelchair and has done so for 11 years. I realise that the public purse is not bottomless, but do you have a strategy in this regard? What exactly will you be doing for muscular dystrophy sufferers, some of whom reside in my region of North Wales?

Edwina Hart: There has been a lot of

cyfartaledd cenedlaethol. Byddwch yn gwybod, yn hanesyddol, fod cyfran uchel o bobl wedi bod yn dioddef o ddiabetes yn Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, yr wyf yn croesawu'r ffaith bod diabetes yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad, a deallaf bod 9 y cant o'r gyllideb iechyd wedi'i neilltuo i drin y clefyd hwnnw. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith ichi gyhoeddi'n ddiweddar bod £1.19 miliwn ar gael ar gyfer sgrinio am ddiabetes a'i drin. A ydych yn cytuno'i bod yn hollbwysig i bobl sydd â diabetes gael y cymorth iawn, a'u bod yn gallu cael gwasanaethau effeithiol, a'n bod yn gallu sicrhau bod hyn yn digwydd, trwy'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes, a thrwy ragor o grwpiau lleol megis y grŵp cymorth gan gyfoedion i bobl â diabetes yn fy etholaeth i?

Edwina Hart: Ni chredaf y gallaf ganmol gormod ar y gwaith a wneir gan rai o'r mudiadau yn y sector gwirfoddol, wrth iddynt gefnogi, er enghraifft, bobl sy'n dioddef gan ddiabetes. Maent yn gwneud gwaith gwych, ac maent yn sicr o gymorth mawr i bobl sydd â'r clefyd. Rhaid i fyrrdau iechyd lleol gynllunio gwasanaethau diabetes a sicrhau mynediad prydlon i wasanaethau diabetes o safon, yn unol â'r safonau yr oeddech yn cyfeirio atynt yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol a'r arweiniad clinigol yr ydym yn ei gyhoeddi ar gyfer rheoli diabetes, nid yn unig ar gyfer oedolion, ond ar gyfer plant hefyd, oherwydd mae rheoli'r clefyd ymlysg plant yn bwysig hefyd.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn siŵr, Weinidog, eich bod wedi clywed Dr Dai yn trafod nychdod cyhyrol. Yn ddiweddarach bydd rhai ohonom yn mynd i gyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar nychdod cyhyrol—a chredaf mai ef fydd yn cadeirio'r cyfarfod hwnnw. Mae'n drist darllen am yr hyn sy'n ymddangos yn un o'r achosion gwaethaf o rywun yn dioddef nychdod cyhyrol, lle mae claf yn cysgu yn ei gadair olwyn, ac wedi gwneud hynny ers 11 mlynedd. Sylweddolaf nad yw'r pwrs cyhoeddus yn ddiwaelod, ond a oes gennych strategaeth ar hyn? Beth yn union fyddwch chi'n ei wneud dros bobl sy'n dioddef o'r nychdod cyhyrol, rai ohonynt yn byw yn fy rhanbarth i yn y gogledd?

Edwina Hart: Cafwyd llawer o lobio, ac yr

lobbying and I have received communications regarding muscular dystrophy. I will be interested to see what occurs at Dr Lloyd's meeting later. I am sure that I will receive the appropriate correspondence about taking issues forward.

Chris Franks: Minister, can you give an update on the work to build the new hospital at Mountain Ash to serve the Cynon valley? Will you also give a progress report on Ysbyty Cwm Rhondda, which should open its doors this month? I have previously raised the problem with regard to the flooring review.

Could your department also investigate the problems with parking at Llandough Hospital? It is a particular problem for disabled people, because able-bodied people are parking in their spaces. Indeed, there is an overflow problem in the local community. Minister, since 2007, there has been significant investment in health services by the Welsh Government, but do you agree that a fair funding formula for Wales would benefit the Welsh NHS?

Edwina Hart: Ultimately, I work within the resources that I have been allocated, and it is important that I do. It would be nice to dream about additional resources coming to Wales, but until the money is in my little hands for me to spend, we will keep it in that context and talk about the realities of what we are doing.

In the Cynon valley, work on the major scheme continues to make good progress. The recent bad weather has caused difficulties, as it has for building projects generally, but the scheme is on target and it will be operational by August 2011, with the topping out ceremony arranged for Monday 1 March 2010. So, good progress has been made.

The transfer of patients to Ysbyty Cwm Rhondda began on Monday 18 January, and I expect the process to be complete by the end of this week, with the hospital fully operational from 1 February 2010. That is a marvellous achievement; two new hospitals

wyf wedi cael gohebiaeth ar nychdod cyhyrol. Bydd gennyf ddiddordeb gweld beth fydd yn digwydd yng nghyfarfod Dr Lloyd yn ddiweddarach. Yr wyf yn siŵr y caf yr ohebiaeth briodol ynghylch symud y materion hyn yn eu blaen.

Chris Franks: Weinidog, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i adeiladu'r ysbyty newydd yn Aberpennar i wasanaethu Cwm Cynon? A wnewch chi hefyd roi adroddiad am y cynnydd yn Ysbyty Cwm Rhondda, a ddylai fod yn agor ei ddrysau y mis hwn? Yr wyf wedi sôn o'r blaen am yr adolygiad o'r problemau gyda'r llawr.

A allai eich adran hefyd ymchwilio i'r problemau parcio yn Ysbyty Llandoche? Mae'n broblem benodol i bobl anabl, oherwydd mae pobl abl yn parcio yn eu mannau parcio. Yn wir, mae yna broblem o safbwyt ceir yn gorlifo i'r gymuned leol. Weinidog, er 2007 mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau iechyd, ond a ydych yn cytuno y byddai'r GIG yng Nghymru yn elwa o gael fformiwl ariannu teg i Gymru?

Edwina Hart: Yn y pen draw, byddaf yn gweithio gyda'r adnoddau a ddyrannwyd imi, ac mae'n bwysig imi wneud hynny. Byddai'n braff breuddwydio am adnoddau ychwanegol yn dod i Gymru, ond nes bydd yr arian yn fy nwylo imi gael ei wario, byddwn yn ei gadw yn y cyd-destun hwnnw ac yn sôn am wirioneddau'r hyn yr ydym yn ei wneud.

Yng Nghwm Cynon, mae gwaith yn dal i fynd rhagddo'n dda ar y cynllun mawr. Mae'r tywydd garw'n ddiweddar wedi achosi rhai trafferthion, fel y gwnaeth gyda phrosiectau adeiladu'n gyffredinol, ond mae'r cynllun yn mynd rhagddo yn ôl yr amserlen a Bennwyd, a bydd ar waith erbyn mis Awst 2011. Trefnwyd y bydd y seremoni i osod y garreg gopa yn digwydd ddydd Llun 1 Mawrth 2010. Felly, mae cynnydd da wedi ei wneud.

Dechreuwyd ar y gwaith o drosglwyddo cleifion i Ysbyty Cwm Rhondda ddydd Llun 18 Ionawr, a disgwyliaf i'r broses gael ei chwblhau erbyn diwedd yr wythnos hon ac y bydd yr ysbyty'n gwbl weithredol o 1 Chwefror 2010 ymlaen. Mae hynny'n dipyn

in that area providing excellent service to patients. They are a symbol of the investment that we have been prepared to put in as a Government—but more money would be nice.

Smoking Ban

Q6 Jeff Cuthbert: Will the Minister provide an update on the smoking ban in public areas? OAQ(3)1398(HSS)

Edwina Hart: Compliance with the smoke-free legislation remains high, with 99 per cent of premises inspected complying. It has been successful in protecting workers and the public from the serious health risks due to exposure to second-hand smoke. Air quality in hospitality settings has improved significantly, and the legislation, I believe, has widespread public support.

Jeff Cuthbert: Caerphilly borough was recorded as having the second highest rate of smoking between 2004 and 2006, and the most recent statistics, taken in 2007, show that the borough has the highest incidence of lung cancer in Wales. Smoking is the biggest cause of lung cancer, and one of the biggest risk factors for all types of cancer. Smoking prevalence is also strongly linked to deprivation. Can you tell me, Minister, what the Welsh Assembly Government is doing to ensure that we work with some of our poorest communities—whether we are talking in the open air or, indeed, within enclosed buildings—to raise awareness of healthy living and the dangers of smoking?

Edwina Hart: Raising awareness is an important part of our strategy to deal with these issues. We do have the public on our side, and we have put a clear message across to the majority of people in Wales about the importance of not smoking, of not starting smoking, and of stopping if they do start. We have put the necessary resources in place to encourage people to stop smoking. Like you,

o gamp; dau ysbyty newydd yn yr ardal honno'n darparu gwasanaeth ardderchog i gleifion. Maent yn symbol o'r buddsoddiad yr ydym wedi bod yn barod i'w wneud fel Llywodraeth—ond byddai'n braf cael rhagor o arian.

Gwaharddiad ar Ysmygu

C6 Jeff Cuthbert: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaharddiad ar ysmgyu mewn mannau cyhoeddus? OAQ(3)1398(HSS)

Edwina Hart: Mae nifer y lleoedd sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddi-fwg yn parhau'n uchel, ac mae 99 y cant o'r safleoedd a archwiliwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Bu'n llwyddiant o ran amddiffyn gweithwyr a'r cyhoedd rhag y risgau iechyd difrifol a achosir trwy ddod i gysylltiad â mwg ail-law. Mae ansawdd yr aer mewn sefydliadau lletygarwch wedi gwella'n sylweddol, a chredaf fod y ddeddfwriaeth yn cael ei chefnogi'n helaeth gan y cyhoedd.

Jeff Cuthbert: Yr oedd cofnodion yn dangos mai bwrdeistref Caerffili oedd â'r gyfradd uchaf ond un o bobl a oedd yn ysmgyu rhwng 2004 a 2006, ac mae'r ystadegau diweddaraf, a gofnodwyd yn 2007, yn dangos bod gan y fwrdeistref y nifer uchaf o achosion o ganser yr ysgyfaint yng Nghymru. Ysmgyu yw prif achos canser yr ysgyfaint, ac ysmgyu yw un o'r ffactorau risg mwyaf ar gyfer pob math o ganser. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng lefelau ysmgyu ac amddifadedd. A allwch ddweud wrthyf, Weinidog, beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau ein bod yn gweithio gyda rhai o'n cymunedau tlofa—boed yn yr awyr agored ynteu, yn wir, mewn adeiladau caeëdig—i gynyddu ymwybyddiaeth o fyw'n iach a pheryglon ysmgyu?

Edwina Hart: Mae cynyddu ymwybyddiaeth yn rhan bwysig o'n strategaeth i ymdrin â'r materion hyn. Mae'r cyhoedd yn ein cefnogi, a rhaid inni gyfleu neges glir i fwyafri y bobl yng Nghymru am bwysigrwydd peidio ag ysmgyu, peidio â dechrau ysmgyu, a rhoi'r gorau i ysmgyu os ydynt wedi dechrau. Yr ydym wedi rhoi'r adnoddau angenrheidiol ar waith i annog pobl i roi'r gorau i ysmgyu. Yr

I feel that there is more to do in raising people's awareness about smoking, and the chief medical officer is also keen that we do further work on engagement in this area. I look forward to receiving his proposals in due course, because it is a campaign that we must carry on. It is nice to say that we have had a degree of success, but we have to see ongoing success.

When I replied to earlier questions, I emphasised the importance of looking at getting clear messages across to stop children from smoking at an early age.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(3)1369(HSS), yn ôl.

Neath Port Talbot Hospital

Q8 Bethan Jenkins: Has the Minister held talks with Abertawe Bro Morgannwg university NHS trust over reports that Neath Port Talbot Hospital is about to be downgraded? OAQ(3)1362(HSS)

Edwina Hart: I have had no discussions with ABM in respect of future services at Neath Port Talbot Hospital. The health board has responsibility for planning and delivering services to meet the health needs of its residents within the financial allocation provided by the Welsh Assembly Government.

Bethan Jenkins: I have met some of ABM's directors and been assured that motivation for my meeting was the closure of the pre-discharge ward, many of whose staff have a problem with the fact that they were not told about this. In their meeting with Dr Dai Lloyd and me, they informed us that they would be taking the appropriate action by discussing such closures with staff in the future. Are you satisfied that the ABM local health board is taking matters forward? A public consultation will be issued in March, but local Assembly Members need assurances that the services there will not be downgraded, especially as this is a PFI hospital, for which the local area is still paying?

wyf fi, fel chithau, yn teimlo y gellir gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth pobl o ysmygu, ac mae'r prif swyddog meddygol hefyd yn awyddus inni wneud mwy o waith i ymgysylltu â phobl yn y maes hwn. Edrychaf ymlaen at gael ei gynigion mae o law, oherwydd mae'n ymgyrch y mae'n rhaid inni barhau â hi. Mae'n braf dweud ein bod wedi cael rhywfaint o lwyddiant, ond rhaid inni weld llwyddiant parhaus.

Wrth ateb cwestiynau blaenorol, pwysleisiais bwysigrwydd ceisio cyfleo negeseuon clir er mwyn atal plant rhag ysmygu pan fyddant yn ifanc.

The Presiding Officer: Question 7, OAQ(3)1369(HSS), has been withdrawn

Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

C8 Bethan Jenkins: A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau gydag ymddiriedolaeth GIG prifysgol Abertawe Bro Morgannwg am yr adroddiadau fod Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar fin cael ei israddio? OAQ(3)1362(HSS)

Edwina Hart: Nid wyf wedi cael dim trafodaethau gydag Abertawe Bro Morgannwg am y gwasanaethau y bydd Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn eu darparu yn y dyfodol. Mae'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd ei breswylwyr gyda'r dyraniad ariannol a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Bethan Jenkins: Yr wyf wedi cyfarfod â rhai o gyfarwyddwyr ymddiriedolaeth Abertawe Bro Morgannwg, ac fe'm sicrhawyd mai'r ysgogiad ar gyfer fy nghyfarfod oedd cau'r ward cyn-rhyddhau, ac mae nifer o staff y ward hon yn flin am na chawsant wybod am hyn. Yn eu cyfarfod â Dr Dai Lloyd a minnau, dywedwyd wrthym y byddent yn cymryd y camau priodol trwy drafod achosion tebyg o gau wardiau gyda staff yn y dyfodol. A ydych yn fodlon fod bwrdd iechyd lleol Abertawe Bro Morgannwg yn mynd i'r afael â'r materion hyn? Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth, ond mae angen i Aelodau Cynulliad lleol gael sicrwydd na fydd y gwasanaethau yno'n cael eu hisraddio, yn enwedig gan fod hwn yn

ysbyty Menter Cyllid Preifat y mae'r ardal leol yn dal i dalu amdano?

Edwina Hart: I have every confidence in that local health board, because it has a good track record for taking through service modernisation with the consent of individuals and having taken account of the considerations raised. This has always been delivered as a result of excellent engagement with the stakeholders and through discussions, and there is the involvement of community health councils, which we have maintained in Wales to ensure that patients' and communities' views are taken into account. Local health boards are looking all the time at the services that they deliver in certain areas. However, it is alarmist to speak about downgrading at this stage, when we are in the middle of a consultation process and a discussion.

2.00 p.m.

You also made a point regarding staff. Interestingly enough, before Christmas, staff spoke to me about some of the proposals that might emerge in that area, and they were clearly aware of them.

Peter Black: Minister, given the investment that is going into Morriston Hospital and the significance of the services in Bridgend, can you give any guarantees that Neath Port Talbot Hospital will retain most of its services as the new Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board puts its strategy together, and that people in Neath Port Talbot will not be disadvantaged and sent to hospitals in Bridgend or Swansea as a result of those changes?

Edwina Hart: There seems to be a campaign mounting here over the alleged closure and downgrading of Neath Port Talbot Hospital, but I am not sure of the reason for such a campaign. The reality is that Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board is looking at issues and service delivery on one of its sites, which is what I expect it to do. There is much talk about what the finance directors said at a certain committee meeting

Edwina Hart: Yr wyf yn hollol hyderus yn y bwrdd iechyd lleol hwnnw, oherwydd mae ganddo hanes da o wneud gwaith moderneiddio gwasanaethau gyda chydsyniad unigolion, ac ar ôl rhoi sylw i'r ystyriaethau a godwyd. Mae hyn bob amser wedi'i wneud o ganlyniad i ymgysylltu ardderchog â'r rhanddeiliaid a thrwy drafodaethau, ac mae cyngorau iechyd cymunedol yn chwarae eu rhan. Yr ydym wedi cadw'r cyngorau hynny yng Nghymru i sicrhau bod barn cleifion a chymunedau'n cael ei hystyried. Bydd byrddau iechyd lleol bob amser yn edrych ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu mewn ardaloedd penodol. Fodd bynnag, codi bwganod fyddai sôn am israddio ar hyn o bryd, a ninnau yng nghanol proses ymgynghori a thrafod.

Codwyd pwyt gennych hefyd ynghylch staff. Yn ddiddorol iawn, cyn y Nadolig bu rhai staff yn siarad â mi ynglŷn â rhai o'r cynigion a allai godi yn yr ardal honno, ac yr oedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o'r cynigion hynny.

Peter Black: Weinidog, o gofio'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud yn Ysbyty Treforys ac arwyddocâd y gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a allwch roi unrhyw sicrwydd y bydd Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn cadw'r rhan fwyaf o'i wasanaethau wrth i Fwrdd Iechyd Lleol newydd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg lunio'i strategaeth, ac na fydd pobl yng Nghastell-nedd Port Talbot dan anfantais ac yn cael eu hanfon i ysbytai ym Mhen-y-bont ar Ogwr neu Abertawe o ganlyniad i'r newidiadau hynny?

Edwina Hart: Ymddengys bod ymgyrch yn datblygu yma ynghylch yr honiad bod Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn cau ac yn cael ei israddio, ond nid wyf yn siŵr beth yw'r rheswm dros ymgyrch o'r fath. Y gwir yw fod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ystyried y problemau a'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ar un o'i safleoedd, sef yr hyn yr wyf yn disgwyli iddo ei wneud. Mae llawer o sôn am yr hyn a

about how resources could be better spent in the NHS, but now that a local health board is looking at resource issues and at where services should be and what they should do, there is a lot of alarmist nonsense about closure. When all this has finished, I am sure that we will all be pleased with the outcomes, as will the patients.

ddywedodd y cyfarwyddwyr cyllid mewn cyfarfod pwyllgor penodol ynglŷn â'r ffordd y gellid gwario adnoddau'n well yn y GIG. Ond yn awr, gan fod bwrdd iechyd lleol wrthi'n ystyried materion yn ymwneud ag adnoddau a ble y dylid cynnig gwasanaethau a beth ddylent ei wneud, mae llawer o godi bwganod ynghylch cau ysbyty, sy'n nonsens llwyr. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i orffen, yr wyf yn siŵr y byddwn i gyd yn fodlon â'r canlyniadau, fel y bydd y cleifion.

Brian Gibbons: I am sorry to add to the alarm. [Laughter.] I quite agree with your thesis, Minister. At this stage, we are in no position for people to spread alarmist concerns, but there is a genuine concern over the clarity of what is proposed for these healthcare facilities, particularly in the Neath Port Talbot area. You are right that considerable rounds of discussions have taken place with staff and key stakeholders, but, at this stage, there is no clarity on the options to be brought forward. Therefore, before any definitive proposals are brought forward or implemented, it is particularly important to give a clear commitment to holding a full round of public engagement and consultation.

Edwina Hart: I concur with your final comments, Brian, because I am keen to hold proper consultation, and not to have the issues that we had with hospitals previously, where people did not feel that they had been engaged. I use the words 'hospital closures' in a general sense, and not specifically relating to Neath Port Talbot Hospital or any service changes. It is important that we take people with us. I have issued guidance to hold consultation on all the issues. These plans are about looking at ways to secure the future delivery of the service, ensuring the sustainability and effective use of the site and the hospital. However, in view of the concerns that have been raised with me, I will take the opportunity to raise this matter formally with the chair of the local health board, and Members have my assurance that the board will undertake any consultation required on issues.

Brian Gibbons: Mae'n ddrwg gennyf fy mod yn codi mwy o fwganod. [Chwerthin.] Cytunaf â'ch gosodiad, Weinidog. Nid ydym, ar hyn o bryd, mewn sefyllfa i bobl fod yn codi bwganod, ond mae pryder gwirioneddol ynghylch eglurder yr hyn a gaiff ei gynnig ar gyfer y cyfleusterau gofal iechyd hyn, yn enwedig yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Yr ydych yn iawn bod cryn drafod wedi bod gyda staff a rhanddeiliaid allweddol, ond ar hyn o bryd nid oes dim eglurder ynghylch y dewisiadau a gaiff eu cynnig. Felly, cyn i unrhyw gynigion terfynol gael eu cynnig neu eu gweithredu, mae'n hynod bwysig inni roi ymrwymiad clir i gynnwys y cyhoedd a chael ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Edwina Hart: Cytunaf â'ch sylwadau olaf, Brian, oherwydd yr wyf yn awyddus i gael ymgynghoriad iawn ac osgoi'r problemau a gafwyd gydag ysbytai yn y gorffennol, lle nad oedd pobl yn teimlo'u bod wedi eu cynnwys. Defnyddiaf y geiriau 'cau ysbytai' yn gyffredinol, ac nid yn benodol yng nghyswilt Ysbyty Castell-nedd Port Talbot neu unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth. Mae'n bwysig inni fynd â phobl gyda ni. Yr wyf wedi cyhoeddi arweiniad i gael ymgynghoriad ar yr holl faterion hyn. Mae'r cynlluniau hyn yn ymwneud ag edrych ar ffyrdd i sicrhau darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol, gan sicrhau cynaliadwyedd a sicrhau defnyddio'r safle a'r ysbyty'n effeithiol. Fodd bynnag, o ystyried y pryderon y mae pobl wedi'u codi gyda mi, byddaf yn cymryd y cyfle i godi'r mater hwn yn ffurfiol gyda chadeirydd y bwrdd iechyd lleol, a gallaf sicrhau Aelodau y bydd y bwrdd yn ymgymryd ag unrhyw ymgynghori angenrheidiol ar y materion hyn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ(3)1396(HSS), yn ôl

Patient Transport Services

Q10 Peter Black: Will the Minister make a statement on patient transport services? OAQ(3)1386(HSS)

Edwina Hart: The review of patient transport services is well advanced and will shortly be completed. I await the final draft from Win Griffiths, who has been chairing the discussions. I hope to be able to advise Members in February of the outcome of his deliberations.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. Will you confirm the press reports made at the end of last year that the efficiency review of the ambulance service had identified the need for an extra £5 million a year to secure the future of the Welsh Ambulance Services NHS Trust, and that delays in offloading patients at accident and emergency departments are costing as much as £2 million a year?

Edwina Hart: We all accept that the delays in offloading patients at accident and emergency departments are causing enormous problems for the Welsh Ambulance Services NHS Trust. I am reviewing my financial support for that trust, and I have ongoing discussions with the chair of the trust on this matter and various others.

Peter Black: Given that the review has identified a shortfall in the trust's funding and that, unlike with a number of other health boards and trusts, you are not proposing at this stage to write off its debt, is it worth looking at the financing of the ambulance service to see whether it is sufficiently funded to deliver the target that you have set, as Minister? Is part of the problem with the ambulance service trust the fact that it is underfunded, and is that one reason why it is not meeting its targets?

The Presiding Officer: Question 9, OAQ(3)1396(HSS), is withdrawn.

Gwasanaethau Cludo Cleifion

C10 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau cludo cleifion? OAQ(3)1386(HSS)

Edwina Hart: Mae'r adolygiad o wasanaethau cludo cleifion yn mynd rhagddo'n dda, a chaiff ei gwblhau'n fuan. Yr wyf yn disgwyl y drafft terfynol gan Win Griffiths, sydd wedi bod yn cadeirio'r trafodaethau. Gobeithiaf allu hysbysu'r Aelodau ym mis Chwefror am ganlyniad ei ystyriaethau.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. A wnewch chi gadarnhau'r adroddiadau a wnaed yn y wasg ddiwedd y llynedd fod yr adolygiad effeithlonrwydd o'r gwasanaeth ambiwlans wedi nodi bod angen £5 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol i sicrhau dyfodol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a bod oedi wrth drosglwyddo cleifion i adrannau damweiniau ac achosion brys yn costio cymaint â £2 filiwn y flwyddyn?

Edwina Hart: Yr ydym i gyd yn derbyn bod yr oedi wrth drosglwyddo cleifion i adrannau damweiniau ac achosion brys yn achosi problemau enfawr i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Yr wyf yn adolygu'r cymorth ariannol yr wyf yn ei roi i'r ymddiriedolaeth honno, a byddaf yn cael trafodaethau parhaus gyda chadeirydd yr ymddiriedolaeth am y mater hwn a nifer o faterion eraill.

Peter Black: O gofio bod yr adolygiad wedi nodi diffyg yng nghyllid yr ymddiriedolaeth, a'r ffaith nad ydych, yn wahanol i nifer o fyrrdau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill, yn cynnig dileu ei dyled ar hyn o bryd, mae'n werth ystyried sut caiff y gwasanaeth ambiwlans ei ariannu er mwyn gweld a yw'n cael digon o arian i gyrraedd y targed yr ydych wedi'i osod, fel Gweinidog? A yw'r ffaith nad yw'r gwasanaeth ambiwlans yn cael ei ariannu'n ddigonol yn rhan o'r broblem, ac ai dyna un o'r rhesymau pam nad yw'n cyrraedd ei dargedau?

Edwina Hart: If only we could say that underfunding was the issue behind every inefficiency, but that is not quite the case. I look at what the ambulance trust requires financially and I look at the reports that are given to me, and I keep an open mind about any support that I need to give it in the future.

Joyce Watson: I was contacted last week by a constituent from Blaenau Ffestiniog, who had escorted an 89-year-old lady to Ysbyty Gwynedd for an appointment. The appointment was at 2 p.m., so she arranged for a hospital car to take her there. The driver phoned twice to say that he had been sent to pick up other patients but, eventually, he picked them up at 3 p.m.. On the way, he had another call to pick up yet another patient, which meant that they arrived at 4 p.m.. Thankfully, he had phoned ahead to say that they would be late, and the sister on duty helpfully rearranged the appointment to 5 p.m.. I give that as an example to illustrate the frustration for everyone involved: the driver who was sent around the houses, the clinic staff who had to rearrange the appointments, and, crucially, the elderly patient. Will you please look at assessing the effectiveness of the current system, to help all concerned?

Edwina Hart: It is distressing for the patient and the staff involved, and there are obvious difficulties. Cases of this particular nature are drawn to my attention, as was done by you previously, Joyce. However, we have to recognise that, in the main, delivering patients to appointments is done successfully, staff do it well and people have a high regard for the service. We must not be too influenced by the difficult cases that we come across and we must recognise that the majority run smoothly. However, I take these matters up on a regular basis with the ambulance trust, because we do not want anyone, particularly elderly patients, put in that difficult position given the time lapses involved.

Edwina Hart: Pe baem ond yn gallu dweud mai diffyg ariannu digonol oedd yr unig broblem y tu ôl i bob aneffeithlonrwydd, ond nid yw hynny'n hollol wir. Yr wyf yn edrych ar yr arian y mae ei angen ar y gwasanaeth ambiwlans, ac yr wyf yn edrych ar yr adroddiadau a roddir imi, ac yr wyf yn cadw meddwl agored am unrhyw gymorth y mae angen imi ei roi i'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Joyce Watson: Cysylltodd etholwr o Flaenau Ffestiniog â mi yr wythnos diwethaf a oedd wedi hebrwng gwraig 89 oed i Ysbyty Gwynedd am apwyntiad. Yr oedd yr apwyntiad am 2pm, felly, trefnodd y byddai car o'r ysbyty yn mynd â hi yno. Yr oedd y gyrrwr wedi ffonio ddwywaith i ddweud ei fod wedi cael ei anfon i godi cleifion eraill, ond yn y diwedd cawsant eu codi am 3pm. Ar y ffordd, cafodd alwad arall i godi claf arall, a olygodd eu bod wedi cyrraedd yr ysbyty am 4pm. Diolch i'r drefn, yr oedd wedi ffonio ymlaen llaw i ddweud y byddent yn hwyr, ac yr oedd y brif nyrs ar ddyletswydd wedi bod yn barod i helpu ac wedi aildrefnu'r apwyntiad ar gyfer 5pm. Enghraifft yw hon i ddangos y rhwystredigaeth i bawb a oedd ynghlwm â'r digwyddiad: y gyrrwr a gafodd ei anfon o'r naill le i'r llall, staff y clinig a oedd wedi gorfod aildrefnu'r apwyntiadau, ac yn enwedig y claf oedrannus. A wnewch chi ystyried asesu pa mor effeithiol yw'r system bresennol, er mwyn helpu pawb dan sylw?

Edwina Hart: Mae'n peri gofid i'r claf a'r staff sy'n rhan o'r sefyllfa, ac mae yna anawsterau amlwg. Bydd pobl yn dod ag achosion o'r fath i'm sylw, fel yr ydych chi wedi'i wneud o'r blaen, Joyce. Fodd bynnag, rhaid inni sylweddoli yn gyffredinol bod cleifion yn cael eu cludo'n llwyddiannus i apwyntiadau, bod staff yn gwneud eu gwaith yn dda a bod gan bobl barch at y gwasanaeth. Rhaid inni beidio â chael ein dylanwadu'n ormodol gan yr achosion anodd y down ar eu traws, a rhaid inni sylweddoli bod y rhan fwyaf o achosion yn rhedeg yn esmwyth. Fodd bynnag, byddaf yn codi'r materion hyn yn rheolaidd gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans, oherwydd nid ydym am i neb, yn enwedig cleifion oedrannus, gael eu rhoi yn y sefyllfa anodd honno, o gofio'r amser a gaiff ei golli.

Democrats (Kirsty Williams): As we have just heard, patient transport services can be frustrating, but they can be a matter of life and death when it comes to 999 calls. In Powys, I have heard of recent examples of the Ystradgynlais ambulance responding to a call in Abergwesyn, 43 miles away, of the Ystrad ambulance responding to a call in Hay-on-Wye, 41 miles away, and, unbelievably, of the Ystradgynlais ambulance responding to a call in Barry, the Vale of Glamorgan, which took over an hour to arrive. The Crickhowell ambulance regularly travels to Newtown, some 60 miles away. You say that the issues in the ambulance trust can be explained by inefficiency, but that does not sound like inefficiency to me; it sounds like a lack of resources for rural areas. Will you look again at the adequacy of the money being spent in rural areas to ensure that Powys ambulances remain in the locality of Powys and are not sent to other parts of Wales because of the deficient ambulance cover in those areas?

Edwina Hart: I will certainly take up the operational issues that you have raised with the ambulance trust. I would be more than happy to do so.

Gareth Jones: Weinidog, fel y gwyddoch, oherwydd problemau reciwtio meddygon iau a gofynion y gyfarwyddeb oriau gwaith, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi penderfynu cau uned mân-anafiadau Ysbyty Cyffredinol Llandudno i dderbyniadau brys ar ôl 10 p.m.. Yn ogystal â hynny, mae'r achosion meddygol sydd o'r brys mwyaf yn mynd yn syth i Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd, fel y penderfynwyd tua tair blynedd yn ôl. Mae gan hynny oblygiadau i gleifion sydd angen cludiant gan ambiwlans argyfwng neu gan y gwasanaeth cludo cleifion, oherwydd bydd y cerbydau hyn yn gynyddol allan o'r ardal leol ac yn methu ymateb mor gyflym i alwadau ardal Llandudno a Dyffryn Conwy. Disgwylwn hefyd y bydd mwy o alw am yr ambiwlans awyr. A wnewch chi a'ch swyddogion drafod yr atebion posibl i'r

Cymru (Kirsty Williams): Fel yr ydym newydd glywed, gall gwasanaethau cludo cleifion beri rhwystredigaeth, ond gallant fod yn fater o fywyd a marwolaeth pan ddaw'n fater o alwadau 999. Ym Mhowys, yr wyf wedi clywed am enghreifftiau'n ddiweddar lle mae ambiwlans Ystradgynlais yn ymateb i alwad yn Abergwesyn, sydd 43 milltir i ffwrdd, ac o ambiwlans Ystrad yn ymateb i alwad yn y Gelli Gandryll, sydd 41 milltir i ffwrdd, ac un achos anhygoel o ambiwlans Ystradgynlais yn ymateb i alwad yn y Barri, ym Mro Morgannwg, a gymerodd dros awr i gyrraedd. Bydd ambiwlans Crucywel yn teithio i'r Drenewydd yn aml, sydd tua 60 milltir i ffwrdd. Yr ydych yn dweud mai aneffeithlonrwydd sydd i gyfrif am y problemau gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans, ond nid yw'r achosion hyn yn ymddangos fel aneffeithlonrwydd i mi; maent yn ymddangos fel diffyg adnoddau ar gyfer ardaloedd gwledig. A wnewch chi edrych eto ar ba mor ddigonol yw'r arian sy'n cael ei wario mewn ardaloedd gwledig i sicrhau bod cerbydau ambiwlans Powys yn aros ym Mhowys ac nad ydynt yn cael eu hanfon i rannau eraill o Gymru am nad oes digon o gerbydau ambiwlans ar gael yn yr ardaloedd hynny?

Edwina Hart: Byddaf yn sicr yn mynd ar ôl y materion gweithredol yr ydych wedi'u codi, gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans. Byddwn yn fwy na bodlon gwneud hynny.

Gareth Jones: Minister, as you are aware, because of the problems of recruiting junior doctors and the requirement of the working times directive, the Betsi Cadwaladr University Local Health Board has decided to close the minor injuries unit at Llandudno General Hospital to emergency admissions after 10 p.m.. In addition to that, the most urgent medical cases are taken immediately to Ysbyty Glan Clwyd and Ysbyty Gwynedd, as was decided some three years ago. That has implications for patients who need transportation by emergency ambulance or by the patient transport service, because those vehicles will be increasingly outside the local area and unable to respond as quickly to calls from Llandudno and Conwy valley. We also expect there to be greater demand on the air ambulance. Will you and your officials discuss possible solutions to these problems

problemau hyn gyda'r bwrdd iechyd lleol a'r ymddiriedolaeth ambiwlans, ac a fedrwch chi roi sierwydd i ni y bydd amserau ymateb a chludo cleifion yn cael eu monitro'n fwy gofalus byth yn y dyfodol, a hynny er mwyn darganfod maint y broblem?

Edwina Hart: The answer to your question is 'yes'.

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport

Convergence Funding Projects

Q1 Val Lloyd: Will the Minister provide an update on convergence funding projects promoting enterprise in Swansea? OAQ(3)1368(ECT)

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): Businesses in Swansea are benefiting from a range of convergence-funded projects to support enterprise development delivered via Flexible Support for Business, as well as other partner-led initiatives, including the south-west Wales local investment fund.

Val Lloyd: The £7.5 million-worth Olympus development in Swansea Vale in my constituency is an excellent example of Welsh Assembly Government investment attracting companies to convergence areas. The units available have already attracted one major firm to take up occupancy, and I understand that the remaining space is being advertised extensively. Do you agree that the quality of industrial accommodation plays an important part in attracting investment and, with it, new jobs? Can you outline any plans to make this kind of modern facility available across Wales to stimulate local economies?

The Deputy First Minister: You are right about the availability of premises. In fact, that is one issue that we are considering in the economic renewal programme. Where there are particular market failures across Wales in the provision of those services, my

with the local health board and the ambulance trust, and could you give us an assurance that response times and patient transport will be monitored ever more carefully in future, to discover the true extent of the problem?

Edwina Hart: Yr ateb i'ch cwestiwn yw, 'gwnaf'.

Prosiectau Cyllid Cydgyfeirio

C1 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau cyllid cydgyfeirio sy'n hyrwyddo mentergarwch yn Abertawe? OAQ(3)1368(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Mae busnesau yn Abertawe yn elwa o amrywiaeth o brosiectau sy'n defnyddio cyllid cydgyfeirio i helpu datblygu mentergarwch drwy Cymorth Hyblyg i Fusnes, yn ogystal â mentrau eraill dan arweiniad partneriaid, gan gynnwys cronfa buddsoddi lleol de-orllewin Cymru.

Val Lloyd: Mae'r datblygiad Olympus gwerth £7.5 miliwn ym Mro Abertawe yn fy etholaeth i yn enghraifft wych o fuddsoddi gan Lywodraeth y Cynulliad i ddenu cwmnïau i ardaloedd cydgyfeirio. Mae'r unedau sydd ar gael eisoes wedi denu un cwmni mawr i'r safle, ac yr wyf ar ddeall bod y lle sydd ar ôl yn cael ei hysbysebu'n helaeth. A ydych yn cytuno bod safon unedau diwydiannol yn bwysig wrth ddenu buddsoddiad, a swyddi newydd yn sgil hynny? A allwch amlinellu unrhyw gynlluniau i ddarparu'r math hwn o gyfleuster modern ledled Cymru er mwyn bywiogi economiau lleol?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydych yn llygad eich lle ynghylch darparu unedau. A dweud y gwir, mae hynny'n un peth yr ydym yn ei ystyried yn rhaglen adnewyddu'r economi. Lle mae enghreifftiau penodol ledled Cymru lle nad yw'r farchnad yn gallu

department is looking to see how we can help. Where there is eligibility for convergence funding, that also enhances the facilities that we can make available. Swansea has done extremely well out of convergence funding, which will be of great benefit to the local economy.

David Melding: To date, 96 per cent of the funding under convergence has gone to projects led by the public sector. Are you happy with that figure, and do you think that it is allowing the private sector to play its full part in convergence funding projects?

The Deputy First Minister: Yes, I do, because although you have indicated that a number of projects are led by the public sector, I know that many of them are dependent on the private sector for their delivery. You will find that a number of these projects have private sector partners, and we would therefore be unable to deliver them without that private sector support.

David Melding: I am sure that no-one would disagree with you that just because something is led by the public sector does not mean that it relates entirely to the public sector. However, we ought to know which measures are in place to ensure a high level of participation from the private sector, particularly when we are continually being lobbied by business groups because they are not getting a fair crack at the whip of European funding. We must be reassured that there will be resilience in economies such as Swansea's after EU funding streams are removed and that the level of enterprise has increased. What measures are you using?

The Deputy First Minister: There are three projects in the Swansea area that show this partnership working. First, I have announced £25 million of funding for Swansea University's Centre for NanoHealth and Institute of Life Sciences, which is a collaborative activity between business and the higher education sector. Secondly, A4B, the academic expertise for business programme, will enable a collection of higher and further education institutions to exploit knowledge in partnership with companies.

darparu'r gwasanaethau hynny, mae fy adran yn edrych i weld sut y gallwn helpu. Os yw'r ardal yn gymwys i gael cyllid cydgyfeirio, mae hynny hefyd yn gwella'r cyfleusterau y gallwn eu darparu. Mae Abertawe wedi elwa'n fawr iawn o gyllid cydgyfeirio, a fydd yn fanteisiol tu hwnt i'r economi leol.

David Melding: Hyd yma, prosiectau a arweinir gan y sector cyhoeddus sydd wedi cael 96 y cant o'r cyllid dan y rhaglen gydgyfeirio. A ydych yn fodlon â'r ffigur hwnnw, ac a ydych yn credu ei fod yn caniatáu i'r sector preifat chwarae rhan lawn mewn prosiectau cyllid cydgyfeirio?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ydw, yr wyf yn credu ei fod, oherwydd er ichi nodi bod nifer o brosiectau'n cael eu harwain gan y sector cyhoeddus, gwn fod nifer ohonynt yn dibynnu ar y sector preifat i'w gweithredu. Fe welwch fod gan nifer o'r prosiectau hyn bartneriaid yn y sector preifat, ac felly ni fyddem yn gallu eu gweithredu heb y gefnogaeth honno gan y sector preifat.

David Melding: Yr wyf yn siŵr na fyddai neb yn anghytuno â chi pan ddywedwch nad yw'r ffaith mai'r sector cyhoeddus sy'n arwain rhywbeth yn golygu mai dim ond y sector cyhoeddus sy'n ymwneud ag ef. Fodd bynnag, dylem gael gwybod pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod gan y sector preifat ran sylweddol, yn enwedig a ninnau'n cael ein lobio'n barhaus gan grwpiau busnes sy'n teimlo nad ydynt yn cael chwarae teg o ran arian Ewropeaidd. Rhaid inni gael sicrwydd y bydd economi fel economi Abertawe yn ddigon gwydn i ymdopi pan gaiff ffrydiau cyllid yr Undeb Ewropeaidd eu dileu, a bod lefel y mentergarwch wedi codi. Pa fesurau yr ydych yn eu defnyddio?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae tri phrosiect yn ardal Abertawe sy'n dangos y dull hwn o weithio mewn partneriaeth. Yn gyntaf, yr wyf wedi cyhoeddi bod £25 miliwn o gyllid ar gael i Ganolfan NanoIechyd a Sefydliad Gwyddorau Bywyd Prifysgol Abertawe, sy'n weithgarwch cydweithredol rhwng byd busnes a'r sector addysg uwch. Yn ail, bydd A4B, sef y rhaglen sy'n darparu arbenigedd academaidd i fusnesau, yn galluogi clwstwr o sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach i fanteisio ar wybodaeth mewn partneriaeth â

Thirdly, the Software Alliance project, led by Swansea University, will provide subsidised placements in small and medium-sized enterprises for higher education students, which will lead to knowledge transfer partnerships. Those three examples in Swansea are excellent examples of the public sector and private sector working together.

chwmniâu. Yn drydydd, bydd y prosiect Cynghrair Meddalwedd, dan arweiniad Prifysgol Abertawe, yn darparu cymorthdaliadau er mwyn i fyfyrwyr addysg uwch dreulio cyfnod ar leoliad gyda busnesau bach a chanolig eu maint, a fydd yn arwain at bartneriaethau trosglwyddo gwybodaeth. Mae'r tair enghraift hynny yn Abertawe yn enghreifftiau gwych lle mae'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gweithio gyda'i gilydd.

David Lloyd: Fel y gwyddoch, Ddirprwy Brif Weinidog, mae Gorsaf Fysiau'r Cwadrant yn Abertawe yn cael ei hailadeiladu yn gyfan gwbl ar hyn o bryd. A allwch chi olrhain y berthynas rhwng cyllid eich adran chi a chyllid o Ewrop wrth ddatblygu prosiectau hirddisgwylledig fel yr orsaf fysiau honno?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni fyddem wedi gallu darparu prosiect mor fawr â hwn heb bartneriaeth o safbwyt y cyllid. Yr ydym yn falch bod y cynllun wedi'i gytuno ym mis Mai y llynedd, sy'n golygu y byddwn yn symud ymlaen i gwblhau'r cynllun erbyn diwedd eleni, gobeithio. Mae cais am arian ychwanegol o arian cydgyfeiriant, a gobeithiwn y caiff y mater hwn ei ystyried yn fuan rhwng swyddogion WEFO a swyddogion fy adran i. Mae hwn yn gynllun pwysig ac yr ydym yn falch ei fod yn symud ymlaen.

Tolls for Severn Crossings

Q2 Michael German: What discussions has the Minister had with the UK Minister for Transport regarding tolls for Severn crossings? OAQ(3)1370(ECT)

The Deputy First Minister: I have spoken to the Secretary of State for Transport about a range of topics, including cross-border issues. In addition, my officials have regular discussions with their counterparts in England about issues associated with the Severn crossings.

Michael German: They should, therefore, be in a position to tell us when we are likely to see the new credit card and debit card facilities coming into play on the Severn crossings. Who will pay for the bank

David Lloyd: As you will know, Deputy First Minister, the Quadrant bus station in Swansea is being rebuilt entirely at the moment. Could you outline the relationship between the finance from your department and European funding in developing long-awaited projects such as that bus station?

The Deputy First Minister: We would not have been able to deliver such a major project as this without a partnership on the finance side. We are pleased that the scheme was approved last May, which means that we can move forward to complete the scheme by the end of this year, hopefully. There is a bid for additional funding from convergence funding, and we hope this matter will be considered soon by WEFO officials and officials in my department. This is an important scheme and we are pleased to see it moving forward.

Tollau i groesi Afon Hafren

C2 Michael German: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog Trafnidiaeth y DU ynghylch tollau i groesi Afon Hafren? OAQ(3)1370(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf wedi trafod amrywiol faterion yn rheolaidd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, gan gynnwys materion trawsffiniol. Mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau rheolaidd hefyd gyda'u cyd-swyddogion yn Lloegr am faterion yn gysylltiedig â chroesfannau afon Hafren.

Michael German: Felly, dylent allu dweud wrthym pryd y byddwn yn debygol o weld cyflwyno'r cyfleusterau newydd ar bontydd Hafren i fedru talu â chardiau credyd a chardiau debyd? Pwy fydd yn talu'r ffioedd a

charges? Will it be Severn Bridges plc, the UK Government or the motorist?

The Deputy First Minister: That is a matter for discussion between the relevant bodies delivering the scheme. This is not a devolved matter. You will be aware that credit and debit cards are likely to be usable on the bridges in the latter part of this year, which is an excellent innovation. The costing arrangements are a matter for the concessionaire and the other organisations involved.

Chris Franks: I also have been in contact with the Secretary of State for Transport, and in a letter to me he has ruled out a freeze in Severn bridge tolls. I have further met with hauliers from the Freight Transport Association who made it clear that the level of toll acts as a serious disincentive to Welsh businesses, with one company alone paying over £192,000 a year. I believe that the toll should be frozen in order to help companies. The Severn bridge tolls are among the highest in the UK, at over £16 for a heavy goods vehicle. The Humber bridge, like the Severn bridge, provides vital access across an estuary, but its tolls have been frozen, in part thanks to a grant from the UK Government. Do you think that the UK Government should continue to charge a toll when it takes control of the bridge in 2016?

The Deputy First Minister: The issue here is not whether the Secretary of State for Transport approves the increase every year—that is set down in statute. The Act that allowed the concession specified that there will be an increase based on the RPI every year, so the Secretary of State for Transport has no say in the level of the tolls. The Humber bridge is different, because the Secretary of State has to give specific approval annually for the setting of the tolls. Unless there is a change in legislation, the Secretary of State for Transport would not be able to impose a freeze or a reduction in the likely increase.

What will happen when the concession

godir gan y banciau? Ai Severn Bridges plc, Llywodraeth y DU ynteu'r modurwr?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae hynny'n fater i'w drafod ymmsg y cyrff perthnasol sy'n darparu'r cynllun. Nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Gwyddoch ei bod yn debygol y bydd modd defnyddio cardiau credyd a chardiau debyd ar y pontydd yn ddiweddarach eleni, sy'n ddatblygiad ardderchog. Mater i'r trwyddedig a'r sefydliadau eraill dan sylw yw'r trefniadau costio.

Chris Franks: Yr wyf fi hefyd wedi bod mewn cysylltiad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, ac mewn llythyr ataf dywedodd na allai addo na fyddai'r tollau ar bontydd Hafren yn cael eu rhewi. Yr wyf hefyd wedi cyfarfod â chludwyr o'r Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau, a eglurodd fod lefel y doll yn anghymhelliaid difrifol i fusnesau Cymru, ac un cwmni'n unig yn talu dros £192,000 y flwyddyn. Credaf y dylid helpu cwmniau trwy rewi'r doll. Mae tollau pontydd Hafren ymmsg yr uchaf yn y DU, gyda thâl o dros £16 am gerbyd nwyddau trwm. Mae pont Humber, fel pont Hafren, yn llwybr hollbwysig ar draws aber, ond cafodd y tollau ar y bont honno eu rhewi, diolch yn rhannol i grant gan Lywodraeth y DU. A ydych yn credu y dylai Llywodraeth y DU barhau i godi toll pan ddaw'n gyfrifol am reoli'r bont yn 2016?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid a yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn cymeradwyo'r cynnydd bob blwyddyn yw'r mater dan sylw yma—mae'r cynnydd wedi'i gofnodi mewn statud. Yr oedd y Ddeddf a ganiataodd y drwydded yn pennu y bydd cynnydd bob blwyddyn ar sail y mynegai prisiau manwerthu. Felly, nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ddim llais yn y broses o bennu lefel y tollau. Mae pont Humber yn wahanol, oherwydd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cymeradwyaeth benodol bob blwyddyn i bennu lefel y tollau. Oni bai bod y ddeddfwriaeth yn newid, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn gallu rhewi'r tollau neu leihau'r cynnydd tebygol.

Mae beth fydd yn digwydd pan ddaw'r

comes to an end, and the bridge reverts to the ownership of the UK Government, is a matter that we will have to discuss at that time.

Andrew R.T. Davies: You will be aware that, during the recent inclement weather, the Severn bridge was closed on several occasions—which I fully agree with, given the pictures that I saw, because there was a threat to life and limb. Are your officials engaged with the operators of the bridge and with Ministers in London regarding measures to minimise these closures, particularly given the substantial revenue that the bridge generates? Suspension bridges in other parts of the world with far more challenging climates do not seem to suffer such disruption.

The Deputy First Minister: Yes, my officials are in contact on this matter, and we expressed similar concerns because this also happened last winter. We want to minimise disruption for the travelling public and for businesses.

Transport Priorities

Q3 Nick Ramsay: Will the Minister make a statement on his transport priorities for Monmouth? OAQ(3)1355(ECT)

The Deputy First Minister: My priorities are to provide a safe, reliable and effective transport network, as detailed in the national transport plan.

2.20 p.m.

Nick Ramsay: I want to raise an issue that I raised with the First Minister the week before last—that of the Assembly Government's transport policy in the run-up to and during the Ryder Cup. There is already a severe strain, in my view, on train services in south-east Wales, especially in Monmouthshire, and particularly when rugby matches are held in Cardiff. We have seen some people being unable to get seats, which has badly affected some of my disabled constituents. What strategy are you putting forward to make sure

drwydded i ben, a phan fydd y bont yn dychwelyd i berchnogaeth Llywodraeth y DU, yn fater y bydd yn rhaid inni ei drafod bryd hynny.

Andrew R.T. Davies: Gwyddoch fod pont Hafren wedi'i chau droeon yn ystod y tywydd garw a gafwyd yn ddiweddar—ac yr wyf yn cytuno'n llwyr â hynny, o'r lluniau a welais, oherwydd yr oedd y sefyllfa'n berygl bywyd. A yw eich swyddogion yn cael trafodaethau gyda gweithredwyr y bont a chyda Gweinidogion yn Llundain am fesurau i sicrhau cau'r bont mor anaml ag sy'n bosibl, yn enwedig o gofio'r refeniw sylweddol y mae'r bont yn ei gynhyrchu? Ymddengys nad yw'r tywydd yn amharu i'r un graddau ar bontydd crog mewn rhannau eraill o'r byd, lle mae'r tywydd yn fwy heriol o lawer.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae fy swyddogion yn cael trafodaethau am y mater, a mynegwyd pryderon tebyg gennym oherwydd bod yr un peth wedi digwydd y llynedd. Yr ydym am sicrhau amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar y cyhoedd sy'n teithio ac ar fusnesau.

Blaenoriaethau Trafnidiaeth

C3 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau trafnidiaeth ar gyfer Mynwy? OAQ(3)1355(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Fy mlaenoriaethau yw darparu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, dibynadwy ac effeithiol, fel y nodwyd yn manylion y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

Nick Ramsay: Yr wyf am godi problem a godais gyda'r Prif Weinidog wythnos cyn yr wythnos diwethaf—sef polisi trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y cyfnod sy'n arwain at gystadleuaeth Cwpan Ryder ac yn ystod y gystadleuaeth ei hun. Yn fy marn i, mae gwasanaethau trenau yn y de-ddwyrain eisoes dan straen difrifol, yn enwedig yn Sir Fynwy, ac yn arbennig pan fydd gemau rygbi'n cael eu cynnal yng Nghaerdydd. Gwelsom rai pobl yn methu â chael seddau, sydd wedi effeithio'n arw ar rai o'm

that these types of problems are not magnified during the week of the Ryder Cup, for all of my constituents but specifically for disabled people who need some support from your Government?

hetholwyr anabl. Pa strategaeth yr ydych yn ei chyflwyno i sicrhau na fydd roblemau felly'n dwysáu yn ystod wythnos Cwpan Ryder i'm hetholwyr i gyd, ond yn benodol i bobl anabl sydd ag angen rhywfaint o gymorth gan eich Llywodraeth?

The Deputy First Minister: I acknowledge the particular pressures that exist when people need to travel when specific events, such as rugby internationals or the Ryder Cup, are being held. We have regular meetings with transport officials and those involved in providing the transport—specifically in relation to the Ryder Cup. We have a number of matters in place that we hope will overcome any potential difficulties. In relation to rugby international match days, we have had discussions with Arriva Trains to see whether we can enhance services. Some of those discussions are now very positive.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn cydnabod y pwysau neilltuol sydd pan fydd angen i bobl deithio yn ystod digwyddiadau penodol megis gemau rygbi rhyngwladol neu gystadleuaeth y Cwpan Ryder. Byddwn yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion trafnidiaeth a'r rheini sy'n ymwneud â darparu'r drafnidiaeth—yn benodol yng nghyswllt y Cwpan Ryder. Mae gennym nifer o fesurau yr ydym yn gobeithio a fydd yn goresgyn unrhyw anawsterau posibl. O ran y diwrnodau pan gynhelir gemau rygbi rhyngwladol, yr ydym wedi cael trafodaethau gyda Trenau Arriva i weld a allwn wella gwasanaethau. Mae rhai o'r trafodaethau hynny'n gadarnhaol iawn erbyn hyn.

Support for Businesses

Q4 Jeff Cuthbert: Will the Minister provide an update on support for businesses in Caerphilly? OAQ(3)1351(ECT)

Cefnogaeth ar gyfer Busnesau

C4 Jeff Cuthbert: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth i fusnesau yng Nghaerffili? OAQ(3)1351(ECT)

The Deputy Minister for Innovation, Science and Skills (Lesley Griffiths): We are providing extensive support to businesses in Caerphilly. Through the single investment fund, we have invested £23 million over the past 12 months to create or safeguard 1,374 jobs and lever in £80 million of capital investment. Our workforce development programmes are assisting 116 businesses with 11,000 employees.

Y Dirprwy Weinidog dros Arloesi, Gwyddoniaeth a Sgiliau (Lesley Griffiths): Yr ydym yn darparu cefnogaeth helaeth i fusnesau yng Nghaerffili. Trwy'r gronfa buddsoddi sengl, yr ydym wedi buddsoddi £23 miliwn y 12 mis diwethaf i greu neu ddiogelu 1,374 o swyddi ac ysgogi buddsoddiad cyfalaf o £80 miliwn. Mae ein rhagleni datblygu'r gweithlu yn cynorthwyo 116 o fusnesau sydd â 11,000 o weithwyr.

Jeff Cuthbert: I recently visited two small and medium-sized enterprises based at the Tredomen Business and Technology Centre in my constituency. The first of these was the Utility and Environmental Solutions Ltd consultancy firm, which helps its clients to manage their utility costs and environmental impact on a risk-free basis but has experienced some difficulties—I was advised—in engaging the public sector in Wales for opportunities to add value. The second of these was Envirogene, a high-tech firm, which uses molecular diagnostics and

Jeff Cuthbert: Yn ddiweddar bûm yn ymweld â dau fusnes bach a chanolig eu maint yng Nghanolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen yn fy etholaeth. Y cyntaf o'r rhain oedd cwmni ymgynghori Utility and Environmental Solutions Ltd, sy'n helpu ei gleientiaid i reoli eu costau o ran cyfleustodau a'u heffaith ar yr amgylchedd heb risg. Ond cefais wybod bod y cwmni wedi cael rhai anawsterau wrth geisio cael y sector cyhoeddus yng Nghymru i ymwneud â chyfleoedd i ychwanegu gwerth. Yr ail fusnes oedd Envirogene, cwmni uwch-

nanotechnology to manage natural resources and has benefited recently from EU structural funds through the JEREMIE programme and has stressed to me the importance of high-tech firms with growth potential engaging with European funding. Do you agree, Deputy Minister, that it is vital that our economic policy supports knowledge-intensive, high-tech and green businesses like these, which will be crucial to the Welsh economy, not just immediately post-recession but also for the long-term?

dechnoleg sy'n defnyddio diagnosteg folecwaidd a nanotechnoleg i reoli adnoddau naturiol, ac sydd wedi elwa o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn ddiweddar trwy'r rhaglen JEREMIE. Mae'r cwmni wedi pwysleisio wrthyf mor bwysig yw sicrhau bod cwmnïau uwch-dechnoleg sydd â'r potensial i dyfu yn ymwneud â chyllid Ewropeaidd. A ydych yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, ei bod yn hanfodol i'n polisi economaidd gefnogi busnesau gwyrrd, uwch-dechnoleg a dwys o ran gwybodaeth fel y rhain, a fydd yn hollbwysig i economi Cymru, nid yn unig yn y cyfnod yn union ar ôl y dirwasgiad ond yn y tymor hir hefyd?

Lesley Griffiths: You are absolutely right in your remarks, Jeff, about support for knowledge-intensive companies. They are hugely important to Wales's ongoing success for the future and, more pertinently, as we prepare for the upturn. I can assure you that the Deputy First Minister will take full account of the knowledge sector as the economic renewal programme develops and progresses over the coming months.

Lesley Griffiths: Yr ydych yn llygad eich lle, Jeff, wrth ddweud bod angen cefnogaeth ar gwmmiïau dwys o ran gwybodaeth. Maent yn hynod o bwysig i lwyddiant parhaus Cymru yn y dyfodol, ac yn fwy perthnasol wrth inni baratoi ar gyfer cyfnod o welliant. Gallaf eich sicrhau y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn ystyried y sector gwybodaeth yn llawn wrth i'r rhaglen i adnewyddu'r economi ddatblygu a mynd rhagddi dros y misoedd i ddod.

I am not aware of the difficulties that UES is having in engaging with the public sector, but if you write to me, I will look into the matter further.

Nid wyf yn ymwybodol o'r anawsterau y mae UES yn eu cael i ymwneud â'r sector cyhoeddus, ond os ysgrifennwch ataf, fe ymchwiliaf ymhellach i'r mater.

William Graham: I have received correspondence from a small business in Caerphilly disappointed that its business—a specialist car parts company—would meet criteria for local authority support in adjoining authorities but not in Caerphilly. How is your Government acting in partnership with local government in South Wales East to target business support where it is most needed?

William Graham: Yr wyf wedi cael gohebiaeth gan fusnes bach yng Nghaerffili sy'n siomedig y byddai'r busnes—cwmni cydrannau ceir arbenigol—yn bodloni'r meinu prawf ar gyfer cael cymorth awdurdod lleol mewn awdurdodau cyfagos, ond nid yng Nghaerffili. Sut mae eich Llywodraeth yn gweithredu mewn partneriaeth â llywodraeth leol yn Nwyrain De Cymru i sicrhau bod cymorth i fusnesau'n cael ei dargedu at y mannau lle mae ei angen fwyaf?

Lesley Griffiths: We have several programmes. Again, if you write to me specifically about the company that you have in mind, I will look into the issue further.

Lesley Griffiths: Mae gennym sawl rhaglen. Eto, os ysgrifennwch ataf yn benodol am y cwmni sydd gennych dan sylw, fe ymchwiliaf ymhellach i'r mater.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)1333(ECT), yn ôl.

The Presiding Officer: Question 5, OAQ(3)1333(ECT), is withdrawn.

Bus Schemes

Cynlluniau Bysiau

Q6 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on the integration of concessionary bus schemes in England, Wales and Scotland? OAQ(3)1347(ECT)

The Deputy First Minister: We are continuing to work with the other UK administrations on the practicalities of developing a UK-wide scheme, although current differences in entitlement, operating procedures and the need for funding make such an aspiration difficult to deliver in the short term.

Kirsty Williams: Thank you, Deputy First Minister, for that answer, but I am sure that you will be aware that that will be of great disappointment to many people on both sides of the border who, quite understandably, cannot understand why we cannot devise a scheme between politicians in England, Wales and Scotland that would allow pensioners to use their bus passes wherever they travel in the UK.

Could you put, in the Library, a more substantive answer to Members, so that we can be aware of the specific difficulties that you are experiencing in your negotiations? We have spent a number of years looking at this proposal and, each year, we are promised further progress, but we do not seem to be getting anywhere.

The Deputy First Minister: I have been questioned extensively on this subject, as has the Secretary of State for Transport, who takes a similar line on this issue. Although I am sure that it is already available on the web, I can place in the Library a copy of the exchanges between the Secretary of State for Transport and the Welsh Affairs Committee on this topic, which will explain the rationale. I am happy to write a letter to you, Kirsty, which I will place in the Library, explaining some of these difficulties. There are two problems: the first is that there are different entitlements and eligibility criteria in Wales, England and Scotland, and the second is that you should not underestimate the funding issues. There would be challenging funding issues if we were to introduce a scheme right across the United Kingdom. I will certainly write a letter explaining this to you.

C6 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am integreiddio'r cynlluniau teithio rhatach ar fysiau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban? OAQ(3)1347(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydym yn parhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU ar ymarferoldeb datblygu cynllun ledled y DU, er bod y gwahaniaethau presennol mewn gweithdrefnau hawlio, gweithredu a'r angen am gyllid yn ei gwneud yn anoddach cyrraedd y nod hwn yn y tymor byr.

Kirsty Williams: Diolch ichi, Ddirprwy Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw, ond yr wyf yn siŵr y gwyddoch y bydd hynny'n siom fawr i lawer o bobl y naill ochr a'r llall i'r ffin, sydd, yn naturiol, yn methu â deall pam na allwn lunio cynllun ymysg gwleidyddion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a fyddai'n caniatáu i bensiynwyr ddefnyddio'u tocyn bws rhad ac am ddim, ni waeth ble yn y DU y maent yn teithio.

A wnewch chi roi ateb mwy sylweddol yn y Llyfrgell i Aelodau, fel y gallwn fod yn ymwybodol o'r anawsterau penodol yr ydych yn eu cael yn eich trafodaethau? Yr ydym wedi treulio nifer o flynyddoedd yn edrych ar y cynnig hwn, a bob blwyddyn cawn addewid o gynnydd pellach, ond ymddengys nad oes dim yn digwydd.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf wedi cael fy holi'n helaeth am y pwnc hwn, fel y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, sydd â barn debyg i mi am y mater. Er fy mod yn siŵr ei fod eisoes ar gael ar y we, gallaf roi yn y Llyfrgell gopi o'r ohebiaeth rhyngof a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a'r Pwyllgor Materion Cymreig am y mater hwn, a fydd yn egluro'r rhesymeg. Yr wyf yn fodlon ysgrifennu llythyr atoch, Kirsty, yn egluro rhai o'r anawsterau hyn, a rhoddaf y llythyr hwnnw yn y Llyfrgell. Mae yna ddwy broblem: y broblem gyntaf yw bod y meini prawf ar gyfer pwysydd â hawl i'r tocynnau a phwy sy'n gymwys i'w cael yn wahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a'r ail broblem yw y dylech sylweddoli maint y problemau cyllido. Byddem yn wynebu problemau cyllido anodd pe baem yn cyflwyno cynllun ar draws y Deyrnas Unedig i gyd.

Ysgrifennaf atoch ar bob cyfrif i egluro hyn ichi.

Gareth Jones: Yn ogystal ag edrych ar y problemau wrth integreiddio'r amrywiol gynlluniau tocynnau bws rhatach sydd ar waith o fewn gwledydd Prydain, yr wyf yn sicr y byddech am edrych ar rai anghysonderau yn y cynllun tocynnau bws am ddim ar gyfer pobl anabl yng Nghymru, sy'n gynllun rhagorol fel arall. Er enghraifft, yn ddiweddar, tynnodd Mencap fy sylw at rai problemau, lle nad oedd gofalwyr na chymdeithion yn gallu teithio am ddim gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu, er bod y bobl ifanc eu hunain yn gymwys am docynnau o'r fath. Mewn achosion eraill, nid oedd y bobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael teithio am nad oedd gofalwyr yno hefyd. Ar ben hyn, mae rhai cyfyngiadau o ran amserau teithio a'r math o fws a ddefnyddir, sy'n arwain at rywfaint o ddryswn. Mae hyn yn amlwg yn achosi anawsterau i bawb ac, o'r herwydd, hoffwn wybod a ydych yn ymwybodol o'r pryderon hyn ac a ydych yn gallu cymryd camau i fynd i'r afael â hwy.

Y Dirprwy Brif Weinidog: O dan y cynllun teithio am ddim, mae gan awdurdodau lleol yr hawl i roi tocyn yn rhad ac am ddim i bobl sy'n teithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu pan fod angen iddynt deithio gyda rhywun arall ar drafnidiaeth gyhoeddus. Pan mae rhywun yn gwneud cais am docyn o'r fath i'r awdurdod lleol, dylai'r awdurdod gymryd cyngor gan rywun â'r cymwysterau meddygol priodol i ystyried a oes angen i ofalwr deithio hefyd. Mae'r hawl gan awdurdodau lleol i wneud hynny. Os oes gennych enghreifftiau o achosion penodol sy'n dangos nad yw hynny'n digwydd mewn rhai ardaloedd, byddwn yn falch iawn o weld y rheini cyn codi'r mater gyda'r awdurdod lleol perthnasol.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 7, OAQ(3)1352(ECT), i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

Economi Cymru

C8 Bethan Jenkins: A yw'r Gweinidog wedi asesu effaith y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd y cyfnod oer diweddar

Gareth Jones: In addition to looking at the problems with integrating the different concessionary fares schemes operating in Britain, I am sure you would want to look at some inconsistencies in the free bus travel scheme for disabled people in Wales, which is otherwise an excellent scheme. For example, Mencap recently drew my attention to some problems where carers or companions were unable to travel free of charge with young people with learning disabilities, even though the young people themselves were eligible for free travel. In other cases, the young people with learning disabilities were unable to travel because they were not accompanied by carers. In addition, there are some limitations in relation to travelling times and the kind of bus used, which leads to some confusion. This obviously causes difficulties to all concerned, and therefore I should like to know whether you are aware of these concerns and are able to take deal with them.

The Deputy First Minister: Under the free travel scheme, local authorities do have the right to provide a ticket free of charge to those travelling with a person with learning disabilities when they need to be accompanied by someone else on public transport. When an application is made to the local authority for such a ticket, the authority should take the appropriate medical advice before considering whether a carer needs to travel. Local authorities have the right to do that. If you have any examples of specific cases that show that that is not happening in some areas, I should be pleased to see them before I raise the matter with the relevant local authority.

The Presiding Officer: Question 7, OAQ(3)1352(ECT), has been transferred for written answer by the Minister for Environment, Sustainability and Housing.

Welsh Economy

Q8 Bethan Jenkins: Has the Minister made an assessment of the effect on the Welsh economy of the working days that have been

hwn ar economi Cymru? OAQ(3)1332(ECT)

lost during this recent cold spell?
OAQ(3)1332(ECT)

Q12 Angela Burns: What assessment has the Minister made of the impact of the adverse weather conditions on the economy of Wales? OAQ(3)1366(ECT)

C12 Angela Burns: Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith amodau'r tywydd garw ar economi Cymru? OAQ(3)1366(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid yw'n bosibl rhoi amcangyfrif dibynadwy o effaith economaidd cyffredinol y tywydd garw diweddar. Bu tarfu ar gynhyrchu a gwariant, ond mae'r dystiolaeth o gyfnodau tebyg o dywydd drwg yn awgrymu mai bach iawn fydd yr effaith gyffredinol ar y cynnrych mewnwladol crynswth. Ni fydd y data perthnasol ar gael am dipyn.

The Deputy First Minister: It is too early to provide a reliable estimate of the overall economic impact of the recent inclement weather. Production and spending was disrupted, but evidence of similar periods of severe weather suggests the net effect on GDP will be minor. Relevant data will not be available for some time.

Bethan Jenkins: Yr wyf yn edrych ymlaen at weld y data hynny pan fyddant yn cael eu cyhoeddi. Yr wyf am ddiolch i'r bobl a fu'n helpu i glirio'r ffyrdd yn ystod y tywydd garw, yn enwedig ein hawdurdodau lleol. A oes strategaeth y gellid ei rhoi ar waith er mwyn annog awdurdodau lleol a'r sector preifat i gydweithio er mwyn taclo'r tywydd gwael a'r ffyrdd yn y dyfodol?

Bethan Jenkins: I look forward to seeing the data when they are published. I wish to thank all the people who helped clear the roads during the inclement weather, especially our local authorities. Is there a strategy that could be implemented to encourage local authorities and the private sector to co-operate in order to deal with the bad weather and the roads in future?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydych yn gofyn cwestiwn pwysig, oherwydd un peth yr ydym i gyd yn ymwybodol ohono o ran y tywydd drwg oedd nad oedd pobl yn gallu teithio a chafodd hynny gryn effaith ar fusnesau ac ar lefelau cynhyrchu.

The Deputy First Minister: You ask an important question, because one thing we all know about the inclement weather is that people were unable to travel, which had a significant affect on businesses and production levels.

2.30 p.m.

Mae angen cydweithio rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cadw'r ffyrdd ar agor. Mewn rhannau helaeth o Gymru, y bartneriaeth rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol sy'n caniatáu i hynny ddigwydd, ac er mai ni sydd yn gyfrifol am gadw'r prif ffyrdd ar agor, cytundeb gydag awdurdodau lleol sy'n gweithredu hynny ar lawr gwlad. Felly, yr wyf am ofyn i'm swyddogion asesu a oes modd gwneud hynny hyd yn oed yn fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol. Yr ydym yn ymwybodol bod angen inni hefyd gynnal trafodaethau gyda'r sector preifat a gwasanaethau cyhoeddus fel ysbystai ac ysgolion, i sicrhau ein bod yn gallu lleihau yn effeithiol effaith y tywydd drwg ar wasanaethau angenrheidiol.

We need collaboration between the Assembly and local authorities to ensure that we can keep the roads open. In large parts of Wales, it is the partnership between the Assembly and the local authorities that allows that to happen, because, although we are responsible for keeping the main roads open, it is an agreement with the local authorities that delivers that on the ground. Therefore, I intend to ask my officials to assess whether it is possible to do that even more effectively in future. We are aware that we also need to have discussions with the private sector and public services such as hospitals and schools, to ensure that we can minimise the impact of bad weather on essential services.

Angela Burns: I was very interested to hear your answer to Bethan, and I agree with her in that many local authorities did a very good job given such tricky circumstances. Although there has not been a great effect on GDP in your view, one group of people who have been affected are those who will not get paid for the days that they were unable to go to work and were stuck in their homes. Will you consider setting up a small contingency group—if you have not already done so—to put together a plan that would swing in whenever the Met Office predicts bad weather? It could range from simple things such as having grit bins in schools and hospital car parks—and ensuring that the ones on the roads are full—through to, as suggested to me by farmers, establishing a collection point for farmers to take their milk to, as happened in the days of old when local milk tankers could not get up the farm tracks. Farmers were pouring away milk recently and, looking throughout the whole of Wales, we can see many other areas that would benefit from a contingency plan that comes into force when these kinds of circumstances arise.

The Deputy First Minister: I am grateful to you for outlining some of the practical measures that can be looked at in relation to the community coming together and helping each other. I very much agree that it is not just about local authorities and the Government; it is also about individuals, private businesses and other organisations. There is a contingency plan that kicks in when the weather gets very bad. A UK-wide contingency committee was set up in order to discuss the allocation of salt between the various countries of Britain and to local authorities. I will ask my officials to look at some of the ideas that you have put forward. One consequence of the bad weather was that many people worked from home and e-mail traffic on the broadband network in Wales shot up during that period. That shows that, especially in periods of bad weather, people are increasingly looking for opportunities to work from home.

Angela Burns: Yr oedd yn ddiddorol iawn clywed eich ateb i Bethan, a chytunaf â hi fod nifer o awdurdodau lleol wedi gwneud gwaith da iawn o gofio bod yr amgylchiadau mor anodd. Er nad oedd yr effaith ar gynnwyrch mewnwladol crynswth yn fawr yn eich tyb chi, un grŵp o bobl y mae'r tywydd drwg wedi effeithio arnynt yw'r rheini na fyddant yn cael eu talu am y diwrnodau pan oeddent yn gaeth yn eu cartrefi ac yn methu â chyrraedd y gwaith. A wnewch chi ystyried sefydlu grŵp bach cynllunio wrth gefn—os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny—i lunio cynllun a fyddai'n cael ei weithredu bob tro oan fydd y Swyddfa Dywydd yn rhagweld tywydd gwael? Gallai amrywio o gamau syml megis cael biniau graean mewn ysgolion a pharciau ceir mewn ysbytai—a sicrhau bod y rhai ar y ffyrdd yn llawn—i gamau a awgrymodd ffermwyr wrthyf, sef trefnu pwyt casglu i ffermwyr fynd â'u llaeth iddo, fel a ddigwyddai ers talwm pan na allai tanceri llaeth lleol deithio ar hyd lonydd ffermydd. Yn ddiweddar yr oedd ffermwyr yn taflu llaeth, ac o edrych ar Gymru gyfan, gallwn weld y byddai llawer o ardaloedd eraill yn elwa o gynllun wrth gefn a fyddai'n dod i rym mewn amgylchiadau tebyg i'r rhain.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am amlinellu rhai o'r mesurau ymarferol y gellir eu hystyried i gael y gymuned i ddod ynghyd a chael pobl i helpu ei gilydd. Cytunaf yn llwyr nad mater i awdurdodau lleol a'r Llywodraeth yn unig mohono; mae'n ymneud hefyd ag unigolion, busnesau preifat a sefydliadau eraill. Mae yna gynllun wrth gefn sy'n dod i rym pan fydd y tywydd yn mynd yn wael iawn. Sefydlwyd pwylgor cynllunio wrth gefn ar gyfer y DU gyfan i drafod sut y byddai halen yn cael ei rannu rhwng gwahanol wledydd Prydain a rhwng awdurdodau lleol. Gofynnaf i'm swyddogion edrych ar rai o'r syniadau a gyflwynwyd gennych. Un o ganlyniadau'r tywydd gwael oedd bod llawer o bobl wedi gweithio gartref, a gwelwyd llawer mwy o negeseuon e-bost yn cael eu cyfnewid ar y rhwydwaith band eang yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw. Dengys hynny fod pobl yn chwilio mwyfwy am gyfleoedd i weithio gartref, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd gwael.

Alun Davies: You will have heard economists discussing the overall GDP figures yesterday, and most believed that there would be a significant impact on the country's output from the poor weather at the beginning of this month. We saw two things at the beginning of this month. First, we saw many people—council workers and others—working their hardest to ensure that services were provided, roads were open and businesses could function. Secondly, we saw a failure of management and of Government to co-ordinate its responses to these issues. Will you consider instigating a review of how the Welsh Assembly Government responded to the weather, how it co-ordinated the work of local authorities to ensure that our major roads and routes were open, and how it supported local authorities to maintain critical routes within communities outside of the trunk road network? That certainly did not happen in many parts of Wales earlier this month. As a consequence, not only were many services unavailable and days of work lost, as Angela Burns pointed out, but the economy of this country suffered.

The Deputy First Minister: What I said was that it was too early to say whether or not there has been an impact. Economists have analysed this and I have asked the economist advising the Welsh Assembly Government to look at historical data. What I am told is that in 1963, when an impact assessment was made after the event, the actual impact on GDP was pretty low. All I am saying is that we will have to wait until we have data for this period. I reject the implication that there was a lack of co-ordination between the Welsh Assembly Government and local authorities. In fact, the relationship worked extremely well. The Welsh Assembly Government was able to work with local authorities to keep our principal roads and trunk roads open. We would not have been able to keep the trunk roads open without a strong relationship with local authorities. The only two roads where we have people working directly for us as the Assembly Government are the M4 and the M48. All the other trunk roads were kept open because of

Alun Davies: Byddwch wedi clywed economegwyr yn trafod y ffigurau cyffredinol ar gyfer cynnrych mewnwladol crynswth ddoe, ac yr oedd y mwyafri'n credu y byddai'r tywydd gwael ddechrau'r mis yn effeithio'n sylweddol ar allgynnrych y wlad. Gwelsom ddau beth ddechrau'r mis. Yn gyntaf, gwelsom lawer o bobl—gweithwyr cynghorau ac eraill—yn gweithio mor galed ag y gallent i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu, bod ffyrdd ar agror a bod busnesau'n gallu gweithredu. Yn ail, gwelsom fethiant rheolwyr a'r Llywodraeth i gydlyn u eu hymatebion i'r problemau hyn. A wnewch chi ystyried dechrau adolygiad o'r modd yr ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad i'r tywydd, sut y cydlynodd waith awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod ein prif ffyrdd a'n prif lwybrau ar agror, a sut y cynorthwyodd awdurdodau lleol i gadw llwybrau hollbwysig ar agror mewn cymunedau y tu allan i'r rhwydwaith cefnffyrrd? Yn bendant, ni ddigwyddodd hynny mewn llawer rhan o Gymru yn gynharach yn y mis. Golygodd hynny fod nifer o wasanaethau heb fod ar gael a bod diwrnodau o waith wedi'u colli, fel y nododd Angela Burns. Ond golygodd hefyd fod economi'r wlad hon wedi dioddef.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr hyn a ddywedais oedd ei bod yn rhy gynnar dweud a gafodd y tywydd effaith neu beidio. Mae economegwyr wedi dadansoddi'r sefyllfa, ac yr wyf wedi gofyn i'r economegydd sy'n cynghori Llywodraeth y Cynulliad edrych ar ddata hanesyddol. Yr hyn a ddywedwyd wrthyf yw bod yr effaith wirioneddol ar gynnrych mewnwladol crynswth yn 1963, pan gynhalwyd asesiad effaith ar ôl y digwyddiad, yn eithaf isel. Y cyfan yr wyf yn ei ddweud yw y bydd yn rhaid inni aros nes bydd gennym ddata ar gyfer y cyfnod hwn. Yr wyf yn gwrthod yr awgrym bod diffyg cydlyn u wedi bod rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol. Mewn gwirionedd, gweithiodd y berthynas yn eithriadol o dda. Medrodd Llywodraeth y Cynulliad weithio gydag awdurdodau lleol i gadw ein prif ffyrdd a'n cefnffyrrd ar agror. Ni fyddem wedi gallu cadw'r cefnffyrrd ar agror heb fod gennym berthynas gadarn gydag awdurdodau lleol. Yr unig ddwy ffordd y mae gennym bobl yn gweithio'n

our relationship with local authorities. Clearly, there are always lessons to be learned, but, under the circumstances, we should congratulate the employees of both the Welsh Assembly Government and local authorities on working heroically through what was a difficult period.

Bryngle Williams: The cost to the country has been mentioned. A major insurance company has stated that the Welsh economy lost somewhere in the region of £25 million a day for each day of disruption caused by the recent snowfalls. I have listened to the answers that you have given to my colleagues. In relation to the A55, North Wales Police pulled in all its vehicles on the Tuesday, I believe, because it does not have four-wheel drive vehicles. I have mentioned in the Chamber before that one of the leaders of the highways department at Flintshire County Council told me that there was a wait of more than an hour for a blue-light to come in order to open the road so that a snowplough could travel along it—traffic would not give way to the snowplough. I know that the police are outside your jurisdiction, but they are responsible for the A55 and other major trunk roads. If the police cannot be there to marshal the job, who else can?

The Deputy First Minister: We have to accept that these were quite unusual circumstances. The weather was particularly bad, and there will be certain exceptional circumstances that are outside of the ability of any organisation to deal with. If you have a particular concern about the relationship between local authorities and the police, I am happy to take that up with the police. Please write to me and I will do that.

Janet Ryder: An issue that I raised in the Chamber last week and that I have raised with you before is that of the problems that Coed Llandegla, the mountain bike centre in north Wales, has been facing. Coed Llandegla is pleased with its relationship with Denbighshire County Council, which has made every effort to keep the roads leading up to the mountain bike centre open. Unfortunately, given the altitude of the centre

uniongyrchol i Lywodraeth y Cynulliad arnynt yw'r M4 a'r M48. Llwyddwyd i gadw'r holl gefnffyrd eraill ar agor oherwydd ein perthynas ag awdurdodau lleol. Yn amlwg, mae gwersi i'w dysgu bob amser, ond dan yr amgylchiadau dylem longyfarch gweithwyr Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol am weithio'n arwrol drwy gyfnod anodd.

Bryngle Williams: Crybwyllywyd y gost i'r wlad. Mae cwmni yswiriant mawr wedi dweud bod economi Cymru wedi colli'n agos i £25 miliwn y dydd am bob diwrnod yr amharwyd arnom gan yr eira'n ddiweddar. Yr wyf wedi gwrando ar yr atebion s roesoch i'm cydweithwyr. O ran yr A55, tynnodd Heddlu Gogledd Cymru ei holl gerbydau oddi ar y ffyrdd ar y dydd Mawrth a hynny, mi gredaf, am nad oes ganddo gerbydau gyriant pedair olwyn. Yr wyf wedi sôn yn y Siambra'r blaen fod un o arweinwyr yr adran briffyrrd yng Nghyngor Sir y Fflint wedi dweud wrthyf iddo orfod aros dros awr i'r heddlu gyrraedd i agor y ffordd er mwyn i aradr eira allu teithio ar ei hyd—yr oedd y traffig yn gwrthod symud i wneud lle i'r aradr eira. Gwn nad chi sy'n gyfrifol am yr heddlu, ond mae'r heddlu'n gyfrifol am yr A55 a chefnffyrrd pwysig eraill. Os na all yr heddlu fod yno i oruchwyllo'r gwaith, pwy all?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Rhaid inni dderbyn bod y rhain wedi bod yn amgylchiadau digon anarferol. Yr oedd y tywydd yn arbennig o wael, a bydd rhai amgylchiadau eithriadol yn codi na all yr un sefydliad ymdrin â hwy. Os ydych yn pryderu am agwedd benodol ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r heddlu, yr wyf yn fodlon codi hynny gyda'r heddlu. Ysgrifennwch ataf ac fe wnaf hynny.

Janet Ryder: Mater a godais yn y Siambra'r wytynos diwethaf ac yr wyf wedi'i godi gyda chi o'r blaen yw'r problemau y mae Coed Llandegla, y ganolfan beicio mynydd yn y gogledd, wedi bod yn eu hwynebu. Mae'r ganolfan yn fodlon â'r berthynas sydd ganddi â Chyngor Sir Ddinbych, sydd wedi gwneud pob ymdrech i gadw'r ffyrdd at y ganolfan beicio mynydd ar agror. Yn anffodus, o gofio uchder y ganolfan a'r holl eira a gafwyd, ni

and the amount of snow, it could not keep the bike trails open. It has estimated that its business lost roughly £100,000 due to the bad weather. However, should such weather happen again, it is looking to use that to its advantage and perhaps to introduce cross-country skiing and other such outdoor activities. For that to happen, people will need to be able to access the centre, and it will need support as a business to improve its car-parking facilities to ensure that it can grit them, as well to improve the visitor centre. I invite you to visit the mountain bike centre. It is set in a forest, and it comes under your portfolio and that of Elin Jones and perhaps even that of Alun Ffred Jones. It is a small business but a very good employer in the area. Would you be able to take up that invitation to visit it?

The Deputy First Minister: I cannot promise that today, but I will see what can be done to arrange that. Local authorities need to make an assessment of priority areas where roads should be kept open. We have heard about the importance of maintaining access to hospitals and schools, and to businesses where that can be achieved. It is clear that the people who are running the outdoor centre at Llandegla are innovative and should be congratulated on developing their business.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ(3)1318(ECT), yn ôl.

The Economy of Mid and West Wales

Q10 Joyce Watson: What are the Welsh Assembly Government's policies for the next 12 months for the economy of mid and west Wales? OAQ(3)1367(ECT)

The Deputy First Minister: My priorities are delivering Flexible Support for Business, increasing research capacity and capability and commercialisation in key sectors, tackling economic inactivity and pursuing a progressive agenda for transport. My economic renewal programme will examine how best we can focus our efforts and resources across Wales.

allai'r ganolfan gadw'r llwybrau beicio ar agar. Mae'r ganolfan wedi amcangyfrif iddi golli'n agos i £100,000 o ganlyniad i'r tywydd gwael. Fodd bynnag, os daw tywydd tebyg eto, mae'n gobethio manteisio ar hynny, a chyflwyno sgôr traws gwlad efallai, a gweithgareddau awyr agored eraill o'r fath. Er mwyn i hynny ddigwydd, bydd angen i bobl allu cyrraedd y ganolfan, a bydd angen cymorth ar y busnes i wella'i gyfleusterau parcio a sicerhau ei fod yn gallu eu graeanu, a chymorth i wella'r ganolfan ym welwyr. Yr wyf yn eich gwahodd i ymweld â'r ganolfan beicio mynydd. Mae wedi'i lleoli mewn coedwig, ac mae'n perthyn i'ch portffolio chi a phortffolio Elin Jones, a phortffolio Alun Ffred Jones efallai hyd yn oed. Mae'n fusnes bach ond yn gyflogwr da iawn yn yr ardal. A fyddch yn gallu derbyn y gwahoddiad i ymweld â hi?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni allaf addo hynny heddiw, ond caf weld beth y gellir ei wneud i drefnu hynny. Mae angen i awdurdodau lleol asesu ardaloedd a ddylai gael blaenoriaeth o safbwyt cadw ffyrdd ar agar. Clywsom am bwysigrwydd sicerhau bod modd cyrraedd ysbytai ac ysgolion, a chyrraedd busnesau os gellir gwneud hynny. Mae'n amlwg bod y bobl sy'n rhedeg y ganolfan awyr agored yn Llandegla yn ddyfeisgar, a dylid eu llonyfarch ar ddatblygu eu busnes.

The Presiding Officer: Question 9, OAQ(3)1318(ECT), has been withdrawn.

Economi Canolbarth a Gorllewin Cymru

C10 Joyce Watson: Beth yw polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y 12 mis nesaf ar gyfer economi canolbarth a gorllewin Cymru? OAQ(3)1367(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Fy mlaenoriaethau yw cyflwyno Cymorth Hyblyg i Fusnes, cynyddu capaciti a gallu i ymchwilio a gwaith masnacheiddio mewn sectorau allweddol, mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a datblygu agenda flaengar ar gyfer trafnidiaeth. Bydd fy rhaglen adnewyddu'r economi yn archwilio'r ffordd orau inni ganolbwytio ein hymdrehcion a'n hadnoddau ar draws Cymru.

2.40 p.m.

Joyce Watson: I know that you will agree that providing the right environment and infrastructure is crucial for developing the regional economy. We have heard a lot about the plans to electrify the main rail route between London and south Wales. That will make Wales a more competitive and attractive prospect for inward investment. Do you agree that improving rail services west of Swansea will bring similar benefits to the west Wales economy, boosting tourism and freight? Will you, therefore, update Members on the plans to redouble the line between Cockett junction and Dyffryn West junction? Could you confirm that that project is on schedule for completion by the target date of December 2012, and that the Assembly Government is committed to funding vital service enhancements west of Swansea that the redoubling will pave the way for?

Joyce Watson: Gwn y byddwch yn cytuno bod darparu'r amgylchedd a'r seilwaith cywir yn hanfodol ar gyfer datblygu'r economi ranbarthol. Clywsom lawer am y cynlluniau i drydaneiddio'r brif reilffordd rhwng Llundain a'r de. Bydd hynny'n gwneud Cymru yn lle mwy cystadleuol a deniadol o safbwyt mewnfuddsoddi. A ydych yn cytuno y byddai gwella gwasanaethau rheilffyrdd i'r gorllewin o Abertawe yn dod â manteision tebyg i economi'r gorllewin, gan roi hwb i dwristiaeth a gwaith cludo nwyddau? A wnewch chi, felly, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynlluniau i ailddyblu'r rheilffordd rhwng cyffordd y Cocyd a chyffordd Gorllewin Dyffryn? A allech gadarnhau bod disgwyl i'r prosiect hwnnw gael ei gwblhau erbyn y dyddiad targed a bennwyd, sef Rhagfyr 2012, a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gyllido gwelliannau hanfodol mewn gwasanaethau i'r gorllewin o Abertawe, y bydd y gwaith ailddyblu yn paratoi'r ffodd ar eu cyfer?

The Deputy First Minister: I will have to write to you with the specific information that you require, because it is quite a detailed question. Developing rail services west of Swansea is a key objective of this Government. That is why we are prepared to invest substantial sums of money in infrastructure to do so, working with Network Rail. On your earlier point on the importance of the environmental improvements and infrastructure in Mid and West Wales, that is something that we are taking on board in our economic renewal programme, and we want to see what special assistance we can give to develop the economy of the area.

Y Ddirprwy Brif Weinidog: Bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth benodol yr ydych yn gofyn amdani, gan fod y cwestiwn yn un eithaf manwl. Mae datblygu gwasanaethau rheilffyrdd i'r gorllewin o Abertawe yn un o amcanion allweddol y Llywodraeth hon. Dyna pam yr ydym yn barod i fuddsoddi arian sylweddol yn y seilwaith er mwyn gwneud hynny, gan weithio gyda Network Rail. O ran eich pwynnt cynharach am bwysigrwydd y gwelliannau amgylcheddol a'r seilwaith yn y canolbarth a'r gorllewin, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried yn ein rhaglen adnewyddu'r economi, ac yr ydym am weld pa gymorth arbennig y gallwn ei roi i ddatblygu economi'r ardal.

Nerys Evans: Mae band eang yn arf economaidd pwysig iawn, yn arbennig i fusnesau bach a phobl sydd am weithio gartref. Cyfeiriasoch wrth ateb cwestiynau blaenorol at yffaith bod mwy o bobl wedi bod yn gweithio gartref yn ystod yr eira yn ddiweddar. Yr ydym yn gwybod am y gwaith da yr ydych wedi bod yn ei wneud i geisio cael gwared ar y mannau gwan o ran band eang yng Nghymru. A allech roi'r wybodaeth

Nerys Evans: Broadband is an important economic tool, particularly for small businesses and people who want to work from home. You have referred in response to previous questions to the fact that more people had been working from home during the recent period of snow. We know of the good work that you have been doing to try to eliminate not spots in Wales. Can you update us on how the Digital Economy Bill, which

ddiweddaraf inni ar sut mae Mesur Economi Digidol y DU, a gyflwynwyd yn San Steffan, yn effeithio ar Gymru a'r gwaith yr ydych yn ei wneud i gael gwared ar y mannau gwan?

has been introduced in Westminster, will effect Wales and the work that you are doing to try to eliminate the not spots?
.....
.....
.....

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd gwella'r system sy'n caniatáu i bobl gael mynediad at fand eang ar draws Cymru. Mae hwn yn rhan o'r darlun ehangach o ran 'Prydain Digidol'. Yr ydym am ganolbwytio ar sicrhau ein bod yn delio â'r mannau gwan drwy'r cytundeb sydd gennym â BT. Yr ydym hefyd wedi gwneud cyhoeddiad diweddar am yr arian fydd ar gael i gymunedau sicrhau atebion lleol. Mae'r tywydd garw wedi tanlinellu ymhellach yr angen inni sicrhau cyswllt band eang ar draws Cymru, hyd yn oed yn y mannau anodd. Mae'n rhoi'r dewis i bobl i weithio gartref. Mewn tywydd garw, yr ydym wedi gweld bod hynny o fantais sylweddol.

The Deputy First Minister: We recognise the importance of improving the system that allows people to access broadband across Wales. This is part of the bigger picture in terms of 'Digital Britain'. We want to concentrate on ensuring that we deal with the not spots through the agreement that we have with BT. We have also made an announcement recently on the funding that will be available to communities to ensure local solutions. The bad weather has further underlined the need for us to ensure broadband connection across Wales, even in the difficult areas. It gives people the option of working from home. In bad weather, we have seen that that is of great advantage.

Enterprise Births

Q11 David Melding: Will the Minister make a statement on the amount of enterprise births in Wales? OAQ(3)1327(ECT)

The Deputy First Minister: There were 9,290 enterprise births in Wales during 2008 and the total number of active enterprises stood at 91,740. Since I launched the new Start Up service in mid 2008 demand for the service has continued to increase, with 9,000 individuals registered since 1 April 2009.

David Melding: That rate was the second lowest in the UK—only Northern Ireland performed more sluggishly. Interestingly, the survival rates, which are given at one and five-year intervals in Wales, are at the UK average. That indicates that when people in Wales establish a business they have as much chance of success as anyone else in the UK. However, there is a certain lack of confidence. Does this not reflect some of the choices that you have made on business support and its inability to encourage people to take the plunge, particularly with regard to policies such as effective business rate relief?

Mentrau sydd wedi'u Creu

C11 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y mentrau sydd wedi'u creu yng Nghymru? OAQ(3)1327(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Cafodd 9,290 o fentrau eu creu yng Nghymru yn ystod 2008, a 91,740 o fentrau yn weithredol. Ers imi lansio'r gwasanaeth Dechrau Busnes newydd yng nghanol 2008, mae'r galw am y gwasanaeth wedi parhau i gynyddu, ac mae 9,000 o unigolion wedi cofrestru ers 1 Ebrill 2009.

David Melding: Y gyfradd honno oedd yr isaf ond un yn y DU—dim ond Gogledd Iwerddon oedd yn waeth na ni. Mae'n ddiddorol bod y cyfraddau goroesi, a rodir ar ddiwedd cyfnod o flwyddyn a chyfnod o bum mlynedd yng Nghymru, yr un fath â chyfartaedd y DU. Mae hynny'n dangos, pan fydd pobl yng Nghymru yn sefydlu busnes, bod ganddynt gymaint o obaith llwyddo â phawb aral yn y DU. Fodd bynnag, ceir rhyw ddiffyg hyder. Onid yw hynny'n adlewyrchu rhai o'r dewisiadau yr ydych wedi'u gwneud o ran cymorth i fusnesau, ac anallu'r cymorth i annog pobl i fentro, yn enwedig o ran polisiau megis rhyddhad ardrethi busnes effeithiol?

The Deputy First Minister: I am not sure that business rate relief would be the deciding factor in whether an enterprise is established or not. What would be needed is access to good advice and finance. One problem that we have is ensuring that small and medium-sized enterprises, when they start up, have access to adequate financial arrangements, whether that is with the banks or with venture capital. I hope to see what further support that we can give for enterprises to start via my economic renewal programme. You make a good point in saying that once enterprises are set up in Wales their survival rate is equal to that of anywhere else in the United Kingdom.

Eleanor Burnham: Mae'n ddiddorol bod cymaint o wahanol ffigurau y gallwch edrych arnynt ynglŷn â sut yr ydych yn cefnogi gweithwyr sy'n colli eu swyddi. Yr ydym i gyd yn croesawu ProAct a ReAct. A allwch ddweud wrthyf faint o bobl yr ydych wedi eu helpu ar draws gogledd Cymru gyda'r cynlluniau hyn, gan ddefnyddio'r ffigurau diweddaraf?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ni allaf roi'r ffigurau ichi heddiw, ond byddaf yn ysgrifennu atoch i sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth angenrheidiol.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid wyf yn credu mai rhyddhad ardrethi busnes fyddai'r ffactor sy'n gwneud i rywun benderfynu sefydlu menter neu beidio. Yr hyn y byddai ei angen fyddai cyngor da a chyllid. Un broblem sydd gennym yw sicrhau bod gan fusnesau bach a chanolig eu maint fynediad i drefniadau ariannol digonol pan fyddant yn dechrau, boed hynny gyda'r banciau neu gyda chyfalaf menter. Yr wyf yn gobeithio gweld pa gymorth arall y gallwn ei roi i alluogi busnesau i ddechrau, trwy fy rhaglen adnewyddu'r economi. Yr ydych yn gwneud pwyt da wrth ddweud bod cyfradd goroesi busnesau yng Nghymru, ar ôl iddynt gael eu sefydlu, cystal â chyfradd pob man arall yn y Deyrnas Unedig.

Eleanor Burnham: It is interesting that there are so many figures that you can look at regarding the way in which you support workers who lose their jobs. We all welcome ProAct and ReAct. Can you tell me how many people you have helped across north Wales with these schemes, using the latest figures?

The Deputy First Minister: I cannot give you the figures today, but I will write to you to ensure that you have the necessary information.

Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ei Ymchwiliad i'r Diwydiant Llaeth The Rural Development Sub-committee's report on its Inquiry into the Dairy Industry

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn nodi adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ei ymchwiliad i'r diwydiant llaeth a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2009. (NDM4383)

Rhodri Glyn Thomas: Mae'r adroddiad hwn yn sicr yn amserol i'r sector llaeth, sy'n rhan ganolog, hynod bwysig o'r diwydiant amaethyddol a'r economi wledig.

Fi yw Cadeirydd presennol yr is-bwyllgor, a

Rhodri Glyn Thomas: I move that

the National Assembly for Wales:

notes the report of the Rural Development Sub-committee on its inquiry into the dairy industry laid in the Table Office on 26 November 2009. (NDM4383)

Rhodri Glyn Thomas: This report is certainly timely for the dairy sector, which is a central and crucial part of the agricultural industry and the rural economy.

I am the current Chair of the sub-committee,

hoffwn fanteisio ar y cyfle i dalu teyrnged haeddiannol iawn i'm rhagflaenydd, Alun Davies, sydd wedi bod yn Gadeirydd yr is-bwyllgor hwn o'r cychwyn. Sefydlwyd yr is-bwyllgor ar ei awgrym ef oherwydd ei fod yn teimlo bod rhai materion yn ymwneud â chefn gwlad a'r economi wledig yr oedd angen talu sylw iddynt. Mae'r is-bwyllgor wedi gwneud gwaith rhagorol a heriol iawn dan gadeiryddiaeth Alun, ac wedi ymdrin â nifer o faterion pwysig a dadleuol.

Mae Cadeirydd ac aelodau'r is-bwyllgor bob amser wedi llwyddo i gynnal annibyniaeth barn ar y materion hyn, ac mae hynny'n eithriadol o bwysig. Dyma'r unig un o bwyllgorau'r Cynulliad nad yw yn nwylo'r pleidiau gwleidyddol. Mae'n ddi-dâl, ac nid yw'r aelodaeth yn cael ei phennu gan y pleidiau. Mae hynny'n dda o beth, oherwydd oni bai am hynny ni fyddai rhai ohonom yn cael unrhyw swyddi o gwbl yn y lle hwn.

Mae'n dda o beth bod yr is-bwyllgor a'r Cadeirydd yn gallu sicrhau annibyniaeth barn. Mae Alun wedi dangos hynny yn y gorffennol, ac yr wyf yn bwriadu cynnal yr annibyniaeth honno yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn un amserol a phwysig. Yr ydym yn ymwneud â diwydiant sydd mewn argyfwng ac sy'n wynebu her eithriadol yn y dyfodol. Penderfynwyd ymgymryd â'r ymchwiliad hwn wedi'r cyhoeddiad haf y llynedd bod y gwaith prosesu Dairy Farmers of Britain ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cau, gan olygu bod 279 o swyddi yn cael eu colli.

Mae'n bwysig rhoi'r cyhoeddiad hwn yn ei gyd-destun. Mae 900 o swyddi wedi cael eu colli yn y sector prosesu llaeth yng Nghymru ers 2005. Clywyd yn ystod yr ymchwiliad bod gostyngiad o 10.9 y cant ym mhris llaeth yn y flwyddyn ers mis Gorffennaf 2008, a bod gostyngiad o 33 y cant yn nifer y cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf.

Gwelwn o'r ystadegau hynny bod problem sylfaenol yn y sector. Yn syml ddigon, bwriad yr ymchwiliad oedd edrych am resymau dros y problemau sy'n wynebu'r diwydiant llaeth a cheisio cynnig agenda ar gyfer y dyfodol.

and I would like to take this opportunity to pay a very worthy tribute to my predecessor, Alun Davies, who has chaired this sub-committee from the outset. The sub-committee was established on his suggestion as he felt that there were issues relating to rural areas and the rural economy that needed to be addressed. The sub-committee has done some excellent and challenging work under Alun's chairmanship, and has addressed a number of important and contentious issues.

Both the Chair and members of the sub-committee have always managed to maintain an independent opinion on these matters, and that is extremely important. This is the only Assembly committee that is not in the hands of the political parties. It is unpaid, and the membership is not determined by the parties. That is a good thing, because if it were not for that some of us would not get any jobs at all in this place.

It is good that the sub-committee and the Chair can ensure an independent opinion. Alun has demonstrated that in the past, and I intend to maintain that independence in the future.

The report is timely and important. We are dealing with an industry in crisis, which faces a considerable challenge in the future. We decided to undertake this inquiry following the announcement last summer about the closure of the Dairy Farmers of Britain's processing plant in Bridgend, leading to 279 job losses.

It is important to put this announcement in context. Nine hundred jobs have been lost in the milk processing sector in Wales since 2005. During the inquiry we heard of a reduction of 10.9 per cent in the price of milk in the year since July 2008, and a reduction of 33 per cent in the number of milk producers in Wales over the last five years

We see from these statistics that there is a fundamental problem in the sector. Quite simply, the aim of the inquiry was to look for reasons for the problems facing the dairy industry and to try to offer an agenda for the future.

Yr wyf fi, a gweddill yr is-bwyllgor, yn hynod ddiolchgar i'r bobl sy'n ymwneud â'r diwydiant llaeth yng Nghymru a roddodd o'u hamser i gyflwyno dystiolaeth i'r is-bwyllgor. Yr wyf hefyd yn hynod falch o'r ymateb cadarnhaol a gafodd yr adroddiad pan gafodd ei lansio yn y ffaир aeaf yn Llanelwedd fis Tachwedd y llynedd. Yr adborth a gafodd yr is-bwyllgor gan y cynhyrchwyr llaeth, yr undebau amaethyddol, a'r bobl sy'n ymwneud â'r diwydiant yng Nghymru oedd bod yr adroddiad, a'r argymhellion yn benodol, yn cynnig rhaglen ymarferol ar gyfer y Llywodraeth a fyddai'n caniatáu iddi weithredu er lles ac er budd y diwydiant mewn sawl cyfeiriad.

2.50 p.m.

Felly, ar y naill law, croesawaf yn fawr ymateb y Gweinidog oherwydd, ar y cyfan, mae'n derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion y mae'r is-bwyllgor yn eu gwneud. Fodd bynnag, fel Cadeirydd yr is-bwyllgor ac fel un a fu'n derbyn dystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad hwn, yng nghyd-destun nifer o'r argymhellion hyn ni chredaf fod y Gweinidog wedi mynd yn ddigon pell o ran ymateb yn ymarferol i'r hyn yr oeddem yn ei gyflwyno ger ei bron.

Gwnaeth yr is-bwyllgor 11 o argymhellion a fyddai, ym marn yr aelodau, yn cyfrannu at greu dyfodol mwy llewyrchus i'r diwydiant llaeth yng Nghymru. Yr oedd un o'r argymhellion yn ymwneud â sefydlu ombudsmon ar gyfer y diwydiant llaeth yn y Deyrnas Unedig, ac mae'r Gweinidog wedi datgan ar nifer o achlysuron mai dyna oedd ei dewis hi o ran yr opsiynau a gyflwynwyd ger ei bron, sef y byddai ombudsmon a oedd yn gweithredu drwy'r Deyrnas Unedig yn dderbynol yn ei golwg hi.

Mae'r is-bwyllgor yn falch bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn ar hyn o bryd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau y Llywodraeth yn San Steffan, ond byddai'n dda cael gwybod gan y Gweinidog sut mae'n bwriadu bwydo i mewn i'r drafodaeth hon. A yw eisoes wedi gofyn am gyfarfod gyda Peter Mandelson i fynegi eto ddyhead cryf y Cynulliad i gael ombudsmon sydd â digon o bwerau i allu gwneud gwahaniaeth go iawn

I am extremely grateful, as are the other members of the sub-committee, to those people in the dairy industry in Wales who gave of their time to provide evidence to the sub-committee. I am also very pleased with the positive response to the report when it was launched in the winter fair in Builth Wells in November of last year. The feedback received by the sub-committee from dairy producers, the agricultural unions and people involved in the industry in Wales was that the report, and the recommendations in particular, offer a practical programme for the Government, which would allow it to act in the best interests of the industry in many respects.

So, on the one hand I very much welcome the Minister's response because, on the whole, she accepts most of the recommendations made by the sub-committee. However, as Chair of the sub-committee and someone who received evidence during this inquiry, in the context of a number of these recommendations I do not believe the Minister has gone far enough in responding practically to what we presented to her.

The sub-committee made 11 recommendations that would, in the opinion of its members, contribute to creating a more prosperous future for the dairy industry in Wales. One of the recommendations related to establishing a milk industry ombudsman for the UK, and the Minister has stated on many occasions that that was her favoured option of those presented to her, namely that an ombudsman operating throughout the United Kingdom would be acceptable to her.

The sub-committee is pleased that this is currently being considered by the Department for Business, Innovation and Skills of the Westminster Government, but it would be good to hear from the Minister how she intends to feed in to that discussion. Has she already asked for a meeting with Peter Mandelson to express, once again, the Assembly's strong aspiration for an ombudsman with enough powers to make a

yn y maes hwn? Deallaf fod pryderon ynghylch gosod costau ychwanegol ar fusnesau, ond y gwir yw ein bod wedi gweld yn glir bod cost mawr iawn i gynhyrchwyr bach yn sgil peidio â chael rhywun a all sefyll i fyny i archfarchnadoedd ar eu rhan.

Argymhelliad arall yr is-bwyllgor oedd cynyddu cyfran y cynnyrch llaeth sy'n dod o Gymru a gaiff ei gaffael gan y sector cyhoeddus. Yr wyf yn falch o glywed gan y Gweinidog fod yr is-adran datblygu bwyd, pysgodfeydd a'r farchnad yn gweithio ar weithredu'r cynllun gweithredu cyrchu lleol. Fodd bynnag, yr ydych yn cyfeirio'n gyson yn eich ymateb i'r adroddiad hwn at strategaethau sydd eisoes yn bodoli. Yr oedd yr is-bwyllgor yn ymwybodol o'r strategaethau hyn a chyflwynwyd yr argymhellion ar sail yffaith nad oeddem yn teimlo bod y strategaethau hyn yn ddigogn effeithiol yn y maes hwn. O ran y cynllun gweithredu cyrchu lleol, pa dargedau'n union a osodwyd gennych, fel Gweinidog, yn y cynllun hwnnw ar gyfer cynyddu'r cynnyrch llaeth sy'n cael ei gaffael? Pryd yr ydych yn rhagweld y duedd tuag at i lawr yn y gyfran o gynnyrch llaeth Cymreig sy'n cael ei gaffael yng Nghymru yn cael ei gwyrdroi?

Yr wyf yn falch o weld bod y Llywodraeth eisoes yn darparu grantiau i gynorthwyo cynhyrchwyr llaeth i symud tuag at gynhyrchion sy'n ychwanegu gwerth ac, wrth gwrs, yr ydym yn cefnogi hynny. Fodd bynnag, eto, teimlwn fod angen mynd ymhellach yn y maes hwn. A all y Gweinidog ddweud beth yn union mae'r Llywodraeth yn bwriadu'i wneud i gynyddu'r galw am gynnyrch Cymreig o'r fath?

Clywodd yr is-bwyllgor droeon yn ystod y dystiolaeth a gyflwynwyd ger ei fron fod y label Cymreig yn ychwanegu gwerth i gynnyrch o fewn Cymru, ond nad oedd yr un peth yn wir wrth geisio hyrwyddo cynnyrch Cymru yr ochr draw i Glawdd Offa. Yn wahanol i gig oen a chig eidion Cymreig, mae'n debyg nad oes i gynnyrch llaeth Cymreig werth ychwanegol ynddo'i hun y tu hwnt i Gymru. Beth yn union y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i wella'r canfyddiad o gynnyrch llaeth Cymreig y tu allan i Gymru ac i gynyddu'r galw am

real difference in this area? I understand the concerns regarding placing additional costs on business, but the truth is that we have clearly seen that there is a huge cost to small producers as a result of not having someone to stand up to the supermarkets on their behalf.

Another of the sub-committee's recommendation was to increase the proportion of Welsh milk obtained by the public sector. I am pleased to hear from the Minister that the food, fisheries and market development division is working on implementing the local sourcing action plan. However, in your response to this report you refer regularly to strategies that already exist. The sub-committee was aware of these strategies and the recommendations were put forward based on the fact that we felt that these strategies were not effective enough in this area. On the local sourcing action plan, exactly what targets did you, as a Minister, set in that plan to increase the procurement of dairy produce? When do you predict that the downward trend in the proportion of Welsh milk procured in Wales will be reversed?

I am pleased to see that the Government is already providing grants to assist milk producers to move to added value produce and, of course, we support that. However, again, we feel that we need to go further in this regard. Can the Minister tell us exactly what the Government intends to do to increase the demand for such Welsh produce?

The sub-committee heard many times during the evidence sessions that the Welsh label added value to produce within Wales, but that the same was not true when trying to promote Welsh produce on the other side of Offa's Dyke. Unlike Welsh lamb and beef, it appears that Welsh dairy produce does not in itself have added value beyond Wales. What exactly is the Government doing to improve the perception of Welsh dairy produce outside Wales and to increase the demand for added value produce in Wales and beyond?

gynnyrch sy'n ychwanegu gwerth yng Nghymru a thu hwnt?

Daw hynny â ni at ddau o argymhellion yr adroddiad y mae'r Gweinidog, er mawr siom inni, wedi penderfynu peidio â'u mabwysiadu. Y cyntaf yw'r argymhelliad sy'n galw am sefydlu hyrwyddwr diwydiant llaeth annibynnol yng Nghymru er mwyn cynrychioli a hybu buddiannau cynhyrchwyr a phroseswyr.

Yn ei hymateb, dywed y Gweinidog nad oes angen hyrwyddwr gan fod gennym bobl fel Terrig Morgan, cadeirydd grŵp y strategaeth laeth a Delyth Davies, pennath datblygiad llaeth yng Nghymru, sydd yn swydd newydd, a'r bartneriaeth bwyd-amaeth dan gadeiryddiaeth Dr Haydn Edwards. Yr ydym yn croesawu'r penodiadau hyn ac yn gweld bod gwerth ynddynt, ond mae Terrig Morgan a Delyth Davies wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac yr ydym yn dal i deimlo bod angen hyrwyddwr annibynnol ar y diwydiant llaeth yng Nghymru.

I gloi, mynegwyd prydron wrth yr is-bwyllgor yngylch dosbarthu gwybodaeth i'r diwydiant am waith y cynllun gweithredu strategol. Cafodd yr anhawster hwn o ran cael gwybodaeth allan i gynhyrchwyr a rhanddeiliaid mewn ffordd strategol ei gydnabod gan Terrig Morgan, cadeirydd y grŵp strategaeth laeth, ei hun. Nid wyf yn teimlo bod ymateb y Gweinidog wedi mynd i'r afael â'r broblem hon yn llawn. Yn hytrach mae wedi ailadrodd wrthym aelodaeth y grŵp strategaeth laeth. A wnaiff y Gweinidog ymateb yn fanwl i'r pwynt hwn, a godwyd gan gadeirydd y grŵp?

Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau Aelodau eraill o'r Cynulliad a byddaf yn hapus i ymateb i'r ddadl ar y diwedd.

Y Llywydd: A hoffai'r Gweinidog siarad yn awr ynteu maes o law—ynteu ddwywaith?

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Hoffwn siarad ddwywaith.

Y Llywydd: Mae gennych wyth munud. Diolch yn fawr, Weinidog.

Elin Jones: Diolchaf i'r Cadeirydd am ei

That brings us to two of the report's recommendations which the Minister, much to our disappointment, has decided not to adopt. The first is the recommendation calling for the establishment of an independent dairy industry champion in Wales to represent and promote the interests of producers and processors.

In her response, the Minister says that a champion is not needed since we have people such as Terrig Morgan, chair of the dairy strategy group, and Delyth Davies, head of dairy development in Wales, which is a new post, and the agri-food partnership chaired by Dr Haydn Edwards. We welcome these appointments and we can see their value, but Terrig Morgan and Delyth Davies have responded to the consultation and we still feel that the dairy industry in Wales needs independent champions.

To conclude, concerns were raised with the sub-committee regarding the distribution of information to the industry about the strategic action plan. This difficulty in disseminating information to producers and stakeholders in a strategic way was recognised by Terrig Morgan, the chair of the dairy strategy group, himself. I do not feel that the Minister's response has fully addressed this problem. She has, rather, reiterated the membership of the dairy strategy group. Will the Minister respond in detail to this point, which was raised by the chair of the group?

I look forward to hearing the contributions of other Assembly Members and I will be happy to respond to the debate at the end.

The Presiding Officer: Would the Minister like to speak now or later—or twice?

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I should like to speak twice.

The Presiding Officer: You have eight minutes. Thank you, Minister.

Elin Jones: I thank the Chair for his

gyflwyniad i'r adroddiad hwn ac am y cyfle i ymateb ar ran y Llywodraeth. Hoffwn hefyd gofnodi fy nghydubyddiaeth i gyn-Gadeirydd yr is-bwyllgor hwn am ei waith clodwiw iawn yn llywio'r is-bwyllgor dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf ac am y cydweithio a fu dros y cyfnod hwnnw.

Mae'n wir i ddweud bod ffermwyr a phroseswyr llaeth wedi bod o dan grym bwysau dros y 18 mis diwethaf. Er bod y sectorau defaid a chig eidion yng Nghymru wedi gweld cyfnod mwy llewyrchus, mae'r gwrthwyneb wedi bod yn wir am y sector llaeth.

Mae pris llaeth wedi bod yn isel yn fydd-eang, ac yn enwedig yn Ewrop. Mae arwyddion bod y pris yn gwella, er nad yw'r ffermwyr wedi gweld hyn eto mewn gwirionedd. Y pris llaeth isel a'r argyfwng yn y sector yn holl wledydd Ewrop a arweiniodd at sefydlu cronfa laeth Ewrop. Yr wythnos diwethaf, lansiais ymgynghoriad ar sut y dylid talu'r gronfa hon, sy'n werth rhyw €3.5 miliwn yng Nghymru. Bydd hwn yn daliad uniongyrchol i ffermwyr llaeth, felly bydd y penderfyniad busnes ar sut i fuddsoddi'r arian hwn yn cael ei adael i'r ffermwyr ac ni fydd yn cael ei orfodi gennyl fi.

Fel y dywedodd y Cadeirydd, yr wyf wedi gwrrthod yr argymhelliaid i sefydlu hyrwyddwr neu bencampwr llaeth gan fy mod yn credu y byddai hyn yn llais neu'n rôl ychwanegol ar ben y rhai sydd eisoes yn bodoli. Penodwyd Terrig Morgan, y ffermwyr llaeth o'r gogledd-ddwyrain yn gadeirydd grŵp y strategaeth laeth. Mae hefyd yn cynrychioli'r sector ar bartneriaeth bwyd dan gadeiryddiaeth Dr Haydn Edwards. Yr wyf ymhell o gael fy argyhoeddi bod angen i'r Llywodraeth benodi neu ariannu pencampwr llaeth newydd yng Nghymru. Gyda llaw, ffermwyr llaeth o Aberteifi oedd enillydd *Fferm Ffactor* ar S4C. Mae'r ffermwyr llaeth eu hunain yn medru bod yn bencampwyr i'w diwydiant heb ymyrraeth gan y Llywodraeth ambell waith. Cyfeiriwyd gennych at bencampwr annibynnol i'r diwydiant llaeth, ac efallai mai rhywun y tu hwnt i Lywodraeth ddylai hwnnw fod.

O ran sefydlu ombudsmon, cytunaf â'r is-

introduction to this report and for the opportunity to respond on behalf of the Government. I would also like to record my thanks to the former Chair of this sub-committee for his praiseworthy work in steering this sub-committee over the last two and a half years and for the collaboration during that time.

It is true to say that dairy farmers and processors have been under considerable pressure over the past 18 months. Although the lamb and beef sector in Wales has recently seen more prosperous times, the opposite has been true of the dairy sector.

The price of milk has been low across the world, and particularly in Europe. There are indications that the price is improving, although farmers have not yet seen that reflected in reality. It was the low price of milk and the crisis in the sector across all countries in Europe that led to the establishment of the European milk bank. Last week, I launched a consultation on how to pay for that fund, which is worth some €3.5 million in Wales. That will be a direct payment to dairy farmers, and so the business decision on how to invest that money will be left to farmers and not dictated by me.

As the Chair said, I have rejected the recommendation to create the post of dairy promoter or champion, because I believe that would be a voice or role in addition to those that already exist. Terrig Morgan, the dairy farmer from the north east, has been appointed chair of the dairy strategy group. He also represents the sector on the food partnership under the chairmanship of Dr Haydn Edwards. I am far from being convinced of the need for the Government to appoint or fund a new dairy champion in Wales. By the way, it was a dairy farmer from Cardigan who won the programme *Fferm Ffactor* on S4C. Dairy farmers are themselves able to be champions of their industry without the intervention of the Government at times. You referred to an independent champion for the dairy industry, and perhaps that should be someone at arm's length from the Government.

As regards setting up the post of ombudsman,

bwyllgor ar bwysigrwydd hynny. Credaf ein bod i gyd yn falch o glywed bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol hefyd wedi cytuno bod angen ombwdsmon o'r fath i reoli'r cod ymarfer ar gyfer y sector cyflenwi bwyd sy'n cael ei gyflwyno ar 4 Chwefror. Bydd ymgynghoriad ar yr ombwdsmon ei hunan yn dilyn hynny, ond mae'n bwysig cofio mai cyflwyno chwarae teg i'r farchnad yw bwriad ombwdsmon, ac nid sicrhau pris teg i'r farchnad o anghenraig. Byddaf yn chwilio am gyfleoedd, fel y'm siarsiwyd gan Gadeirydd yr is-bwyllgor, i sicrhau bod yr ombwdsmon, y mae ei swydd i'w sefydlu, mor rymus ag y bo modd.

3.00 p.m.

Mae'r adroddiad yn nodi pwysigrwydd denu pobl ifanc i'r diwydiant, ac yr wyf yn cytuno. Dyna pam yr wyf wedi sefydlu cynllun gwerth £1.75 miliwn y flwyddyn i hyrwyddo pobl ifanc yn y diwydiant ffermio, gan gychwyn ym mis Ebrill eleni. Gobeithiaf weld ffermwyr llaeth yn rhan sylweddol o'r cynllun hwn.

Hefyd, fel yr is-bwyllgor, yr wyf innau'n awyddus i weld ffermwyr llaeth yn cael cyfle gwirioneddol i fod yn rhan o Glastir. Siomedig oedd y gwaith peilot ar Glastir ddiwedd y llynedd o ran nifer y ffermwyr llaeth a sgoriodd yn dda ac a oedd eisiau bod yn rhan o'r cynllun. Felly, mae'r cynllun yn cael ei ailystyried o ran ei berthnasedd i ffermydd llaeth. Yn y pen draw, fodd bynnag, penderfyniad busnes i'r ffermwyr fydd cymryd rhan yn Glastir.

Derbyniaf ddadansoddiad yr is-bwyllgor fod angen hyrwyddo datblygiad cynnrych yn y diwydiant, ac yr ydym yn gweithio gyda chwmnïau i wneud hyn. Hefyd, mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o laeth Cymru'n mynd at gynhyrchu caws Cheddar yn golygu bod gan y rhan fwyaf o ffermwyr Cymru gytundebau ar bris isaf y farchnad. Yr oedd dirywiad sydyn Dairy Farmers of Britain yn glatsien i hyder y diwydiant y llynedd, ac yr oedd cau'r ffatri potelu llaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn golled i strwythur y diwydiant yng Nghymru. Mae gweithio gyda chwmnïau i ddatblygu eu diddordeb ym mhôtelu llaeth yng Nghymru yn hollbwysig i'r Llywodraeth hon.

I agree with the sub-committee on the importance of that. I believe that we are all pleased to hear that the United Kingdom Government has also agreed that such an ombudsman is needed to regulate the code of practice for the food supply sector, to be introduced on 4 February. A consultation on the ombudsman will follow that, but it is important to bear in mind that the aim is to introduce an element of equity to the market, and not necessarily to ensure a fair price. I will be looking for opportunities, as urged by the Chair of the sub-committee, to ensure that the ombudsman, whose office is to be established, is as powerful as possible.

The report notes the importance of attracting young people to the industry, and I agree with that. That is why I established the scheme worth £1.75 million per annum to promote young people in the industry, which will commence in April. I hope that dairy farmers will be a significant part of this scheme.

I too, like the sub-committee, am eager to ensure that dairy farmers have a real opportunity to be part of Glastir. The pilot work on Glastir at the end of last year was rather disappointing as regards the number of dairy farmers who scored well and wanted to be part of the scheme. Therefore, the scheme is being reconsidered in terms of its relevance to dairy farmers. Ultimately, whether or not they enter Glastir is a business decision for the farmers concerned.

I accept the sub-committee's analysis that the development of produce within the industry needs to be promoted, and we are working with companies with this in mind. Also, the fact that most Welsh milk goes towards the production of Cheddar cheese means that most Welsh dairy farmers have a contract based on the lowest market price. The sudden demise of Dairy Farmers of Britain was a severe blow to the industry's confidence last year, and the closure of the bottling factory at Bridgend had a huge impact on the structure of the industry in Wales. Working with companies to develop their interest in bottling milk in Wales is vitally important to this Government.

Rhœsom ryw gymorth i'r ffermwyr llaeth a oedd yn aelodau o Dairy Farmers of Britain drwy ragdaliad o'u taliad sengl ym mis Hydref. Talwyd tua £5 miliwn i 258 ffermwyr, a hynny heb amharu ar y targed i dalu canran benodol o ffermwyr erbyn 1 Rhagfyr; yn wir, aethom tu hwnt i'r targed drwy dalu mwy o ffermwyr nag a fwriadwyd. Yng Nghymru yn unig y gwnaethpwyd y taliad hwn, gyda llaw.

O ddilyn hanes prisiau llaeth, mae natur ansefydlog y pris yn nodwedd o'r farchnad. Mae'r pris yn dilyn tuedd y pris byd-eang. Dyna a arweiniodd at gynnydd yn y pris yn 2007-08 ac at y gwyp wedi hynny. Mae'r ansefydlogrwydd hwn yn rhywbeth y mae'n rhaid ffermwyr gynllunio ar ei gyfer yn eu cynlluniau busnes.

Yr wyf yn parhau i fod yn ffyddio yn nyfodol y diwydiant llaeth yng Nghymru, yn sicr o ran y cynhyrchu. Bydd yr hanfodion yn parhau i fod ar gael i'r cynhyrchwyr, sef digon o law a dŵr, a thymor tyfu porfa sy'n debygol o fynd yn hirach eto. Yn y Llywodraeth ac yn y diwydiant, yr ydym yn bwrw ati i leihau effaith TB ar ein buches odro. Hefyd, bydd y gwaith yr ydym yn ei wneud ar ddefnydd tir a newid yn yr hinsawdd yn cynnig ffordd ymlaen i ffermwyr llaeth yng nghyd-destun y cwestiynau digon cymhleth a fydd yn eu hwynebu.

Bydd y farchnad rydd yn parhau i fod yn heriol i ffermwyr llaeth, ac mae'r taliad sengl yn gyfraniad sylweddol i incwm nifer o ffermwyr llaeth. Mae'r newid tebygol i sail y taliad hwnnw, o 2014 ymlaen, yn achosi pryder i ffermwyr llaeth yn enwedig.

Gorffennaf drwy ddiolch i'r is-bwyllgor am y gwaith amserol hwn. Yr wyf yn ymddiheuro os wyf wedi siomi aelodau'r is-bwyllgor drwy wrthod dau o'u hargymhellion, ond, ar y cyfan, yr wyf yn meddwl bod y Llywodraeth a'r is-bwyllgor ar yr un trywydd ac yn gefnogol i lewyrch a hir oes y diwydiant llaeth yng Nghymru.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog

We supported dairy farmers who were members of Dairy Farmers of Britain through an advance on their single payment in October. A total of £5 million was paid to 258 farmers, without affecting the target of paying a certain percentage by 1 December, and, indeed, we achieved this target and surpassed it by paying a higher percentage of farmers. It was only in Wales that this payment was made, by the way.

If we look at the history of milk prices, we see that the unstable nature of the price is now a feature of the market. The price follows the global trend, and that is what led to a price increase in 2007-08 and then a decrease. This instability is something that farmers must take into account in their business plans.

I remain confident about the future of the dairy industry in Wales, particularly in terms of production. The essentials will still be available to producers, namely plenty of rain and a grazing season that is likely to be extended. As a Government and within the industry, we are taking action to alleviate the impact of TB on the dairy herd. Furthermore, our work on land use and climate change will offer farmers a way forward in the light of the complex questions that they will face.

The free market will continue to be challenging for dairy farmers, and the single payment represents a significant contribution to the income of many of those farmers. The change which is likely in the base payment, from 2014 onwards, is a cause of concern among dairy farmers.

I conclude by thanking the sub-committee for this timely piece of work. I apologise if I have disappointed members of the sub-committee by rejecting two of their recommendations, but, on the whole, I believe the Government and the sub-committee are moving in the same direction and supporting the prosperity and longevity of the dairy industry in Wales.

The Presiding Officer: I thank the Minister

am ei chyfraniad cyntaf i'r ddadl hon. Brynle Williams sydd nesaf.

Brynle Williams: I, too, express my gratitude for the way in which Alun chaired this sub-committee for two and a half years. In all fairness, he has been a most unbiased Chair, and he has played a major part in bringing urgent agricultural matters to this Chamber. Diolch, Alun.

I will continue by thanking all those who gave evidence to the inquiry and in recognising the work of my fellow sub-committee members in producing this report. I welcome the Minister's decision to accept the majority of our recommendations, although I am rather disappointed that she has not accepted recommendations 2 and 5, which relate to how Welsh produce can be better promoted.

As the sub-committee heard, the past decade has seen a half of Welsh producers leaving the industry—some 2,000 farm businesses. On top of this, some 900 processing jobs have gone in the past five years alone, and Wales has permanently lost processing capacity as a result. This is a trend that has regrettably shown no sign of slowing down, which is not surprising given the financial pressures on the industry. Over the years, the farm-gate prices have been squeezed lower and lower, while the gross margin for retailers has multiplied several times, tripling in the last 10 years. There are problems in the supply chain that urgently need addressing. It has been a longstanding source of frustration in the industry that so little progress has been made on this in the last 10 years.

In this context, it is welcome that there is a degree of consensus at a UK level, and that the sub-committee's recommendations for an ombudsman have been overtaken by events. Of course, a supermarket ombudsman in itself will not be the single answer to the industry's problems, but it is the only practical way of tackling the substantial imbalances that have built up in the supply chain.

for her first contribution to this debate. I now call on Brynle Williams.

Brynle Williams: Hoffwn i hefyd fynegi fy niolch am y modd y cadeiriodd Alun yr is-bwyllgor hwn am ddwy flynedd a hanner. Er tegwch iddo, bu'n Gadeirydd cwbl ddidued, ac y mae wedi chwarae rhan amlwg yn y gwaith o ddod â materion amaethyddol brys i sylw'r Siambra hon. Diolch, Alun.

Hoffwn barhau drwy ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad, a chyd nabod gwaith fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn. Croesawaf benderfyniad y Gweinidog i dderbyn y rhan fwyaf o'n hargymhellion, er fy mod braidd yn siomedig nad yw wedi derbyn argymhellion 2 a 5, sy'n gysylltiedig â'r ffyrdd y gellir hyrwyddo cynyrrch o Gymru yn well.

Fel y clywodd yr is-bwyllgor, mae hanner cynhyrchwyr Cymru wedi gadael y diwydiant yn ystod y degawd diwethaf—tua 2,000 o fusnesau fferm. At hynny, mae tua 900 o swyddi prosesu wedi diflannu yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unig, ac mae Cymru wedi colli ei chapasiti prosesu'n barhaol o ganlyniad i hynny. Yn anffodus, nid yw'r duedd hon wedi dangos dim arwyddion o arafu, ac nid yw hynny'n syndod o gofio'r pwysau ariannol ar y diwydiant. Dros y blynnyddoedd mae'r prisiau a delir i ffermwyr wedi'u gwasgu'n is ac yn is, tra mae'r elw gros i fanwerthwyr wedi cynyddu droeon, gan dreblu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae problemau yn y gadwyn gyflenwi y mae angen mynd i'r afael â hwy ar frys. Mae'r ffaith fod cyn lleied o gynnydd wedi'i wneud ar hyn yn ystod y 10 mlynedd diwethaf wedi achosi rhwystredigaeth i'r diwydiant ers amser.

Yn y cyd-destun hwn, croesawaf y ffaith fod rhywfaint o gytundeb ar lefel y DU, a bod amgylchiadau bellach yn golygu nad yw argymhellion yr is-bwyllgor ar gyfer ombwdsmon yn berthnasol. Wrth gwrs, nid penodi ombwdsmon archfarchnad oedd ynddo'i hun fydd yr ateb unigol i problemau'r diwydiant, ond dyna'r unigol ffordd ymarferol i fynd i'r afael â'r anghydwysedd mawr sydd wedi datblygu yn y gadwyn gyflenwi.

When we took evidence from Eifion Hughes of the Farmers Union of Wales, he said that the margin on a litre of milk 10 years ago was 6.5p, and it is now 16.5p—a 10p increase in 10 years. However, the price of milk has gone down, as the Chair of the sub-committee indicated in his opening remarks. The sub-committee also heard in evidence that a fairer proportion of the considerable margin that retailers have built up should make it back to the primary producers, and that there should be genuine transparency across the supply chain, not just for liquid milk. The National Farmers Union of Wales stressed in its evidence that 80 per cent to 90 per cent of Welsh milk goes into cheese production. The potential benefits for dedicated supply lines for cheese could be substantial.

I am pleased that the Minister has accepted most of the recommendations, including the recommendation to encourage producers to develop more value-added products, which were points raised in evidence submitted by Gareth Roberts of Llaeth y Llan and Neil Bircher of Rachel's Organic dairy, who have considerable experience and success in this area.

Given the volatility of the dairy sector, any premium that Welsh producers can obtain will be of benefit. However, returns will always be dependent on the base commodity prices across Europe. In the light of this, the progress of the EU high-level group on milk will have implications for Wales. Will the Minister provide an update on discussions that she has had with colleagues in Europe, and the likely impact for Welsh producers and processors?

It is welcome that money is being made available through the EU dairy support fund, but when you put that in the context of a producer with a million litre quota—that may sound like an awful lot but it equates to about 180 cows, and the average herd is now more than that—a 1p drop in a million litre quota equates to a £10,000 drop. I am afraid that we have seen many pennies drop in the last five years. There will be limits to the benefits of a one-off payment in the region of £1,600.

Pan gawsom dystiolaeth gan Eifion Hughes o Undeb Amaethwyr Cymru, dywedodd mai 6.5c oedd yr elw ar litr o laeth 10 mlynedd yn ôl, ac mae bellach yn 16.5c—cynnydd o 10c mewn 10 mlynedd. Fodd bynnag, mae pris llaeth wedi gostwng, fel y soniodd Cadeirydd yr is-bwyllgor yn ei sylwadau agoriadol. Clywodd yr is-bwyllgor dystiolaeth hefyd y dylai cyfran decach o'r elw sylweddol y mae manwerthwyr wedi'i grynhoi gael ei rhoi'n ôl i'r cynhyrchwyr cynradd, ac y dylid cael tryloywder gwirioneddol ar draws y gadwyn gyflenwi, nid ar gyfer llaeth hylif yn unig. Pwysleisiodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru yn ei dystiolaeth fod 80 y cant i 90 y cant o laeth Cymru'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu caws. Gallai cael llinellau cyflenwi penodol ar gyfer caws gynnig manteision sylweddol.

Yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys yr argymhelliad i annog cynhyrchwyr i ddatblygu mwy o gynhyrchion gwerth ychwanegol—pwntiau a godwyd mewn dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gareth Roberts o Laeth y Llan a Neil Bircher o Rachel's Organic Dairy, sydd â phrofiad a llwyddiant sylweddol yn maes hwn.

O ystyried natur gyfnewidiol y sector llaeth, bydd unrhyw bremiwm y gall cynhyrchwyr Cymru ei gael o fudd iddynt. Fodd bynnag, bydd elw bob amser yn dibynnu ar brisiau nwyddau sylfaenol ledled Ewrop. Gan hynny, bydd goblygiadau i Gymru o gynnydd y grŵp lefel uchel yn yr UE ar laeth. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau y mae wedi'u cael gyda chydweithwyr yn Ewrop, a'r effaith debygol ar gynhyrchwyr a phroseswyr Cymru?

Croesewir yffaith bod arian yn cael ei ddarparu drwy gronfa gymorth yr UE i'r diwydiant llaeth. Ond pan rowch hynny yng nghyd-destun cynhyrchydd gyda chwota o filiwn o litrau—hwyrach fod hynny'n swnio'n uchel iawn, ond mae'n cyfateb i ryw 180 o wartheg, ac y mae'r fuches gyffredin yn fwy na hynny erbyn hyn—mae gostyngiad o 1c mewn cwota o filiwn o litrau'n golygu gostyngiad o £10,000. Ofnaf ein bod wedi gweld prisiau'n gostwng lawer ceiniog yn y pum mlynedd diwethaf. Bydd manteision un taliad o tua £1,600 yn gyfyngedig.

I hope that the issues raised in the sub-committee report will influence the Minister's policies and her work with counterparts in the UK and at a EU level, and that the Assembly Government is fully committed to putting the Welsh dairy sector back on a sustainable footing.

Alun Davies: I thank Members for their kind words. In addressing this report, I will not rehearse some of the difficulties facing the industry at the moment, as others have already done that. I thank the Minister for her written and oral response to the report. I would like to comment on the issues facing the industry and the opportunities that the Government has to respond on this issue.

3.10 p.m.

We are aware of the difficulties facing the industry, and, as the Chair said in his introduction to this debate, we all welcome the statement from the UK Government on the creation of an ombudsman. It is important that the relationship between different elements of the supply chain in this industry is regulated in a way that benefits the citizens of this country. This is not about doing favours for individual parts of that supply chain and it is not a matter of preventing parts of that supply chain from exercising their rights to conduct business; it is about fairness for the citizen, and we have to remember that sometimes in having this debate. We want to see a supply chain that works for us, not for its individual parts. That means that we need regulation of that supply chain. It is clearly not working at the moment—Bryngle has outlined some of the reasons for that—and it needs to work in the future. We welcome, therefore, the statement from the UK Government, and I hope that you will work with the UK Government, Minister, to ensure that the sort of ombudsman that is being proposed will be an ombudsman who serves the needs of the industry and the citizen in this country.

In our report, we proposed the establishment of a Welsh dairy champion. The purpose of

Gobeithio y bydd y materion a godwyd yn adroddiad yr is-bwyllogor yn dylanwadu ar bolisiau'r Gweinidog ac ar ei gwaith gyda'i chymheiriad yn y DU ac ar lefel yr UE, a bydd Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau bod sector llaeth Cymru mewn sefyllfa gynaliadwy unwaith eto.

Alun Davies: Diolch i'r Aelodau am eu geiriau caredig. Wrth drafod yr adroddiad hwn, nid wyf am ailadrodd rhai o'r anawsterau sy'n wynebu'r diwydiant ar hyn o bryd, oherwydd mae eraill eisoes wedi gwneud hynny. Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb ysgrifenedig a llafar i'r adroddiad. Hoffwn wneud sylwadau ar y materion sy'n wynebu'r diwydiant a'r cyfleoedd sydd gan y Llywodraeth i ymateb iddynt.

Gwyddom am yr anawsterau sy'n wynebu'r diwydiant, ac, fel y dywedodd y Cadeirydd yn ei gyflwyniad i'r ddadl hon, mae pob un ohonom yn croesawu'r datganiad gan Lywodraeth y DU ar greu swydd ombwdsmon. Mae'n bwysig bod y berthynas rhwng elfennau gwahanol y gadwyn gyflenwi yn y diwydiant hwn yn cael ei rheoleiddio mewn ffordd sydd o fudd i ddinasyddion y wlad hon. Nid mater o wneud cymwynas â rhannau unigol o'r gadwyn gyflenwi yw hyn, ac nid yw'n fater o atal rhannau o'r gadwyn gyflenwi rhag arfer eu hawliau i gynnal busnes; mae'n golygu tegwch i'r dinesydd, a rhaid inni gofio hynny weithiau wrth gynnal y ddadl hon. Yr ydym am gael cadwyn gyflenwi sy'n gweithio i ni, nid i'w rhannau unigol. Mae hynny'n golygu bod angen i'r gadwyn gyflenwi gael ei rheoleiddio. Mae'n amlwg nad yw'n gweithio ar hyn o bryd—mae Bryngle wedi amlinellu rhai o'r rhesymau dros hynny—ac y mae angen iddi weithio yn y dyfodol. Felly, croesawn y datganiad gan Lywodraeth y DU, a gobeithio byddwch yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Weinidog, i sicrhau y bydd y math o ombwdsmon sy'n cael ei gynnig yn ombwdsmon sy'n ateb anghenion y diwydiant a dinasyddion y wlad hon.

Yn ein hadroddiad, cynigiwyd y dylid sefydlu swydd hyrwyddwr llaeth i Gymru.

that was to create structures that will help to manage the supply chain and provide a framework and funding for the marketing and promotion of Welsh dairy products. I think that the sub-committee had Hybu Cig Cymru in mind when it discussed this issue. One of the failures of Government and one of the weaknesses of the industry has been the lack of an effective framework for the industry in the past. We have provided a great deal of support for the industry in different ways, but, as we discussed last year in our report on wider issues to do with the food industry in Wales, we have not done that in a coherent and co-ordinated fashion. It is now necessary to ensure that the supply chain is managed, that we have a regulator in place through the ombudsman, and that we have a management structure for that supply chain. Therefore, we would see this dairy champion working in conjunction with the Government, the industry and within the overall framework for the market created by the new regulator or ombudsman.

We believe that that would give the Welsh dairy industry the best opportunity possible to maintain its excellence in production, to market that product not only in Wales, but elsewhere, and, crucially, to invest in the industry's future. The most impressive pieces of evidence that we took during this inquiry were from people who were looking to invest in the future of the industry, but, for all sorts of different reasons, as outlined in the report, were unable to do so. They need the support of the Government to create that framework so that investment can take place and so that the industry is not only safeguarded for the future, as that can sometimes be a negative thing, but is provided with a platform for growth. We would like to see that happening and that is the role that we envisage for this champion.

My final point is about the role of Government. The Government can take actions that are supportive of the industry and which do not merely involve putting structures in place to provide support to the industry itself. I am thinking of the procurement issues that have been referred to

Diben hynny oedd creu strwythurau a fydd yn helpu rheoli'r gadwyn gyflenwi ac yn darparu fframwaith a chyllid ar gyfer marchnata a hyrwyddo cynyrch llaeth o Gymru. Credaf fod yr is-bwyllgor yn meddwl am Hybu Cig Cymru pan oedd yn trafod y mater hwn. Mae'r ffait na fu gan y diwydiant fframwaith effeithiol yn y gorffennol yn un o fethiannau'r Llywodraeth ac yn un o wendidau'r diwydiant. Yr ydym wedi darparu llawer o gymorth i'r diwydiant mewn gwahanol ffyrdd, ond, fel y buom yn trafod y llynedd yn ein hadroddiad ar faterion mwy cyffredinol ynglŷn â'r diwydiant bwyd yng Nghymru, nid ydym wedi gwneud hynny mewn modd cyson a chydgysylltiedig. Mae angen sicrhau yn awr bod y gadwyn gyflenwi yn cael ei rheoli, bod gennym reoleiddiwr drwy'r ombwdsmon, a bod gennym strwythur rheoli ar gyfer y gadwyn gyflenwi honno. Felly, byddem yn hoffi gweld yr hyrwyddwr llaeth hwn yn gweithio ar y cyd â'r Llywodraeth a'r diwydiant, ac o fewn y fframwaith cyffredinol ar gyfer y farchnad a grëwyd gan y rheoleiddiwr neu'r ombwdsmon newydd.

Credwn y byddai hynny'n rhoi'r cyfle gorau posibl i ddiwydiant llaeth Cymru gynnal ei ragoriaeth o ran cynhyrchu, i farchnata'r cynyrch hwnnw nid yn unig yng Nghymru, ond mewn gwledydd eraill, ac yn hanfodol, i fuddsoddi yn nyfodol y diwydiant. Cafwyd y darnau mwyaf trawiadol o dystiolaeth yn yr ymchwiliad hwn gan bobl a oedd yn ystyried buddsoddi yn nyfodol y diwydiant, ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny am nifer o wahabnol resymau, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Mae arnynt angen cymorth y Llywodraeth i greu'r fframwaith hwnnw fel y gellir buddsoddi ac er mwyn i'r diwydiant nid yn unig gael ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol, oherwydd gall hynny fod yn beth negyddol weithiau, ond er mwyn iddo gael cyfle i dyfu. Hoffem weld hynny'n digwydd, a dyna yw'r rôl a ragwelwn ar gyfer yr hyrwyddwr hwn.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â'r rôl y Llywodraeth. Gall y Llywodraeth weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi'r diwydiant, sy'n golygu mwy na dim ond rhoi strwythurau ar waith i ddarparu cymorth i'r diwydiant ei hun. Yr wyf yn meddwl am y materion caffaol y cyfeiriwyd atynt yn y ddadl hon ac

in this debate and in other debates, therefore I will not labour that point. It is an important issue and we must find different ways of bringing that to the forefront of people's minds. At the moment, there is a need for cultural change across the whole of the private sector to put these procurement issues at the heart of what we do. I would like you to look at Glastir, Minister—I know that the sub-committee will be looking at this over coming months—to ensure that it is accessible and attractive to the dairy industry. A lot of concern was expressed to us at the launch of the report in December and in the evidence provided that the support that the Government already provides to the industry through its schemes is not targeted at the dairy industry, and that more could be done to ensure that that happens.

With that, I thank the Minister very much for the support that she gave us as a sub-committee during my time as Chair. It was always good to have you there, Minister, and we were always grateful for the positive way in which you approached the sub-committee's inquiries. With those words of thanks, I conclude my remarks.

Kirsty Williams: I begin by also offering my thanks to the sub-committee for its work on this report. I congratulate Rhodri Glyn on his ascendance to the position of Chair, and I thank Alun Davies for his work as the previous Chair. As other speakers have said, the report starkly illustrates the struggle to maintain production in the Welsh milk field, one that has overwhelmed many producers in the past. In the last decade alone, we have gone from having almost 4,000 dairy farmers to just 2,000, and the decline is speeding up, with more and more people leaving the industry. It is primarily a case of simply being unable to make the business pay: the cost of production outstrips the price they can get for their produce. What should worry us all as consumers is that the prices paid to farmers have been decreasing while we have been paying more for the product. Therefore, it is not as though consumers are seeing the benefit of the drop in prices paid to farmers either.

mewn dadleuon eraill. Felly, nid wyf am fanylu ar y pwynt hwnnw. Mae'n fater pwysig, a rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd gwahanol i wneud i bobl feddwl amdano. Ar hyn o bryd mae angen newid diwylliant ar draws y sector preifat cyfan er mwyn sicrhau bod y materion caffael hyn wrth wraidd yr hyn a wnawn. Hoffwn ichi edrych ar Glastir, Weinidog—gwn y bydd yr is-bwyllgor yn edrych ar hyn yn ystod y misoedd nesaf—i sicrhau ei fod yn hygrych ac yn ddeniadol i'r diwydiant llaeth. Mynegwyd nifer o bryderon wrthym pan lansiwyd yr adroddiad hwn ym mis Rhagfyr ac yn y dystiolaeth a ddarparwyd, nad yw'r cymorth y mae'r Llywodraeth eisoes yn ei ddarparu i'r diwydiant drwy ei chynlluniau wedi'i dargedu at y diwydiant llaeth, ac y gellid gwneud mwy i sierhau bod hynny'n digwydd.

Gyda hynny, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am y cymorth a roddodd inni fel is-bwyllgor yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd. Yr oedd bob amser yn dda eich cael chi yno, Weinidog, ac yr oeddem bob amser yn ddiolchgar am y ffordd gadarnhaol yr oeddech yn ymateb i ymholaiau'r is-bwyllgor. Hoffwn orffen fy sylwadau gyda'r geiriau hynny o ddiolch.

Kirsty Williams: Hoffwn i hefyd ddechrau drwy ddiolch i'r is-bwyllgor am ei waith ar yr adroddiad hwn. Hoffwn longyfarch Rhodri Glyn ar gael ei benodi'n Gadeirydd, a hoffwn ddiolch i Alun Davies am ei waith fel y Cadeirydd blaenorol. Fel y dywedodd siaradwyr eraill, mae'r adroddiad yn dangos yn glir y frwydr i gynnal cynhyrchiant ym maes llaeth Cymru, maes lle cafodd nifer o gynhyrchwyr eu llethu yn y gorffennol. Yn ystod y degawd diwethaf yn unig, mae nifer y ffermwyr llaeth wedi gostwng o bron i 4,000 i 2,000 yn unig ac y mae'r dirywiad yn cyflymu, a mwy a mwy o bobl yn gadael y diwydiant. Yn anad dim, mae'n fater syml o fethu â gallu gwneud i'r busnes dalu: mae cost cynhyrchu'n uwch na'r pris y gallant ei gael am eu cynyrrch. Yr hyn a ddylai ein poeni i gyd fel defnyddwyr yw bod y prisiau sy'n cael eu talu i ffermwyr wedi bod yn gostwng er ein bod ni wedi bod yn talu mwy am y cynyrrch. Felly, nid yw defnyddwyr yn gweld manteision y prisiau is a delir i ffermwyr chwaith.

The initial question that we should all ask ourselves is whether this decline matters. Is this industry strategically important and one that we need to support? I would argue that, aside from the hardships of individual businesses, it is indeed a strategically important industry that the Welsh Assembly Government and the UK Government should continue to support. Why? Because milk production and processing has a knock-on effect on the whole rural economy, and presents wider employment opportunities for communities in milk-producing and milk-processing areas. The loss of milk production would risk upsetting the balance of Welsh agriculture. As the Assembly Member for Brecon and Radnorshire, I can probably count on my hands the number of dairy farmers in my constituency; it has never been a dairy-producing area. However, we do produce beef and lamb, and if other farmers leave milk production to go into beef and lamb production, that creates more pressure in those markets, and the natural balance of Welsh agriculture is upset.

The dairy industry is also hugely important for food security in Wales and the UK as a whole. If the current trend continues, by 2030, the UK nations will have to import up to 50 per cent of their dairy produce. No country would want that, and no Government would wish to place its citizens in such a position, given the increasingly unstable world in which we live. There is also an environmental advantage, given the increasing body of evidence that the grazing of grasslands is helpful in reducing greenhouse emissions. Therefore, allowing cattle to graze on grasslands is environmentally advantageous.

This afternoon, we have seen a typically robust performance from the Minister, who has an uncanny knack of sounding more enthusiastic about a report than is suggested by her official response to the recommendations. She accepts many of the recommendations of the review, but she does

Y cwestiwn cyntaf y dylem i gyd ei ofyn inni ein hunain yw a yw'r dirywiad hwn o bwys. A yw'r diwydiant hwn yn bwysig o safbwyt strategol, ac a yw'n un y mae angen inni ei gefnogi? Byddwn yn dadlau, a diystyr u' r caledi i fusnesau unigol, ei fod, yn wir, yn ddiwydiant pwysig yn strategol ac y dylai Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU barhau i'w gefnogi. Pam? Oherwydd mae cynhyrchu a phrosesu llaeth yn cael effaith ganlyniadol ar yr economi wledig gyfan ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth ehangach i gymunedau ym meysydd cynhyrchu a phrosesu llaeth. Byddai colli cynhyrchiant llaeth yn peryglu cydbwysedd amaethyddiaeth yng Nghymru. Fel Aelod Cynulliad dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, mae'n debyg y gallaf gyfrif ar ddwy law nifer y ffermwyr llaeth yn fy etholaeth; ni fu erioed yn ardal cynhyrchu llaeth yn draddodiadol. Fodd bynnag, yr ydym yn cynhyrchu cig eidion a chig oen, ac os bydd ffermwyr eraill yn rhoi'r gorau i gynhyrchu llaeth er mwyn cynhyrchu cig eidion a chig oen, bydd hynny'n creu mwy o bwysau yn y marchnadoedd hynny, a bydd cydbwysedd naturiol amaethyddiaeth yng Nghymru yn cael ei golli.

Mae'r diwydiant llaeth hefyd yn bwysig iawn o safbwyt diogelu cyflenwadau bwyd yng Nghymru a'r DU gyfan. Os bydd y duedd bresennol yn parhau, erbyn 2030, bydd gwledydd y DU yn gorfol mewnforio hyd at 50 y cant o'u cynnyrch llaeth. Ni fyddai unrhyw wlad yn dymuno gweld hynny'n digwydd, ac ni fyddai unrhyw Lywodraeth yn dymuno rhoi ei dinasyddion mewn sefyllfa o'r fath, o ystyried bod y byd yr ydym yn byw ynddo yn fwyfwy ansefydlog. Mae yna fantais amgylcheddol hefyd, o ystyried y corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod pori glaswelltir yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Felly, mae gadael i wartheg bori ar laswelltir yn fanteisiol i'r amgylchedd.

Y prynhawn yma gwelsom berfformiad cadarn sydd mor nodwediadol o'r Gweinidog, sydd â rhyw ddawn ryfedd i allu swnio'n fwy brwd frydig am adroddiad nag a awgrymir gan ei hymateb swyddogol i'r argymhellion. Mae'n derbyn nifer o argymhellion yr adolygiad, ond y mae'n

so in such a way as to point to already established programmes and interventions. As Rhodri Glyn said, the sub-committee and the witnesses who gave evidence were well aware of those programmes, and yet they still felt the need to raise those points. I welcome the Minister's commitment, given today and on previous occasions, to support the proposal to establish a UK-wide ombudsman to look at these issues. That proposal now enjoys universal support across the Chamber and at a UK Government level, and I hope that such an ombudsman would make the crucial difference in protecting consumers and producers against the overwhelming force, might and superior strength of the supermarket sector.

In her response, the Minister pointed to existing policy initiatives such as the sourcing action plan and the Government's marketing role. I accept that they are relatively new interventions by the Government and will need time to bed in, but perhaps she could explain her plans for evaluating those interventions. Does she plan to look at whether this work is making a difference?

3.20 p.m.

I take Alun Davies's point about Glastir. Regardless of what is being produced, there is widespread concern across the sector about the details and accessibility of that scheme. I also receive feedback and concerns about the accessibility of the young entrants' scheme, which is another of the Minister's responses to addressing the sub-committee's concern about the age profile of farmers.

One issue that the sub-committee did not consider but which is also causing concern is the future of the milk quota post 2015. It was not considered by the sub-committee, but I would welcome the Minister's observations on that, outlining any analysis that she has undertaken about the effects that ending milk quotas in 2015 will have on the dairy sector in Wales. There is concern that that will have a detrimental effect and that we will see further loss of business in the industry.

I conclude by thanking the sub-committee

gwneud hynny trwy gyfeirio at raglenni ac ymyriadau sydd eisoes wedi'u sefydlu. Fel y dywedodd Rhodri Glyn, yr oedd yr is-bwyllgor a'r tystion a roddodd dystiolaeth yn gwybod yn iawn am y rhaglenni hynny, ac eto yr oeddent yn dal i deimlo bod angen codi'r pwyntiau hynny. Croesawaf ymrwymiad y Gweinidog heddiw a chyn hyn i gefnogi'r cynnig i sefydlu ombwdsmon ar gyfer y DU gyfan i edrych ar y materion hyn. Mae'r cynnig hwnnw bellach yn cael ei gefnogi gan bawb yn y Siambra ac ar lefel Llywodraeth y DU, a gobeithiaf y byddai ombwdsmon o'r fath yn gwneud gwahaniaeth hollbwysig o ran diogelu defnyddwyr a chynhyrchwyr yn erbyn grym, nerth a chryfder mwy y sector archfarchnadoedd.

Yn ei hymateb, cyfeiriodd y Gweinidog at fentrau polisi sy'n bodoli eisoes megis y cynllun gweithredu ar gyrchu lleol a rôl y Llywodraeth o ran marchnata. Derbyiaf eu bod yn ymyriadau cymharol newydd gan y Llywodraeth ac y bydd angen amser iddynt ymsefydlu, ond efallai y gallai esbonio ei chynlluniau ar gyfer gwerthuso'r ymyriadau hynny. A yw'n bwriadu edrych i weld a yw'r gwaith hwn yn gwneud gwahaniaeth?

Yr wyf yn derbyn pwynt Alun Davies ynglŷn â Glastir. Waeth beth sy'n cael ei gynhyrchu, mae yna bryderon cyffredinol ar draws y sector ynglŷn â manylion a hygyrchedd y cynllun hwnnw. Yr wyf hefyd yn cael adborth ac yn clywed pryderon am hygyrchedd y cynllun ar gyfer newydd-ddyfodiaid ifanc, sy'n un o ymatebion eraill y Gweinidog ar gyfer mynd i'r afael â phryder yr is-bwyllgor am broffil oedran ffermwyr.

Un mater nad ystyriwyd gan yr is-bwyllgor ond sy'n peri pryer hefyd yw dyfodol y cwota llaeth ar ôl 2015. Ni chafodd hyn ei ystyried gan yr is-bwyllgor, ond byddwn yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ar hynny, ac ar unrhyw ddadansoddiad y mae wedi'i wneud o effeithiau diddymu cwtâu llaeth yn 2015 ar y sector llaeth yng Nghymru. Mae pryer y bydd hyn yn cael effaith niweidiol ac y gwelwn golli mwy o fusnes o'r diwydiant.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r is-bwyllgor eto

again for its timely and incisive report, and I look forward to hearing the Minister's and the Chair's responses.

Andrew R.T. Davies: I thank the sub-committee for looking into this important aspect of agricultural production in Wales. I first pay tribute to Alun Davies. I had the pleasure on many occasions of deputising for my colleague, Brynle Williams, on that sub-committee and, while I disagree with Alun on many issues, politically, I found his dedication in chairing the sub-committee and, to be fair, his thoroughness in executing its investigations—and not just in the agricultural field, but also in other fields, such as the rural school closure programme—to be of immense inspiration to many rural communities. It will be a loss to the Rural Development Sub-committee that Alun is no longer a part of it, but I pay tribute to the work that he has done to date.

I am now an ex-dairy farmer, but, on many an occasion in my first 12 months in the Chamber, I would go home after Plenary to do the afternoon milking. Therefore, this report is of interest to me, particularly the graphic figures contained within it on the demise of many dairy businesses.

Many people have spoken this afternoon about the impact of a supermarket ombudsman, which I spent quite some time campaigning for in the early 2000s, when the first reports were being published that such a post would facilitate more transparency in the supply sector, which the Competition Commission and the Office of Fair Trading endorsed. It is therefore to be welcomed that this report identifies the critical importance of having a supermarket ombudsman, and it is also of importance to note that the Minister responsible for consumer affairs in London, Kevin Brennan, has finally endorsed, in the run-up to the general election, the importance of having a supermarket ombudsman—and it is quite interesting to see what effect an election can have on the support offered for such a backbench measure by your colleagues in the Commons. It is critical that the Minister here in the Welsh Assembly Government adds to the impetus to establish an ombudsman, which would have an impact

am ei adroddiad amserol a threiddgar, ac edrychaf ymlaen at glywed ymatebion y Gweinidog a'r Cadeirydd.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn diolch i'r is-bwyllgor am edrych ar yr agwedd bwysig hon ar gynhyrchiant amaethyddol yng Nghymru. Hoffwn roi teyrnged yn gyntaf i Alun Davies. Cefais y pleser, ar sawl achlysur, o ddirprwyo ar ran fy nghyd-Aelod, Brynle Williams, ar yr is-bwyllgor hwnnw, ac er fy mod yn anghytuno ag Alun ar nifer o faterion yn wleidyddol, gwelais fod ei ymroddiad wrth gadeirio'r is-bwyllgor, a'i drylwyrred, a bod yn deg, wrth gynnal ei ymchwiliadau—nid dim ond yn y maes amaethyddol, ond mewn meysydd eraill hefyd, megis y rhaglen cau ysgolion gwledig—yn ysbrydoliaeth fawr i nifer o gymunedau gwledig. Bydd yn golled i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig na fydd Alun yn aelod ohono mwyach, ond hoffwn roi teyrnged i'r gwaith a wnaeth hyd yma.

Yr wyf yn gyn-ffermwyr llaeth erbyn hyn, ond droeon yn ystod fy 12 mis cyntaf yn y Siambr, byddwn yn mynd adref ar ôl Cyfarfod Llawn i odro yn y prynhawn. Felly, mae'r adroddiad hwn o ddiddordeb imi, yn enwedig y ffigurau graffig ynddo am dranc nifer o fusnesau llaeth.

Mae nifer o bobl wedi siarad y prynhawn yma am effaith cael ombwdsmon archfarchnadoedd. Treuliais gryn amser yn ymgyrchu am hyn ddechrau'r ganrif hon, adeg cyhoeddi'r adroddiadau cyntaf y byddai swydd o'r fath yn arwain at fwy o dryloywder yn y sector cyflenwi, sef rhywbeth a gymeradwywyd gan y Comisiwn Cystadleuaeth a'r Swyddfa Masnachu Teg. Felly, dylid croesawu'r ffaith fod yr adroddiad hwn yn nodi bod cael ombwdsmon archfarchnadoedd yn hollbwysig. Mae hefyd yn bwysig nodi bod Kevin Brennan, y Gweinidog sy'n gyfrifol am faterion defnyddwyr yn Llundain, wedi cymeradwyo o'r diwedd, yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol, bwysigrwydd cael ombwdsmon archfarchnadoedd—ac y mae'n ddiddorol iawn gweld pa effaith y gall etholiad ei chael ar y gefnogaeth gan eich cydweithwyr yn Nhŷ'r Cyffredin i fesur felly o'r meinciau cefn. Mae'n bwysig iawn i'r Gweinidog yma yn Llywodraeth y Cynulliad roi hwb arall

on the supply chain. I hope that her officials and she will engage fully with colleagues at Westminster. If there is to be a change of Government there, we, on this side of the Chamber, are prepared to challenge our party to ensure that it happens as a matter of urgency, as we are also committed to that.

The report clearly identifies issues with processing capacity. It is chilling to read in point 20 of the report that there is no longer a large-scale bottling operation for liquid milk in Wales. That is a fundamental deficiency that is driving down milk prices in Wales. I accept the worldwide commodity and currency issues. I also accept other aspects, such as the absence of a supermarket ombudsman and the price reflection from the retail sector, but if we cannot offer dairy farmers in Wales the capacity to process their milk in liquid form, we will struggle to push up the price of liquid milk. As can be seen from the milk league table, the price of milk enjoyed by farmers located in close proximity to a liquid processing plant is far superior to that enjoyed by those in other processing sectors—as much as 2p to 3p difference.

I implore the Minister to engage with the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport to address one of the report's key recommendations, which is to harness inward investment and business development grants. There has been major investment in the past 10 years. For example, Robert Wiseman's operation, which is just a stone's throw away from us in the west country, and Severnside in Gloucestershire have received significant investment from Dairy Crest. However, even with the sizeable milk field that we have here in south Wales, all the initiatives to date by the Welsh Assembly Government have failed to attract a significant bottling operation to Wales, which is the key to driving up the milk price.

I also note the recommendations on development, but of major concern in this report is the lack of information from the various Assembly Government-sponsored

ymlaen i'r syniad o greu swydd ombwdsmon, a fyddai'n cael effaith ar y gadwyn gyflenwi. Gobeithio y bydd hi a'i swyddogion yn ymwneud yn llawn â'i chydweithwyr yn San Steffan. Os bydd newid Llywodraeth yno, yr ydym ni, ar yr ochr hon o'r Siambr, yn barod i herio ein plaid er mwyn sicrhau y bydd yn digwydd ar fyrder, gan ein bod ni hefyd wedi ymrwymo i hynny.

Mae'r adroddiad yn nodi'n glir y problemau sy'n gysylltiedig â chapasiti prosesu. Mae'n ddychrynllyd darllen ym mhwynt 20 yn yr adroddiad nad oes gan Gymru erbyn hyn waith potelu ar raddfa fawr ar gyfer llaeth hylif. Mae hynny'n wendid sylfaenol sy'n achosi i brisiau llaeth ostwng yng Nghymru. Derbyniaf y problemau rhwngwladol sy'n gysylltiedig â nwyddau ac arian. Derbyniaf hefyd agweddau eraill, megis absenoldeb ombwdsmon archfarchnadoedd a'r modd y caiff prisiau eu hadlewyrchu gan y sector manwerthu, ond os na allwn roi'r gallu i ffermwyr llaeth yng Nghymru brosesu eu llaeth ar ffurf hylif, bydd yn anodd inni godi pris llaeth hylif. Fel y gellir gweld o'r tabl prisiau llaeth, mae'r pris y mae ffermwyr yn ei gael os ydynt yn byw'n agos at waith prosesu llaeth hylifol yn llawer uwch na'r pris y mae'r rhai mewn sectorau prosesu eraill yn ei gael—gwahaniaeth sydd gymaint â 2c i 3c.

Erfyniaf ar y Gweinidog i ymwneud â'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i fynd i'r afael ag un o argymhellion allweddol yr adroddiad, sef manteisio ar grantiau datblygu busnes a mewnfuddsoddi. Gwelwyd buddsoddiad mawr yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Er enghraifft, mae gwaith Robert Wiseman, sydd daflriad carreg i ffrwd yn ne-orllewin Lloegr, a Severnside yn Swydd Gaerloyw wedi cael buddsoddiad sylweddol gan Dairy Crest. Fodd bynnag, er gwaethaf y maes llaeth mawr sydd gennym yma yn y de, nid yw'r un o fentrau Llywodraeth y Cynulliad wedi llwyddo i ddenu gwaith potelu mawr i Gymru hyd yma, sy'n rhan allweddol o godi pris llaeth.

Sylwaf hefyd ar yr argymhellion ar ddatblygu, ond y prif bryder yn yr adroddiad hwn yw'r diffyg gwybodaeth gan y cyrff amrywiol a noddir gan Lywodraeth y

bodies charged with working with the industry to disseminate that information and push it back to the producers so that they can be confident that the initiatives that have been undertaken are working to best effect. I hope that the Minister will take the observations seriously on board that the groups are working hard but the information that they are preparing does not get beyond the front door. That calls into question the effectiveness of such groups and the resource allocated to them.

I will touch on two other minor points, if I may. Regulation is a key factor for some in deciding whether to try to make their way in the dairy industry. With the expansion of nitrate-vulnerable zones in Wales, which admittedly take up only a small part of the country at present, an ever-increasing burden of regulation has been placed on many in the dairy industry, and they are also required to make considerable investment to comply with the regulation. I would be grateful if the Minister could indicate how the red-tape review that she instigated in the early months of her ministerial career will address the burden of red tape on the dairy sector.

One component missing from this report is the inclusion of decisive figures to show the output figures for the dairy industry and its overall impact on the rural community. Dairy farming, by its very nature, is capital intensive. However, it generates revenue—albeit on a much diminished milk price—by employing the services of the local veterinary service, the local machinery manufacturer, and many other businesses in the local community. When it is taken out of the equation, many other businesses suffer with the reduced spend in the community. That would have been a valuable piece of work to substantiate the recommendations in the document before us today. I welcome the opportunity to comment on it and look forward to hearing the Minister's response.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Gwnaeth y Cadeirydd ac Andrew yr un pwynt, sef bod angen sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd y ffermwyr llaeth o drafodaethau'r grŵp y strategaeth laeth, o

Cynulliad, sy'n gyfrifol am weithio gyda'r diwydiant i rannu'r wybodaeth honno a'i chyfleu i'r cynhyrchwyr fel y gallant fod yn hyderus fod y mentrau yr ymgymmerwyd â hwy yn gweithio yn y ffordd orau. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried o ddifrif y sylwadau bod y grwpiau'n gweithio'n galed ond nad yw'r wybodaeth y maent yn ei pharatoi yn mynd y tu hwnt i'r drws ffrynt. Mae hynny'n codi amheuon ynglŷn ag effeithiolrwydd grwpiau o'r fath a'r adnoddau a roir iddynt.

Hoffwn drafod dau bwynt bach arall, os caf. Mae rheoleiddio yn ffactor allweddol i rai pobl sy'n ceisio penderfynu a ydynt am fentro i'r diwydiant llaeth. Wrth i'r parthau perygl nitradau ehangu yng Nghymru, er rhaid cyfaddef mai dim ond ar ran fach o'r wlad y mae'r parthau hyn yn effeithio ar hyn o bryd, mae baich rheoleiddio cynyddol wedi'i roi ar nifer o bobl yn y diwydiant llaeth, ac mae'n rhaid iddynt fuddsoddi'n sylweddol i gydymffurfio â'r rheoliad. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi sut y bydd yr adolygiad o fiwrocratiaeth a gyflwynwyd ganddi yn ystod misoedd cyntaf ei gyrrfa fel gweinidog yn mynd i'r afael â baich biwrocratiaeth ar y sector llaeth.

Un elfen sydd ar goll yn yr adroddiad hwn yw ffigurau pendant i ddangos allgynnrych y diwydiant llaeth a'i effaith gyffredinol ar y gymuned wledig. Mae ffermio llaeth, yn ei hanfod, yn gofyn am lawer o gyfalaf. Fodd bynnag, mae'n creu refeniw—er bod hynny ar sail pris dipyn yn is am laeth—drwy ddefnyddio gwasanaethau'r milfeddyg lleol, y gwneuthurwr peiriannau lleol a nifer o fusnesau eraill yn y gymuned leol. Pan fyddwch yn tynnu'r diwydiant o'r darlun, mae nifer o fusnesau eraill yn dioddef oherwydd bod llai o arian yn cael ei wario yn y gymuned. Byddai hwnnw wedi bod yn ddarn gwerthfawr o waith i gadarnhau'r argymhellion a geir yn y ddogfen sydd ger ein bron heddiw. Croesawaf y cyfle i roi sylwadau arni ac edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): The Chair and Andrew made the same point, namely that we need to ensure that information gets to the dairy farmers from the discussions of the dairy strategy

DairyCo, a'r cyrff niferus sy'n ymwneud â'r maes. Gwn fod cadeirydd grŵp y strategaeth laeth yn pryderu ynghylch y gwendid hwnnw, gan fod angen defnyddio'r wybodaeth ar ffermwyr. Gan fod y pwyt hwnnw wedi'i godi unwaith eto heddiw, byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion yn gweithio gyda'r grŵp strategaeth i hyrwyddo, rhyddhau a gwasgaru'r wybodaeth honno. Yr wyf hefyd yn cwrdd â grŵp y strategaeth laeth fy hun. Cyfarfûm â'r grŵp yn ystod yr haf y llynedd. Byddaf hefyd yn trafod y mater gyda chadeirydd y grŵp. Gwn fod llawer o wybodaeth ar gael am effeithlonrwydd a chostau cynhyrchu llaeth, ac mae angen i ffermwyr fod yn ymwybodol ohoni.

Mae'r drafodaeth hon wedi canolbwytio unwaith eto ar y pris a delir i ffermwyr am laeth, ond mae dwy ochr i'r geiniog o ran a yw'r economeg yn gweithio ai peidio: y pris y mae ffermwyr yn ei gael am y llaeth, a'r costau cynhyrchu. Mae'n bwysig bod ffermwyr yn cydweithio â Cyswllt Ffermio a DairyCo i sicrhau bod yr wybodaeth honno ar gael iddynt.

Nid oedd cyfeiriad at gwotâu yn yr adroddiad, fel y dywedodd Kirsty Williams, ond, yn sgil yr archwiliad iechyd a pholisi adolygiad canol tymor y polisi amaethyddol cyffredin, y penderfyniad terfynol yw y bydd cwotâu yn diflannu yn 2015. Bydd angen i ffermwyr a ni, fel Llywodraeth, gydweithio i baratoi ar gyfer y newid hwnnw.

Cyhoeddais yr wythnos diwethaf y ceir grant cyfalaf ar gyfer ffermydd sydd o fewn y parthau perygl nitradau er mwyn gallu buddsoddi i gwrdd â'r anghenion. Wythnos diwethaf, yn ôl dymuniad y diwydiant, cynyddais fwyafswm posibl y grant i bob ffermwyr o £10,000 i 40 y cant, gan gydnabod felly'r buddsoddiad sylweddol y bydd rhaid i nifer o ffermwyr ei wneud yn yr ardaloedd hynny.

3.30 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Diolch unwaith yn rhagor i'r Gweinidog yn arbennig am ei hymateb llafar i'r ddadl hon, yn ychwanegol i'w hymateb ysgrifenedig. Nodaf un neu ddau o bwyntiau y byddwn yn falch pe bai'n

group, from DairyCo, and the numerous bodies involved in the field. I know that the chair of the dairy strategy group is concerned about that failing, because farmers need to be able to use that information. Given that that point has already been raised once today, I will ensure that my officials work with the strategy group to promote, release and disseminate that information. I also meet with the dairy strategy group myself. I met the group during the summer last year. I will also raise the matter with the chair of the group. I know that there is a wealth of information available about the efficiency and costs of dairy production, but farmers need to be made aware of it.

This discussion has focused once more on the price paid to farmers for milk, but there are two sides to the equation as regards whether the economics of it work out: the price which farmers receive for the milk, and the production costs. It is important that farmers work together with Farming Connect and DairyCo to ensure that that information is available to them.

There was no reference to quotas in the report, as Kirsty Williams said, but as a result of the health check and the mid-term review of the common agricultural policy, the final decision is that quotas will be abolished in 2015. We, as a Government, and farmers will need to work together to prepare for that change.

Last week I announced that farms situated within nitrate-vulnerable zones would receive a capital grant to enable them to invest to fulfil the requirements. Last week, as requested by the industry, I increased the maximum grant payable to each farmer from £10,000 to 40 per cent, thereby recognising the significant investment that many farmers will have to make in those areas.

Rhodri Glyn Thomas: I thank the Minister once again, in particular for her oral response to this debate, and for her written response. I will note one or two points which I would be grateful if she could consider further. A

rhoi ystyriaeth bellach iddynt. Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â sut yn union mae Llywodraeth Cymru yn mynd i fod yn rhan o'r trafodaethau ynglŷn â sefydlu ombwdsmon Prydeinig i'r diwydiant llaeth. Fel y dywedodd y Gweinidog, mater o degwch yw hynny, ond gobeithiaf y byddai'n cytuno â phwynt Brynle Williams, Alun Davies a Kirsty Williams, sef y byddai sicrhau tegwch yn y maes hwn yn rhoi pris teg i gynhyrchwyr llaeth yng Nghymru. Annhegwyd y system ar hyn o bryd sy'n golygu nad yw'r cynhyrchwyr yn cael y pris haeddiannol am y llaeth y maent yn ei gynhyrchu. Byddwn yn falch o gael mwy o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw posibiliadau o gyfarfod rhwng y Gweinidog â'r Arglwydd Mandelson—nid wyf am eich gwthio i gyfarfod ag ef—gan ei bod yn bwysig eich bod yn rhoi llais i'r diwydiant yng Nghymru ac i'r gofynion fydd yn cael eu gosod ar yr ombwdsmon yng Nghymru.

Nid ydym ar hyn o bryd wedi cyflwyno unrhyw argymhellion ar Glastir. Byddwn yn ymchwilio i'r maes hwnnw ac yn cyflwyno ein hargymhellion yn fuan hefyd. Gofynnwyd i chi am hybu'r brand Cymreig y tu hwnt i Glawdd Offa, a sut y mae modd cael gwerth ychwanegol ar gyfer llaeth o Gymru. Byddwn yn falch o glywed eich barn ynglŷn â hynny. Mae pwynt Kirsty Williams ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd ar ôl 2015 ar gwotâu llaeth yn hanfodol bwysig i'r diwydiant yng Nghymru, a bydd rhaid i'r isbwylgor a'r Gweinidog roi ystyriaeth i hynny. Yr oedd ychydig bach yn gynnar, yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, i gyflwyno unrhyw argymhellion penodol, ond yr ydym yn sicr yn ymwybodol o bwysigrwydd hynny.

Diolchaf i bawb sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth hon. Mae consensws trawsbleidiol fod y diwydiant llaeth yn parhau i fod yn ddiwydiant hanfodol bwysig, nid yn unig i'r diwydiant amaeth yng Nghymru, ond i'r economi wledig. Mae'r swyddi sy'n cael eu cynnal yn yr economi wledig, o ganlyniad uniongyrchol i'r diwydiant amaeth, a'r sector llaeth o fewn y diwydiant hwnnw, yn dal i fod yn eithriadol o bwysig yn etholaethau llawer ohonom. Yr wyf yn ymwybodol iawn o hynny, gan fod y maes llaeth yn y de-orllewin yn rhan o fy etholaeth i. Cododd

question was raised about how the Welsh Government will play its part in the negotiations on establishing a British ombudsman for the dairy industry. As the Minister said, that is a matter of fairness, but I hope she would agree with the point made by Brynle Williams, Alun Davies and Kirsty Williams that ensuring fairness in this field would secure a fair price for milk producers in Wales. The unfairness of the system at the moment means that producers are not paid what they deserve for the milk they produce. I should be grateful for more information about the possibility of a meeting between the Minister and Lord Mandelson—I have no wish to push you into a meeting with him—since it is important that you give a voice to the industry in Wales and to the requirements to be placed on the ombudsman in Wales.

We have not currently made any recommendations on Glastir. We will look into this, and will soon be making our recommendations. You were asked about promoting the Welsh brand on the other side of Offa's Dyke, and how additional value can be secured for Welsh milk. I should be grateful if you could give us your view on that point. Kirsty Williams's point about what will happen to milk quotas after 2015 is vitally important to the industry in Wales, and the sub-committee and the Minister will have to consider that. It was a little early, in the context of this report, to make any specific recommendation on that issue, but we are certainly aware of its importance.

I thank everyone who contributed to this debate. There is cross-party consensus that the dairy industry is still of vital importance, not only to the agriculture industry in Wales but to the rural economy. The jobs which are supported in the rural economy as a direct result of the agriculture industry, and the dairy sector within that, remain extremely important in many of our constituencies. I am very well aware of that, given that the south-west Wales milk field is in my constituency. Andrew R.T. Davies raised the issue of a lack of processing facilities. We have a huge milk

Andrew R.T. Davies bwynt ynglŷn â diffyg adnoddau prosesu. Mae gennym faes llaeth enfawr, ond mae diffyg sylweddol o ran prosesu llaeth yng Nghymru, ac mae hynny'n sicr yn rhywbeth mae angen i ni roi sylwiddo.

Edrychaf ymlaen at gydweithio gyda'r Gweinidog i'r dyfodol ar y materion hyn, ac fe'ch sicrhaf, Weinidog, nad yw'r adroddiad hwn yn mynd i gasglu llwch ar ryw silff yn rhywle. Down yn ôl at y materion sydd wedi codi yn yr argymhellion hyn ac edrych yn benodol ar y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y strategaethau a nodwyd gennych. Yr ydych wedi nodi'i ch ffydd yn y strategaethau hynny, ac yr ydym ni fel is-bwyllogr wedi codi rhai cwestiynau ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r strategaethau hynny. Down yn ôl at y materion hynny o dro i dro, gan fanteisio ar eich parodrwydd i roi gwybodaeth i ni ar y datblygiadau o fewn y meysydd hynny.

Cyn gorffen—dylwn fod wedi dweud hyn ar y cychwyn—yr wyf yn cadeirio'r is-bwyllogr hwn yn awr fel y gwneuthum 10 mlynedd yn ôl yn y Cynulliad cyntaf. Hoffwn nodi ein gwerthfawrogiad ni i'r ysgrifenyddiaeth ac i bawb sydd wedi bod yn rhoi cymorth a chynhaliaeth i'r is-bwyllogr hwn. Mae'r gefnogaeth wedi bod yn werthfawr, ac mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yr adran gwasanaeth ymchwil yr Aelodau wedi bod yn hynod o werthfawr. Ni fyddem wedi llwyddo i ddod â'r adroddiad hwn ger eich bron heddiw heblaw am y gwaith hollbwysig hwnnw.

Y Llywydd: Diolchaf i'r Cadeirydd, yn arbennig am y sylwadau hynny ynglŷn â gwaith y swyddogion sy'n ein cynorthwyo.

Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

field, but milk processing is very lacking in Wales, and that is definitely something that we need to consider.

I look forward to working with the Minister in the future on these issues, and I assure you, Minister, that this report will not be left to gather dust on a shelf somewhere. We will revisit the issues that we have raised in these recommendations and look specifically at the work done on the strategies which you mentioned. You have talked of your faith in those strategies, and we, as a sub-committee, have raised some questions about their effectiveness. We will return to these issues from time to time, and will take advantage of your willingness to share information with us on developments.

Before I finish—I should have said this at the beginning—I am chairing this sub-committee now as I did 10 years ago in the first Assembly. I should like to note our appreciation of the secretariat and all who have assisted and supported the sub-committee. The support has been valuable, and the work done by the Members' research service has been extremely valuable. We would not have succeeded in presenting this report before you today without that vital work.

The Presiding Officer: I thank the Chair, especially for his comments about the work of the officials who assist us.

The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Dadl ar Orchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010 a'i Gymeradwyo

Debate and Approval of the Draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing) (Fire Safety) Order 2010

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Peter Black.

Ann Jones: I move that

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 22.34:

approves the draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing) (Fire Safety) Order 2010. (NDM4384)

Through the LCO process, I am pleased to have had the opportunity to raise awareness of the effectiveness of sprinklers and how they can, and will, save lives across Wales. House fires are cruel; they are devastating incidents of misfortune that can happen at any time of the year, to anyone. When lives are lost, we all see, at a personal or professional level, the devastation that causes within those families and the community. Following the Camberwell fire in 2009, the London Fire Brigade's assistant commissioner, Nick Collins, said:

'a sprinkler systems would have made a difference and could have saved lives'.

Nine times out of 10, it is the lack of a sprinkler system that means that lives are lost in fire. A sprinkler is the only mechanism that can fight a fire from its inception, effectively offering a firefighter in every room of your home, ready and waiting, 24 hours a day, seven days a week.

This draft LCO will give us the opportunity to make the installation of sprinkler systems mandatory in all new-built homes. By equipping our houses with this defence from fire, we can say proudly that Wales is leading the way. Experts are already saying things about us in that sense and I have no intention of allowing that to let up. By securing this draft LCO, we can say that we are acting to

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Peter Black.

Ann Jones: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.34:

yn cymeradwyo Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010. (NDM4384)

Drwy'r broses Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol, yr wyf yn falch o fod wedi cael y cyfre i gynyddu ymwybyddiaeth o effeithio'rwydd systemau chwistrellu a'r modd y gallant, ac y byddant, yn achub bywydau ledled Cymru. Mae tanau mewn tai yn greulon; maent yn ddamweiniau anffodus a dinistriol a all ddigwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn i unrhyw un. Pan fydd bywydau'n cael eu colli, gwelwn bob un, ar lefel bersonol neu broffesiynol, y dinistr y bydd hynny'n ei achosi yn y teuluoedd dan sylw ac yn y gymuned. Yn dilyn Tân Camberwell yn 2009, meddai comisiynydd cynorthwyo'r Brigâd Dân Llundain, Nick Collins:

byddai system chwistrellu wedi gwneud gwahaniaeth, a gallai fod wedi achub bywydau.

Naw gwaith allan o ddeg, diffyg system chwistrellu sy'n golygu bod bywydau'n cael eu colli mewn Tân. System chwistrellu yw'r unig system a all ymladd Tân o'r eiliad y mae'n dechrau, gan ddarparu diffoddwr Tân sydd wrth law 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ym mhob ystafell yn eich cartref i bob pwrrpas.

Bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn yn rhoi cyfre inni sicrhau ei bod yn orfodol gosod systemau chwistrellu ym mhob cartref newydd sy'n cael ei godi. Drwy osod y system hon yn ein tai i'w hamddiffyn rhag Tân, byddwn yn gallu dweud yn falch bod Cymru ar y blaen. Mae arbenigwyr eisoes yn dweud pethau felly amdanom, ac nid yw'n fwriad gennyladael i

reduce avoidable deaths in Wales. Not many of the votes taken in this Chamber will save lives directly; this one, will.

It is for that reason that I chose to set today's debate within the context of the human impact of this bid for an LCO, rather than the constitutional one. It is precisely for that reason, and for that reason alone, that Wales will win international plaudits for approving this draft LCO. I have been extremely encouraged by the cross-party and Government support for this draft Order and pleased that the scrutiny has been both open-minded and challenging, in Wales and at Westminster.

It has of course been a learning curve for everyone involved, as this was the very first backbench LCO after the Government of Wales Act 2006. As the Secretary of State for Wales, Peter Hain, said recently, this draft Order is important and in the interests of the citizen. I thank him for saying that. It is not always the case, but I think that that is the virtue of backbench legislation. As you will know, getting to this stage has been anything but easy, and I want to thank those who have supported my bid since July 2007.

I have to start with the three Welsh fire and rescue services. I am grateful for the continued support of firefighters, chief officers and the management teams in all of the fire and rescue services. I thank my former colleagues in the Fire Brigades Union, members of the National Fire Sprinkler Network and the British Automatic Fire Sprinkler Association, and Chris Enness, who is now the deputy chief fire officer of Staffordshire Fire and Rescue Service. They have all moved heaven and earth to get the information that I have needed and to provide support. They have helped to drive this process from the start. Their enthusiasm and passion has made a difference. I have learnt that, without the machinery of Government,

hynny beidio. Drwy sierhau'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn, gallwn ddweud ein bod yn gweithredu i leihau marwolaethau y gellir eu hosgoi yng Nghymru. Ni fydd llawer o'r pleidleisiau yn y Siambra hon yn achub bywydau'n uniongyrchol; ond bydd y bleidlais hon.

Dyna pam y dewisais osod y ddadl heddiw yng nghyd-destun effaith ddynol y cais am Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, yn hytrach na'i effaith gyfansoddiadol. Am yr union reswm hwnnw, ac am y rheswm hwnnw'n unig, y bydd Cymru yn ennill clod rhynghladol am gymeradwyo'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn. Mae'r gefnogaeth ar draws y pleidiau a chan y Llywodraeth i'r Gorchymyn drafft hwn wedi fy nghalonogi'n aruthrol, ac yr wyf yn falch fod y craftu wedi bod yn ddiuedd ac yn heriol, yng Nghymru ac yn San Steffan.

Wrth gwrs, bu'n broses ddysgu i bawb dan sylw, gan mai hwn oedd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol cyntaf un gan aelod o'r meinciau cefn ar ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel y dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Peter Hain, yn ddiweddar, mae'r Gorchymyn drafft hwn yn bwysig, ac mae o fudd i'r dinesydd. Diolch iddo am ddweud hynny. Nid felly y mae bob amser, ond credaf mai dyna rinwedd deddfwriaeth gan aelod o'r meinciau cefn. Fel y gwyddoch, ni fu cyrraedd y cam hwn yn rhwydd o gwbl, ac yr wyf am ddiolch i'r rheini sydd wedi cefnogi fy nghais er mis Gorffennaf 2007.

Rhaid imi ddechrau gyda'r tri gwasanaeth Tân ac achub yng Nghymru. Yr wyf yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus y diffoddwyr Tân, y prif swyddogion a'r timau rheoli ym mhob un o'r gwasanaethau Tân ac achub. Diolch i'm cyn-gydweithwyr yn Undeb y Brigadau Tân, aelodau'r Rhwydwaith Cenedlaethol Systemau Chwistrellu Tân a Chymdeithas Systemau Chwistrellu Tân Awtomatig Prydain, a Chris Enness, sydd bellach yn ddirprwy brif swyddog Tân gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Stafford. Maent i gyd wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i gael y wybodaeth yr oedd arnaf ei hangen ac i ddarparu cefnogaeth. Maent wedi helpu gyrru'r broses hon o'r dechrau. Mae eu brwdfrydedd a'u

any legislation needs tremendous drive and I commend the many supporters of this draft LCO for offering that. These are the people who have seen first-hand what fire can do. Speaking as an ex-fire-control operator and officer, I am determined that we should embrace every opportunity to reduce the threat to the lives of emergency service staff in Wales. Again, not many of the votes that we take in this Chamber can do that, but this one will.

Since 2007, I have relied on the staff of the Assembly's legislation office and they have jumped over countless hurdles to get me to this stage. I want to say a big thank you to Gareth Williams and Graham Winter, for they have answered the endless queries that have been thrown at them over the past two years, and have helped liaise with the Wales Office, the Welsh Assembly Government and Westminster. It has taken us all some long hours and creative thinking to overcome the difficulties that we have faced, but nevertheless we stand here today.

I realised, from the start, that there are some common misconceptions about fire sprinklers. I know, if I am honest, that many people do not see this issue as a priority. However, the option to do nothing and to drop this draft Order at this stage would only be chosen by the extremely short-sighted. Domestic fires cost the UK economy around £7 billion each year. The average cost of a domestic fire is around £24,000. The finer details concerning costs will be covered when it comes to drafting a proposed Measure and when the impact assessment is undertaken. However, I have been keen to confront the issue of cost throughout the LCO process, and I remain convinced that costs will be reduced as the economies of scale and competition kick in, and especially with larger housebuilding developments. I am also certain that it will provide significant savings for the fire service and the public.

3.40 p.m.

Among the misconceptions was the idea that

hawydd wedi gwneud gwahaniaeth. Heb beirianwaith Llywodraeth, yr wyf wedi dysgu bod angen egni aruthrol i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth, a chymeradwyaf gefnogwyr niferus y Gorchymyn cymhwysedd ddeddfwriaethol drafft hwn am gynnig yr egni hwnnw. Dyma'r bobl sydd wedi gweld yn uniongyrchol beth y gall tân ei wneud. A siarad fel cyn-weithredwr a swyddog rheoli tân, yr wyf yn benderfynol y dylem achub ar bob cyfle i leihau'r bygythiad i fywydau staff gwasanaethau brys yng Nghymru. Eto, ni all llawer o'r pleidleisiau yn y Siambr hon wneud hynny, ond bydd y bleidlais hon.

Er 2007 yr wyf wedi dibynnu ar staff swyddfa ddeddfwriaeth y Cynulliad, ac maent wedi goresgyn rhwystrau dirifedi i'm cael i'r cam hwn. Yr wyf am ddiolch yn fawr iawn i Gareth Williams a Graham Winter, oherwydd maent wedi ateb yr ymholiadau diddiwedd a gyfeiriwyd atynt dros y ddwy flynedd diwethaf, ac wedi helpu cysylltu â Swyddfa Cymru, Llywodraeth y Cynulliad a San Steffan. Mae goresgyn yr anawsterau yr ydym wedi'u hwynebu wedi golygu oriau hir o waith ac o feddwl yn greadigol inni i gyd, ond yr ydym yn sefyll yma heddiw er hynny.

Sylwais o'r dechrau fod rhai camsyniadau cyffredin yngylch systemau chwistrellu tân. Gwn, os wyf yn onest, nad yw llawer o bobl yn ystyried y mater hwn yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, pobl hynod annoeth yn unig fyddai'n dewis gwneud dim a rhoi'r gorau i'r Gorchymyn drafft hwn yn awr. Mae tanau domestig yn costio tua £7 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn. Mae pob tân domestig yn costio tua £24,000 ar gyfartaledd. Ymdrinnir â'r manylion am gostau pan ddaw'n bryd drafftio Mesur arfaethedig a phan gynhelir yr asesiad effaith. Fodd bynnag, bûm yn awyddus i ymdrin â'r gost drwy gydol proses y Gorchymyn cymhwysedd ddeddfwriaethol, ac yr wyf yn dal wedi fy argyhoeddi y bydd y costau'n lleihau wrth i'r arbedion maint a chystadleuaeth ddod yn amlwg, ac yn enwedig mewn datblygiadau adeiladu mwy o faint. Yr wyf hefyd yn sicr y bydd yn sicrhau arbedion sylwedol i'r gwasanaeth tân a'r cyhoedd.

Ymhllith y camsyniadau dan sylw yr oedd y

sprinklers will soak you every time the alarm goes off when you are cooking, but sprinklers cannot be activated by burnt toast or pizzas. If that was the case, do you think that I would put myself through this process? They only activate when the room temperature hits 68 degrees C. They activate in isolation, so if a fire is burning in one room, sprinkler heads will only activate in that room. The odds of the system operating accidentally are 16,000,000:1, so, after today's Plenary, if you buy a lottery ticket, you are more likely to win the lottery tonight.

We have made progress in introducing sprinkler systems in new schools, and I am confident that the arguments in respect of schools also relate to the draft LCO. Homes are rightly the next step. Fire and rescue research has shown that the cost to the fire service plummets when a sprinkler has been in activation. The fire service's portion of the cost of any fire is around £3,500 for homes without sprinklers. When attending a house fire where sprinklers are fitted, the cost comes down to less than £1,500. Therefore, the legislation will be good for the fire service. It also gives the fire service extra protection—firefighters will be protected to a greater degree. The public will also be protected to a greater extent as more homes are built with sprinklers. That, in turn, will save on the damage to the whole property should there be a fire.

I wish to briefly mention environmental benefits. When the Scottsdale Fire Department in Arizona carried out a 10-year study on the effectiveness of sprinklers, the results were incredible. The amount of water used by sprinklers to tackle a fire is 209 gallons. It was estimated that firefighters using hoses would have used 3,290 gallons. Imagine what a difference that makes to the environment. Without the introduction of sprinklers, this waste will continue. The systems will also stop a house from burning

syniad y byddai systemau chwistrellu yn eich gwlychu bob tro pan fydd y larwm yn seinio wrth ichi goginio, ond ni all tost neu bizzas wedi llosgi beri i systemau chwistrellu ddechrau gweithio. Pe bai hynny'n wir, a ydych yn credu y byddwn yn fy rhoi fy hun drwy'r broses hon? Dim ond pan fydd tymheredd yr ystafell yn cyrraedd 68 gradd C y bydd y systemau'n dechrau gweithio. Byddant yn dechrau gweithio ar wahân, felly, os oes tân yn llosgi mewn un ystafell, dim ond yn yr ystafell honno y bydd y chwistrellau'n dechrau gweithio. Mae'r perygl i'r system weithredu'n ddamweiniol yn 16,000,000:1. Felly, os prynwch docyn loteri ar ôl Cyfarfod Llawn heddiw, byddwch yn fwy tebygol o ennill y loteri heno.

Yr ydym wedi gwneud cynnydd wrth gyflwyno systemau chwistrellu mewn ysgolion newydd, ac yr wyf yn hyderus fod y dadleuon ynglyn ag ysgolion hefyd yn berthnasol i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft. Cartrefi yw'r cam nesaf, ac y mae hynny'n holol iawn. Dangosodd ymchwil i dâr ac achub fod y gost i'r gwasanaeth tân yn plymio pan fydd system chwistrellu wedi bod yn gweithio. Cyfran y gwasanaeth tân o gost unrhyw dâr yw tua £3,500 ar gyfer cartrefi heb systemau chwistrellu. Pan ânt i dâr mewn ty lle mae system chwistrellu wedi'i gosod, bydd y gost yn disgyn i lai na £1,500. Felly, bydd y ddeddfwriaeth o fudd i'r gwasanaeth tân. Bydd hefyd yn rhoi system amddiffyn ychwanegol i'r gwasanaeth tân—bydd y diffoddwyr tân yn cael eu hamddiffyn yn fwy. Bydd y cyhoedd hefyd yn cael ei amddiffyn i raddau mwy helaeth wrth i fwy o gartrefi gael eu hadeiladu gyda systemau chwistrellu. Bydd hynny, yn ei dro, yn arbed difrod i'r eiddo cyfan pe bai tân yn digwydd.

Hoffwn grybwyllyn fyr y manteision amgylcheddol. Pan wnaeth Adran Tân Scottsdale yn Arizona astudiaeth 10 mlynedd o effeithiolrwydd systemau chwistrellu, yr oedd y canlyniadau'n anhygoel. Mae systemau chwistrellu'n defnyddio 209 galwyn o ddŵr i ymladd tân. Amcangyfrifwyd y byddai diffoddwyr tân sy'n defnyddio pibellau wedi defnyddio 3,290 galwyn. Dychmygwch faint o wahaniaeth y mae hynny'n ei wneud i'r amgylchedd. Os na chyflwynir systemau

down; as I have said, the fire will be contained in one room, usually with just one or two sprinkler heads in activation. That means that the carbon footprint associated with rebuilding a home is eliminated completely.

In the video that I used to highlight how effective sprinklers are when I introduced the proposed LCO at the first Stage—I know that that was two years ago, but I am sure that we can all remember that—only 3 per cent of property and fittings were lost in a room fitted with sprinklers. A room without sprinklers suffered 100 per cent loss—everything was totally destroyed. That creates enormous waste and pollution, which would end up in Welsh landfill. Where there are sprinklers, the loss is drastically reduced.

Over the last few years I have met with, and have been supported by, organisations that have a comprehensive understanding of how sprinkler systems work. The National Fire Sprinkler Association and the British Automatic Fire Sprinkler Association have collaborated constantly when making the case for sprinklers, and their perspective really is international. Along with others, they have assured me that the expertise is proven and is extensive enough to make this draft Order completely feasible. As the Minister, Jane Davidson, said in her evidence to the Welsh Affairs Committee, this proposal represents good governance. I am grateful for the Welsh Assembly Government's support, and I am determined that any Measure will be good, workable legislation.

Those of us who have ventured onto the LCO journey will know how much Members rely on the legal and research expertise of the Legislation Office, and I have already mentioned how valuable I found that work. The quality of such legislation relies heavily

chwistrellu, bydd y gwastraff hwn yn parhau. Bydd y systemau hefyd yn rhwystro tŷ rhag llosgi'n ulw; fel y dywedais, caiff y tân ei gyfyngu i un ystafell, a'r dŵr yn dod allan o un neu ddwy chwistrell yn unig fel rheol. Golyga hynny y bydd yr ôl troed carbon sy'n gysylltiedig ag ailadeiladu tŷ yn cael ei ddileu'n llwyr.

Yn y fideo a ddefnyddiai dynnu sylw at effeithioliwydd systemau chwistrellu, pan gyflwynais y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig yn ystod y Cam cyntaf—gwn fod hynny ddwy flynedd yn ôl, ond yr wyf yn siŵr y gallwn i gyd gofio hynny—3 y cant yn unig o eiddo a ffitiadau a gâi eu colli mewn ystafell lle'r oedd system chwistrellu wedi'i gosod. Câi'r holl eiddo a'r holl ffitiadau eu colli mewn ystafell heb system chwistrellu—câi popeth ei ddinistro'n llwyr. Mae hynny'n creu llygredd a gwastraff aruthrol, a fyddai'n mynd i safle tirlenwi yng Nghymru. Caiff y golled ei lleihau'n aruthrol pan fydd system chwistrellu wedi'i gosod.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yr wyf wedi cyfarfod â sefydliadau sydd â dealltwriaeth drylwyr o'r modd mae systemau chwistrellu'n gweithio, ac maent wedi fy nghefnogi. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Systemau Chwistrellu Tân a Chymdeithas Systemau Chwistrellu Tân Awtomatig Prydain wedi cydweithredu'n gyson wrth gyflwyno'r achos dros systemau chwistrellu, ac y mae eu safbwyt yn wirioneddol ryngwladol. Ynghyd ag eraill, maent wedi fy sicrhau bod yr arbenigedd wedi'i brofi a'i fod yn ddigon eang i olygu bod y Gorchymyn drafft hwn yn gwbl ddichonadwy. Fel y dywedodd y Gweinidog, Jane Davidson, yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig, mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu llywodraethu da. Yr wyf yn ddiolchgar am gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, ac yr wyf yn benderfynol y bydd unrhyw Fesur yn ddeddfwriaeth dda ac yn ymarferol.

Bydd y rheini ohonom sydd wedi mentro ar siwrnai Gorchmyntion cymhwysedd deddfwriaethol yn gwybod cymaint mae Aelodau'n dibynnau ar arbenigedd cyfreithiol ac arbenigedd ymchwili y Swyddfa Ddeddfwriaeth, ac yr wyf eisoes wedi

on its work and expertise, as I stated when giving evidence to the Welsh Affairs Committee. I believe that we have proceeded with far too many ballots. I do not say that because I won the first one, or because I do not think that we have good ideas and that we are not up to it, but because there is currently a capacity issue. It is unreasonable and unfair, even of me, to expect a small number of people to turn around complex draft legislation almost as if it were on top of their day jobs—but they have done it, and I am grateful to them.

As I have progressed through the system, I have been keen to co-operate with the Welsh Assembly Government, the Wales Office and the Welsh Affairs Committee, which, notably, published its supportive report just five weeks after the evidence session. I place on record my thanks to the Chair, Hywel Francis, and to all of the members of the committee, for their hospitality and the courteous way in which they dealt with my evidence session.

Many of you will realise that my proposals flow from my personal experience in the emergency services and that I have a desire to make Wales a safer, better place in which to live, work and play. I turn to the amendment tabled in the name of Peter Black. I believe that it is inappropriate for this debate, which is on the subject of saving lives. I am sure that Peter and the Welsh Liberal Democrats can find a more suitable debate in which to have their say on the process. I hope that the amendment will not attract support and that everyone in the Chamber will remain fully committed to the principle of saving lives and making homes in Wales safer. I ask that the Assembly sends this draft LCO onwards and upwards on its journey to take its rightful place on our statute book.

Peter Black: I move amendment 1 in my name. Add as a new point at the end of the motion:

crybwyl mor werthfawr oedd y gwaith hwnnw imi. Mae ansawdd deddfwriaeth o'r fath yn dibynnu'n drwm ar waith ac arbenigedd y Swyddfa honno, fel y dywedais wrth roi dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig. Credaf ein bod wedi bwrw ymlaen â gormod o lawer o falotau. Nid wyf yn dweud hynny oherwydd imi ennill y balot cyntaf, neu oherwydd fy mod yn credu nad oes gennym syniadau da ac nad ydym yn ddigon cymwys; fe'i dywedaf oherwydd bod gennym broblem o ran capasiti ar hyn o bryd. Mae'n afresymol ac yn annheg, hyd yn oed i mi, i ddisgwyl i nifer bach o bobl gynhyrchu deddfwriaeth ddrafft gymhleth, sydd bron yn ychwanegol at eu gwaith o ddydd i ddydd—ond maent wedi gwneud hynny, ac yr wyf yn ddiolchgar iddynt.

Wrth symud drwy'r system, yr wyf wedi bod yn awyddus i gydweithredu â Llywodraeth y Cynulliad, Swyddfa Cymru a'r Pwyllgor Materion Cymreig a gyhoeddodd, mae'n werth nodi, ei adroddiad cefnogol bum wythnos yn unig ar ôl y sesiwn dystiolaeth. Cofnodaf fy niolch i'r Cadeirydd, Hywel Francis, a holl aelodau'r pwyllgor am eu croeso a'r ffordd gwrtais yr ymdriniodd y pwyllgor â'm sesiwn dystiolaeth.

Bydd llawer ohonoch yn sylweddoli bod fy nghynigion yn deillio o'm profiad personol yn y gwasanaethau brys, a'm bod yn awyddus i wneud Cymru yn lle gwell a mwy diogel i fyw, gweithio a chwarae. Trof at y gwelliant a gyflwynwyd yn enw Peter Black. Credaf ei fod yn amhriodol ar gyfer y ddadl hon, sy'n ymwneud ag achub bywydau. Yr wyf yn siŵr y gall Peter a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ddod o hyd i ddadl fwy addas i fynegi eu barn am y broses. Gobeithio na fydd y gwelliant yn denu cefnogaeth, ac y bydd pawb yn y Siambrau wedi ymrwymo'n llwyr o hyd i'r egwyddor o achub bywydau a gwneud cartrefi yng Nghymru yn fwy diogel. Gofynnaf i'r Cynulliad anfon y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn ymlaen ar ei siwrnai, fel y gall gymryd ei briod le ar ein llyfr statud.

Peter Black: Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

notes the length of time that it has taken for this LCO to progress to this stage and believes this further highlights the unsustainability of the current legislative arrangements for Wales.

yn nodi faint o amser a gymerwyd i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn gyrraedd y cyfnod hwn ac yn credu bod hyn yn tynnu rhagor o sylw at ddiffyg cynaliadwyedd y trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer Cymru.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.46 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.46 p.m.*

I will respond to that point straight away in moving the amendment. If we did not have this complex and difficult LCO system, the Measure that Ann will, hopefully, be bringing forward as soon as this draft LCO is passed could have been in place two years ago and many more lives could have been saved. So, if you want me to put it in those terms, Ann, I will do so. The amendment was tabled because we have been operating this LCO system for a number of years and this is only the second Member proposed LCO that has gone through. We have spent many hours and thousands of pounds of public money debating the transfer of power from Westminster to the Assembly on a whole range of different issues, without making any laws at the end of that process. Once we have got the LCO through, we then have to put through a Measure in order to change anything in people's lives. That is the whole point of this legislation. It is changing things for the better to improve people's lives. In the case of this particular draft LCO and the Measures that will flow from it, it will save lives and ensure that if a fire occurs damage to the property is minimised and people have a better chance of getting out of their home and not being caught by problems with smoke and the other issues that arise from a major fire. Sprinklers will have a big impact and the more homes that we can fit with sprinklers, the better the chance we have of minimising loss of life and property damage as a result of fires, and, in particular, of addressing those who are most vulnerable and at greatest risk and of minimising the danger to them.

Ymatebaf i'r pwynt hwnnw'n syth wrth gynnig y gwelliant. Pe na bai gennym y system gymhleth ac anodd hon ar gyfer Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol, gallasai'r Mesur y bydd Ann, gobeithio, yn ei gyflwyno cyn gynted ag y caiff yr LCO hwn ei dderbyn, fod ar waith ddwy flynedd yn ôl, a gellid bod wedi achub mwy o lawer o fywydau. Felly, os ydych am imi ei fynegi fel hynny, Ann, fe wnaf. Cyflwynwyd y gwelliant oherwydd ein bod yn gweithredu'r system hon ar gyfer LCO ers blynnyddoedd lawer, a'r LCO arfaethedig hwn gan Aelod yw'r ail un yn unig i gael ei dderbyn. Yr ydym wedi treulio oriau lawer ac wedi gwario miloedd o bunnoedd o arian cyhoeddus yn dadlau am drosglwyddo pŵer o San Steffan i'r Cynulliad ar ystod lawn o wahanol faterion, heb wneud dim cyfreithiau ar ddiwedd y broses honno. Pan fydd yr LCO wedi'i dderbyn, rhaid cyflwyno Mesur wedyn er mwyn newid bywydau pobl mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Dyna yw holl bwrrpas y ddeddfwriaeth hon. Mae'n newid pethau er gwell er mwyn gwella bywydau pobl. Yn achos yr LCO drafat arbennig hwn, a'r Mesurau a fydd yn deillio ohono, bydd yn achub bywydau ac yn sicrhau, os bydd tân yn digwydd, fod cyn lleied ag sy'n bosibl o ddifrod i'r eiddo a bod gan bobl well siawns o ddianc o'u cartref ac osgoi problemau mwg a'r problemau eraill a ddaw yn sgil tân mawr. Bydd systemau chwistrellu'n cael effaith fawr, a pho fwyaf o gartrefi y gallwn osod systemau chwistrellu ynddynt, gorau oll fydd ein siawns o leihau nifer y bywydau a gollir a'r difrod a achosir i eiddo o ganlyniad i danau, ac yn anad dim, gorau oll fydd ein siawns o roi sylw i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed a risg ac o leihau'r perygl iddynt.

I have talked to the fire brigade, and I know that vulnerable people are already making use of portable sprinklers. They are particularly valuable. I spoke to a fire officer about an

Yr wyf wedi siarad â'r frigâd dân, a gwn fod pobl sy'n agored i niwed eisoes yn defnyddio systemau chwistrellu symudol. Maent yn arbennig o werthfawr. Siaradais â swyddog

elderly man who is in the habit of falling asleep with a lit cigarette while surrounded by bedding. A portable sprinkler was installed so that next time that he falls asleep with a lit cigarette and it falls on the bedding, he will get woken up pretty sharpish, because the bulb on the sprinkler system will burst and he will get soaked with water—but at least he will still be alive. That is what is important about these sprinklers.

The sooner this LCO system is abolished, the better. We will continue to table this sort of amendment to all debates on LCOs, because we believe that it is important to draw people's attention to the huge waste of time and resources involved in the process. If we had the powers in the first place, we would not have to go through it. Often, the drawing down of powers becomes a complex series of negotiations, not just with MPs, but with Whitehall civil servants and departments. That often leaves us without all of the powers that we need, sometimes entailing us having to go back for more, either because we have overlooked something or because circumstances have arisen that entail us having to do that.

Jeff Cuthbert: Why do you not hold a dedicated debate on the issue of the process rather than attempting to hijack a debate on an issue that people feel strongly about, and which you say that you support? You are using this debate quite opportunistically. Why are you doing that instead of holding a dedicated debate on the issue that concerns you?

tân am ddyn oedrannus sydd wedi dechrau mynd i gysgu heb ddiffodd ei sigarét, gyda dillad gwely o'i amgylch. Gosodwyd system chwistrellu symudol, felly, y tro nesaf pan fydd y dyn yn mynd i gysgu heb ddiffodd ei sigarét, a bod honno'n syrthio ar y dillad gwely, bydd yn cael ei ddeffro'n sydyn, oherwydd bydd y bwlb ar y system chwistrellu'n byrstio a bydd yn gwlychu drwyddo—ond bydd o leiaf yn dal yn fyw. Dyna sy'n bwysig am y systemau chwistrellu hyn.

Gorau po gyntaf y caiff y system LCO hon ei dileu. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r math hwn o welliant ym mhob dadl am LCO, oherwydd credwn ei bod yn bwysig tynnu sylw pobl at y gwastraff enfawr o amser ac adnoddau sy'n rhan o'r broses. Pe bai gennym y pwerau yn y lle cyntaf, ni fyddai'n rhaid inni fynd drwy hyn. Yn aml, mae tynnu pwerau i lawr yn troi'n gyfres gymhleth o drafodaethau, nid yn unig ag Aelodau Seneddol, ond â gweision sifil ac adrannau yn Whitehall hefyd. Yn aml, mae hynny'n ein gadael heb yr holl bwerau y mae arnom eu hangen, sydd weithiau'n golygu ei bod yn rhaid inni fynd yn ôl i gael mwy, naill ai oherwydd ein bod wedi anghofio rhywbeth neu oherwydd bod amgylchiadau wedi codi sy'n golygu ei bod yn rhaid inni wneud hynny.

Jeff Cuthbert: Pam na chewch chi ddadl bwrpasol am y broses, yn hytrach na cheisio torri ar draws dadl am fater y mae pobl yn teimlo'n gryf yn ei gylch a chithau'n dweud eich bod yn ei gefnogi? Yr ydych yn defnyddio'r ddadl hon mewn modd eithaf oportiwnistaidd. Pam gwneud hynny yn hytrach na chynnal dadl bwrpasol am y mater sy'n peri pryer ichi?

Peter Black: First, we do not need to hold a dedicated debate on the process, because we are having a debate on 9 February in which we will be discussing this in greater detail. Secondly, there is nothing opportunistic about this, and it is not hijacking the debate. It is a real issue; Ann has talked passionately and sincerely about how her draft LCO and the Measures that will flow from it can genuinely save lives, yet we have had to wait two years to get to this stage. How many lives could have been saved in two years? If you think that that is opportunistic then I am sorry, but it is not. I am expressing a genuine concern about the delays that have been built into some important legislation. This Assembly, and Ann in particular, is taking a lead on this issue in Wales and in the UK as a whole, because, if Wales does this, England will, hopefully, follow suit, and so will other legislatures.

3.50 p.m.

This is an important issue, and one that we feel very strongly about. Sprinklers are important, and the draft LCO as it stands is right on the mark. We need to get it in place as soon as possible so that we can bring forward the legislation. However, there is a genuine issue here about the delays built into the system that have stopped us from doing that before now. As I said, a good idea has taken two years to come to fruition. That is what concerns me, and that is what the amendment is about.

Joyce Watson: I am delighted to support this draft LCO, and will be delighted, as will colleagues, to be vote for something that will save lives, as Ann has said. The fact that it was the first Member proposed LCO following the Government of Wales Act 2006 must have brought its own difficulties and pressures. However, it has shown those of us who have since brought forward proposals for LCOs the way forward. This draft LCO is an excellent example of what the process can achieve: it allows backbenchers to bring forward clear, purposeful and worthwhile legislation for Wales.

Peter Black: Yn gyntaf, nid oes angen inni gynnal dadl bwrpasol am y broses, oherwydd byddwn yn cael dadl ar 9 Chwefror wrth drafod hyn yn fanylach. Yn ail, nid ydym yn oportiwnistaidd, ac nid ydym yn torri ar draws y ddadl. Mae'n broblem wirioneddol; mae Ann wedi siarad yn angerddol ac yn ddiwyll am y modd y gall ei LCO drafft, a'r Mesurau a fydd yn deillio ohono, achub bywydau'n wirioneddol. Ond yr ydym wedi gorfol aros dwy flynedd i gyrraedd y cam hwn. Faint o fywydau a allai fod wedi eu hachub mewn dwy flynedd? Os credwch fod hynny'n oportiwnistaidd, mae'n ddrwg gennyf, ond nid ydyw. Yr wyf yn mynegi pryer gwirioneddol am yr oedi sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth bwysig. Mae'r Cynulliad hwn, ac Ann yn enwedig, yn arwain ar y mater dan sylw yng Nghymru ac yn y DU gyfan, oherwydd os bydd Cymru yn gwneud hyn, bydd Lloegr yn dilyn, gobeithio, a hefyd deddfwrfeydd eraill.

Mae hwn yn fater pwysig, ac yn fater yr ydym yn teimlo'n gryf iawn yn ei gylch. Mae systemau chwistrellu'n bwysig, ac mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft fel y mae yn llygad ei le. Mae angen inni sicrhau ei fod ar waith cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn inni allu cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae yna broblem wirioneddol yma ynghylch yr oedi sydd wedi'i ymgorffori yn y system ac sydd wedi ein rhwystro rhag gwneud hynny cyn hyn. Fel y dywedais, mae syniad da wedi cymryd dwy flynedd i ddwyn ffrwyth. Dyna sy'n peri pryer imi, a dyna yw diben y gwelliant.

Joyce Watson: Yr wyf yn falch cefnogi'r LCO drafft hwn, a byddaf yn falch, fel fy nghydweithwyr, i bleidleisio dros rywbeth a fydd yn achub bywydau, fel y dywedodd Ann. Hwn oedd yr LCO cyntaf gan Aelod yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a rhaid bod y ffaith honno ynddi ei hun wedi arwain at anawsterau a phwysau. Fodd bynnag, mae wedi dangos y ffordd ymlaen i'r rheini ohonom sydd wedi cyflwyno cynigion am LCO ers hynny. Mae'r LCO drafft hwn yn engraifft wych o'r hyn y gall y broses ei gyflawni: mae'n caniatáu i aelodau meinciau cefn gyflwyno deddfwriaeth glir, bwrpasol a

gwerth chweil i Gymru.

That the bid has received cross-party support and is backed by the Welsh Assembly Government, Wales's three fire and rescue services, the Wales TUC, the Fire Brigades Union, the National Fire Sprinkler Association and the British Automatic Fire Sprinkler Association, among others, speaks for itself. It demonstrates what a well-conceived and well-executed bid for legislation it is.

The reasons for the draft LCO are there for all to see. As Ann has said, sprinklers act as fire fighters ready and waiting in every room, 24 hours a day, seven days a week. Nobody in this country has ever died as a result of a fire in a home fitted with sprinklers. This Labour-led Government has already made it a requirement to install sprinklers in new schools.

Evidence has shown time and again that sprinklers are the best possible defence against fire for older and disabled people in particular; they are protected as the fire simply cannot spread. When you add to that the fact that personal property worth thousands of pounds is saved when a fire is contained to one room, it is clear that this is commonsense lawmaking.

Ann has already outlined the economic rationale for fitting new homes with sprinklers, but I think that enterprising businesses in Wales could secure further benefits by planning to meet the new demand for these units. I hope that that the Minister for the Economy and Transport will consider that as the draft LCO, hopefully, progresses.

Mark Isherwood: As a Member of the committee that scrutinised the proposed legislative competence Order I was determined to consider its merits with regard to the number of lives that it could save and how deliverable it was by house builders and social housing providers. We will support the motion to approve the draft Order. However, given the evidence provided, a number of

Mae'r ffaith bod y cais wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol a chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, tri gwasanaeth Tân ac achub Cymru, TUC Cymru, Undeb y Brigadau Tân, y Gymdeithas Genedlaethol Systemau Chwistrellu Tân, a Chymdeithas Systemau Chwistrellu Tân Awtomatig Prydain, ymhliith eraill, yn dweud y cyfan. Mae'n dangos ei fod yn gais am ddeddfwriaeth sydd wedi'i lunio a'i weithredu'n dda.

Mae'r rhesymau dros yr LCO drafft yn amlwg i bawb. Fel y dywedodd Ann, mae systemau chwistrellu'n ddifffoddwyr Tân sydd wrth law ym mhob ystafell 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Nid oes neb yn y wlad hon erioed wedi marw o ganlyniad i dâr mewn cartref lle'r oedd system chwistrellu wedi'i gosod. Mae'r Llywodraeth hon dan arweiniad y Blaid Lafur eisoes wedi sicrhau ei bod yn ofynnol gosod systemau chwistrellu mewn ysgolion newydd.

Mae tystiolaeth wedi dangos dro ar ôl tro mai systemau chwistrellu yw'r systemau amddiffyn gorau posibl rhag Tân ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl yn enwedig; cânt eu hamddiffyn oherwydd na all y Tân ymledu. O ychwanegu at hynny y ffaith fod eiddo personol gwerth miloedd o bunnoedd yn cael ei achub pan gaiff Tân ei gyfyng i un ystafell, mae'n amlwg bod y deddfu hwn wedi'i seilio ar synnwyr cyffredin.

Mae Ann eisoes wedi amlinellu'r rhesymau economaidd dros osod systemau chwistrellu mewn cartrefi newydd, ond credaf y gallai busnesau blaengar yng Nghymru sicrhau manteision eraill, drwy gynllunio i fodloni'r galw newydd am yr unedau hyn. Gobeithio y bydd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn ystyried hynny wrth i'r LCO drafft fynd rhagddo, gobeithio.

Mark Isherwood: Fel Aelod o'r pwylgor a graffodd ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig, yr oeddwn yn benderfynol o ystyried ei rinweddau o ran nifer y bywydau y gallai eu hachub, a phamor rhwydd y gallai adeiladwyr tai a darparwyr tai cymdeithasol ei wireddu. Byddwn yn cefnogi'r cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn drafft. Fodd bynnag, o ystyried y

issues will need to be addressed at the Measure stage if the draft Order is to produce effective legislation.

During the original debate on this Order, I noted that there has never been a fire death in a fully sprinklered domestic building in the UK, which is a persuasive argument. However, I also noted the need for better sharing of information between agencies so that the most vulnerable can be targeted. That followed discussions with North Wales Fire and Rescue service after an exceptionally high figure of 10 fire deaths in Wales over one year was reported. These discussions revealed that seven of those deaths related to people who were already known by other agencies to be in high-risk groups.

I also referred to research by the Building Research Establishment on the effectiveness of sprinklers in residential properties. This 2003-04 report, commissioned by the UK Government, found that sprinklers were only cost effective in residential care homes and tall apartment blocks. However, in his evidence to committee the BRE representative, Mr King, told us that the 2003-04 report provided insufficient information, that new research was imminent that would shed more light and look more favourably on residential sprinklers, and that he would send the new report to the committee.

On that basis, I was pleased to give my full support to what was then a unanimous committee report. However, because the report referred to was not provided subsequently, we contacted the Building Research Establishment directly, which advised us this week that the cost-benefit analyses that it carries out compared the total cost of sprinklers against the ‘value’ of all lives potentially saved, injuries prevented and property damage reduced, and that those calculations are therefore dependent on the cost of sprinklers, annual maintenance costs,

dystiolaeth a ddarparwyd, bydd angen rhoi sylw i nifer o faterion yn ystod cam y Mesur, os yw'r Gorchymyn drafft am gynhyrchu deddfwriaeth effeithiol.

Yn ystod y ddadl wreiddiol am y Gorchymyn hwn, sylwais na fu neb farw erioed yn y DU o ganlyniad i dân mewn adeilad domestig lle mae system chwistrellu ym mhob rhan ohono, ac mae'r pwynt hwnnw'n un darbwylol. Fodd bynnag, sylwais hefyd fod angen i asiantaethau rannu gwybodaeth yn well, fel y gellir targedu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed. Yr oedd hynny'n dilyn trafodaethau gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar ôl cael gwybod am 10 marwolaeth o ganlyniad i danau yng Nghymru dros gyfnod o flwyddyn, sy'n ffigur eithriadol o uchel. Datgelodd y trafodaethau fod saith o'r marwolaethau hynny'n ymwneud â phobl yr oedd asiantaethau eraill eisoes yn gwybod eu bod mewn grwpiau risg uchel.

Cyfeiriais hefyd at ymchwil gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu i effeithiolrwydd systemau chwistrellu mewn eiddo preswyl. Darganfu'r adroddiad hwn ar gyfer 2003-04, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU, nad oedd systemau chwistrellu'n gosteffeithiol ond mewn cartrefi gofal preswyl a blociau uchel o fflatiau. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth i'r pwylgor, dywedodd cynrychiolydd y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Mr King, wrthym fod adroddiad 2003-04 yn darparu gwybodaeth annigonol, bod ymchwil newydd ar ddod a fyddai'n rhoi mwy o oleuni ar systemau chwistrellu mewn eiddo preswyl ac yn edrych yn fwy ffafriol arnynt, ac y byddai'n anfon yr adroddiad newydd at y pwylgor.

Ar y sail honno, yr oeddwn yn falch rhoi fy nghefnogaeth lawn i adroddiad a oedd, felly, yn adroddiad pwylgor unfrydol. Fodd bynnag, gan na ddarparwyd yr adroddiad y cyfeiriwyd ato, cysylltodd y pwylgor â'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn uniongyrchol, a dywedodd wrthym yr wythnos hon fod y dadansoddiadau cost a budd a gynhelir ganddo yn cymharu cyfanswm cost systemau chwistrellu yn erbyn ‘gwerth’ yr holl fywydau a oedd wedi'u hachub o bosib, yr anafiadau a oedd wedi'u hatal a'r difrod a oedd wedi'i leihau i

the number of fires, the number of lives lost in fires and injuries sustained. However, in England, those calculations have shown that only a few categories of building sites show a positive overall benefit from sprinklers, although those calculations necessarily cannot include social factors such as personal loss or loss to a community.

As we heard in committee, new housing stock today is old housing stock tomorrow and, as North Wales Fire and Rescue Service said, this draft LCO is not going to dramatically reduce deaths in homes overnight—it would take a generation. However, the Welsh Local Government Association highlighted cost implications for social housing, as there is only a certain pot of money in the social housing grant, and it raised questions around how to regulate private homes, which it felt would require a full impact assessment.

It also highlighted the need to examine pilot properties so that all interested parties could be made aware of the costs and implications. Speaking on behalf of housing associations, Community Housing Cymru stated that it would not have put ‘death by fire’ at the top of a list of priorities in relation to causes of deaths in domestic settings, adding that one element of evidence that it could not see was the age of properties in which fire deaths occurred. It stated that issues about installing sprinklers in social housing went wider than costs, highlighting the need to also consider the annual programme of maintenance, the backlog of housing stock, the age of the properties in which fire deaths occur and whether they comply with current building regulations. It also asked whether this was a prudent use of resources when it was having to prioritise limited funding on meeting the Welsh quality housing standard. It concluded that

eiddo, a bod y cyfrifiadau hynny, felly, yn dibynnu ar gost systemau chwistrellu, costau cynnal a chadw blynnyddol, nifer y tanau, nifer y bywydau a gollwyd mewn tanau, a’r anafiaidau a gafwyd. Fodd bynnag, yn Lloegr, mae’r cyfrifiadau hynny wedi dangos mai ychydig o gategorïau’n unig o safleoedd adeiladu sy’n dangos budd cyffredinol cadarnhaol o gael systemau chwistrellu, ond na all y cyfrifiadau hynny o reidrwydd gynnwys ffactorau cymdeithasol megis colled bersonol neu golled i gymuned.

Fel y clywsom yn y pwylgor, mae stoc tai newydd heddiw yn hen stoc tai yfory, ac fel y dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, nid yw’r LCOriaethol drafft hwn yn mynd i leihau marwolaethau’n ddramatig mewn cartrefi dros nos—byddai’n cymryd cenhedlaeth gyfan. Fodd bynnag, tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw at y goblygiadau o ran cost ar gyfer tai cymdeithasol, gan mai swm penodol o arian sydd yn y grant tai cymdeithasol. Cododd gwestiynau hefyd ynglŷn â sut i reoleiddio cartrefi preifat, a theimlai y byddai hynny’n gofyn am asesiad effaith llawn.

Yn ogystal, tynnodd sylw at yr angen i archwilio eiddo peilot, fel y gellid sicrhau bod pawb sy’n ymwneud â’r mater yn ymwybodol o’r costau a’r goblygiadau. Wrth siarad ar ran cymdeithasau tai, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru na fyddai wedi rhoi ‘marwolaeth oherwydd Tân’ ar frig rhestr o flaenoriaethau’n ymwneud ag achosion marwolaethau mewn lleoliadau domestig, ac ychwanegodd mai un elfen o dystiolaeth na allai ei gweld oedd oedran yr eiddo lle’r oedd marwolaethau o ganlyniad i danau’n digwydd. Dywedodd fod y problemau sy’n ymwneud â gosod systemau chwistrellu mewn tai cymdeithasol yn ehangach na chostau’n unig, a thynnodd sylw at yr angen hefyd i ystyried y rhaglen flynyddol o waith cynnal a chadw, y stoc tai sy’n aros i gael sylw, oedran yr eiddo lle mae marwolaethau o ganlyniad i danau’n digwydd, a ph’ un a ydynt yn cydymffurfio â’r rheoliadau adeiladu presennol. Gofynnodd hefyd a oedd gosod systemau chwistrellu’n ffordd o ddefnyddio adnoddau’n ofalus, pan oedd yn gorfol blaenoriaethu arian cyfyngedig i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Daeth i’r casgliad

'without evaluation of pilot projects, it was difficult to draw conclusions.'

It was not that convinced that the installation of sprinklers in new builds would bring the consequences looked for. It suspected that most fire deaths were in homes of multiple occupation and older properties and, therefore, highlighted the need to evaluate the evidence to ensure that the investment made had the biggest impact on deaths in domestic settings.

As the committee report states:

'We are content with the scope of the proposed Order as drafted, but wish to put on record our desire that future Measures be founded on a solid evidence base and take account of the evidence we have received in relation to the scope of the proposed Order.'

Janet Ryder: I am pleased to be able to support this draft LCO today; I supported the proposed LCO from the very beginning, when it was first mooted. It is something that we need to do. I am slightly disappointed that we are still looking at this in terms of cost, because it is something that we should just do. You could say that you cannot fire-proof a house or flat against the actions of those who live in that house or flat. For example, if you are going to have too much to drink, put the chip fan or oven on because you want something to eat, and then fall asleep, it is hard to fire-proof against that. However, what we can do is ensure that the places in which people live are as safe as possible. This draft LCO talks about new measures and new build, so we have the opportunity to build in that safety aspect for new build. I cannot see why that should attract any condemnation or criticism; it should just happen, quite frankly.

Like many other Members in the Chamber, I have talked a lot about this and the benefits

ei bod yn anodd dod i gasgliadau heb werthuso prosiectau peilot.

Nid oedd wedi'i argyhoeddi'n llawn y byddai gosod systemau chwistrellu mewn adeiladau newydd yn arwain at y canlyniadau a geisir. Yr oedd yn amau bod mwyafrif y marwolaethau o ganlyniad i danau'n digwydd mewn tai amlfeddiannaeth ac eiddo hŷn, a thynnodd sylw, felly, at yr angen i werthuso'r dystiolaeth i sicrhau bod y buddsoddiad a wneir yn effeithio fwyaf ar farwolaethau mewn lleoliadau domestig.

Fel y dywed adroddiad y pwylgor:

'Yr ydym yn fodlon gyda chwmpas y Gorchymyn arfaethdig fel y drafftiwyd ef, ond dymunwn gofnodi ein dymuniad bod Mesurau yn y dyfodol yn cael eu seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn ystyried y dystiolaeth a dderbynwyd mewn perthynas â chwmpas y Gorchymyn arfaethdig.'

Janet Ryder: Yr wyf yn falch o allu cefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn heddiw; cefnogais y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethdig o'r dechrau'n deg, pan gafodd ei grybwyl am y tro cyntaf. Mae'n rhywbeth y mae angen inni ei wneud. Yr wyf braidd yn siomedig ein bod yn parhau i edrych ar y mater yn nhermau cost, gan ei fod yn rhywbeth y dylem ei wneud doed a ddelo. Gallech ddweud nad oes modd diogelu tŷ neu fflat rhag gweithredoedd y sawl sy'n byw yno, a allai achosi Tân. Er enghraift, os bydd rhytwyn yn yfed gormod, yn rhoi'r badell sglodion neu'r popty ymlaen oherwydd bod arno eisiau rhywbeth i'w fwyta, ac yna'n mynd i gysgu, mae'n anodd diogelu'r eiddo hwnnw rhag Tân. Fodd bynnag, yr hyn y gallwn ei wneud yw sicrhau bod ble mae pobl yn byw mor ddiogel ag sy'n bosibl. Mae'r LCO drafft hwn yn sôn am fesurau newydd ac adeiladau newydd, felly, mae gennym gyfle i ymgorffori'r agwedd honno ar ddiogelwch mewn adeiladau newydd. Ni allaf weld pam y dylai hynny ennyn condemniad neu feirniadaeth; dylai ddigwydd doed a ddelo, a bod yn onest.

Fel nifer o Aelodau eraill yn y Siambwr, yr wyf wedi siarad llawer am hyn a'r manteision a

that it will bring, particularly to the north Wales fire service. We should just go ahead with it. As a member of the committee, I was concerned that evidence from some of the groups stated that fire is not the major cause of deaths in homes. I agree that it is not, because falling, for example, causes many deaths. However, it is hard to proof a home against someone falling downstairs or falling over in it.

4.00 p.m.

This is an action that we can take that will make that home as safe as possible. I am very pleased to support it. However, it is worth noting that the people who are probably most at risk are those who live in HMOs. They are the ones that we need to look at. Any new build in that area needs to have this system fitted. I know that the draft LCO originally looked at extensions. Having a sprinkler in the extension is great, but it will not retrospectively fit the sprinkler system in the old part of the building. As has been said, a lot of the stock that we have in Wales is old stock. Therefore, although we are talking only about new build, it is important that this goes through.

It is interesting that, back in 2006, when we were talking about the licensing of HMOs, I proposed an amendment in the Chamber that sought to ensure that new build HMOs at that time, as part of the licensing system, had to have sprinklers fitted. It was unfortunate—and I understand the politics behind it—that the Labour Party and the Liberal Democrats voted against it at that point. Ann spoke in favour of it, but she still voted against it, although I know the reasons why she did that. However, we could have had this under the HMO licensing system then.

I am pleased that this is coming forward now. Like Ann, I would not like to see this debate being taken over by a debate about the LCO system. I will support the amendment because, while it is not the substance of what this is about, as this is about supporting

ddaw yn ei sgil, yn enwedig i wasanaeth tân y gogledd. Dylem fwrw ymlaen ag ef. Fel aelod o'r pwylgor, yr oeddwn yn pryderu bod dystiolaeth gan rai o'r grwpiau'n dweud nad tân yw prif achos marwolaethau mewn cartrefi. Cytunaf â hynny, gan fod syrthio, er enghraffft, yn achosi nifer o farwolaethau. Fodd bynnag, mae'n anodd sicrhau nad oes modd i bobl syrthio i lawr y grisiau neu gael codwm yn eu cartrefi.

Mae hwn yn gam gweithredu y gallwn ei gymryd ac a fydd yn sicrhau bod y cartref hwnnw mor ddiogel ag sy'n bosibl. Yr wyf yn falch iawn ei gefnogi. Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai'r bobl sydd fwyaf mewn perygl, mae'n debyg, yw'r rheini sy'n byw mewn tai amlfeddiannaeth. Arnynt hwy y mae angen inni edrych. Mae angen gosod y system hon mewn unrhyw adeilad newydd a godir yn y maes hwnnw. Gwn fod yr LCO drafft wedi edrych yn wreiddiol ar estyniadau. Mae cael system chwistrellu yn yr estyniad yn wych, ond ni fydd system chwistrellu'n cael ei gosod yn hen ran yr adeilad. Fel y dywedwyd, hen stoc yw llawer o'n stoc ni yng Nghymru. Felly, er mai am adeiladau newydd yn unig yr ydym yn siarad, mae'n bwysig i hwn gael ei dderbyn.

Yn ôl yn 2006, pan oeddem yn sôn am drwyddedu tai amlfeddiannaeth, mae'n ddiddorol nodi imi gynnig gwelliant yn y Siambr, a geisiai sicrhau ei bod yn rhaid gosod systemau chwistrellu, fel rhan o'r system drwyddedu, mewn tai amlfeddiannaeth newydd a gâi eu hadeiladu ar y pryd. Yr oedd yn anffodus—a gallaf ddeall y wleidyddiaeth a oedd yn sail i hynny—i'r Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol bleidleisio yn erbyn y gwelliant ar y pryd. Siaradodd Ann o'i blaid, ond pleidleisiodd yn ei erbyn, ond gwn pam y gwnaeth hynny. Fodd bynnag, gallem fod wedi cynnwys hyn yn y system trwyddedu tai amlfeddiannaeth bryd hynny.

Yr wyf yn falch bod hyn yn cael ei gyflwyno'n awr. Fel Ann, ni fyddwn yn hoffi gweld dadl am y system LCO yn cymryd y ddadl hon drosodd. Cefnogaf y gwelliant, oherwydd er nad dyna yw sylwedd y mater dan sylw, gan fod y mater yn ymwneud â

people, the LCO system, as I observe it, is not working. It is not working as quickly as it should be. In that respect, I intend to support the amendment that has been proposed. However, whether that amendment stands or not, I hope that you get full support for this draft LCO, because it is something that will make a difference to people's lives. Despite the criticisms that came forward while we were taking evidence, it is something that we have to do and which we should do now.

chynorthwyo pobl, nid yw'r system LCO, o'm safbwyt i, yn gweithio. Nid yw'n gweithio mor gyflym ag y dylai. Yn hynny o beth, bwriadaf gefnogi'r gwelliant sydd wedi'i gynnig. Fodd bynnag, p'un a fydd y gwelliant hwnnw'n sefyll ai peidio, gobeithio y cewch gefnogaeth lawn i'r LCO drafft hwn, oherwydd mae'n rhywbeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Er y beirniadaethau a gyflwynwyd tra oeddem yn cymryd tystiolaeth, mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud ac y dylem ei wneud yn awr.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I will begin by, once again, confirming Assembly Government support for the draft Order. I commend Ann's determination, which has brought us here today. It is important to reflect a little on the history of this application in saying why we strongly oppose the amendment in the name of Peter Black.

The LCO part of this process was conducted phenomenally quickly. It went through the Westminster process in a period of five weeks—through the Welsh Affairs Committee to an agreement between the Government in Wales and Government Ministers there. The LCO part of this process, in the early days of the Assembly acquiring its new powers in 2007, went forward as a normal process. If you just take the LCO elements of this, it is hard to see what Peter Black's amendment is saying in the context of the specific outcome that Ann has been trying to achieve ever since she became an Assembly Member. In supporting Ann in her bid to introduce sprinklers, the Government looked at what we hoped at the time was the speediest and most appropriate way of achieving her desired outcome, and use the transfer of building regulations powers, which would enable us to address fire safety through that route.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Dechreuaaf drwy gadarnhau unwaith eto gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i'r Gorchymyn drafft. Yr wyf yn cymeradwyo penderfyniad Ann, sydd wedi dod â ni i'r fan hon heddiw. Mae'n bwysig myfyrio rhywfaint yngylch hanes y cais hwn, wrth ddweud pam yr ydym yn gwrthwynebu'n gryf y gwelliant yn enw Peter Black.

We will be supporting the Conservative motion because we share the Conservatives' concern in general about the economy in Wales, and in particular about the impact of the closure of large firms. As our amendment 2 emphasises, the knock-on effect on smaller firms in the supply chain is also important, and it cannot be overlooked. The headline figure with the closure of Bosch is the loss of 900 jobs, but with possibly thousands more in the supply chain. We do not know yet, but the Deputy First Minister is, as I understand, in the process of finding that out. There are major impacts on largely small business in Wales whenever a large company decides to withdraw from the country.

We also share the Conservative concern about business rates, which are often the third biggest expense for businesses. A cut in business rates can have a massive positive impact on the viability of a business. A

Jenny Randerson: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Peter Black. Gwelliant 2: ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiweddu y cynnig:

cymryd camau i ddiogelu'r gadwyn gyflenwi rhag effeithiau canlyniadol niweidiol yn sgil cau cwmniāu mawr.

Gwelliant 4: ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiweddu y cynnig:

cydnabod y rhan hanfodol y mae addysg bellach ac uwch yn ei chwarae mewn datblygu sgiliau yng Nghymru drwy gyllido'r sector hwn yn well.

Mae'n bleser gennyl gynnig gwelliannau 2 a 4. Nid wyf yn cynnig gwelliant 3, foddy bynnag, oherwydd cefais ateb cadarnhaol gan y Dirprwy Brif Weinidog wrth iddo ymateb i'm hawgrym y dylai ef a'i swyddogion ymchwilio i'r posiblwydd o sefydlu cyfnewidfa stoc Gymreig. Dengys hynny fod y Dirprwy Brif Weinidog, yn y cyswllt hwn, wedi gwrando ar yr hyn a ddywedodd y gwrthbleidiau. Gobeithiaf y bydd yn parhau i wrando y prynhawn yma. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Brif Weinidog am yr ymateb cadarnhaol a roddodd; hoffwn ddatgan hynny'n glir y prynhawn yma.

Byddwn yn cefnogi cynnig y Ceidwadwyr oherwydd yr ydym ni, fel y Ceidwadwyr, yn pryderu'n gyffredinol am yr economi yng Nghymru, ac yn benodol am effaith cau cwmniāu mawr. Fel y pwysleisia gwelliant 2 a gynigir gennym, mae'r effaith ganlyniadol ar gwmniāu llai yn y gadwyn gyflenwi'n bwysig hefyd, ac ni ellir ei hanwybyddu. Y prif ffigur a glywir yn sgil cau Bosch yw y bydd 900 o swyddi'n cael eu colli, ond mae'n bosibl y bydd miloedd yn rhagor yn cael eu colli yn y gadwyn gyflenwi. Ni wyddwn eto, ond caf ar ddeall fod y Dirprwy Brif Weinidog wrthi'n ceisio darganfod y ffigurau cywir. Bydd busnesau bach Cymru yn bennaf yn dioddef yn ddifrifol pryd bynnag y bydd cwmni mawr yn penderfynu gadael y wlad.

Yr ydym ni, fel y Ceidwadwyr, yn pryderu am ardethi busnes, sef y gost fwyaf ond dwy i fusnesau'n aml. Gall lleihau ardethi busnes effeithio'n gadarnhaol iawn ar hyfywedd busnes. Mae lleihau ardethi busnes yn un o'r

reduction in business rates is one of the most effective ways of supporting businesses, and it would have another advantage in cutting down on bureaucracy. It has been an eventful year for business rates and we have had the revaluation, which, in England, did not go ahead because of the severe state of the economy. It will have an impact here in Wales. We put forward our own proposals, as Welsh Liberal Democrats, during the budget round for an extended rate relief scheme for small businesses, in the hope of lessening the effect of this revaluation. The Government voted down our amendment on that point, but I welcome the fact that it has extended the scheme. I ask the Deputy First Minister to give us some assurances that that extension will be continued into following years, unlike the changes to the relief on empty properties, which was set for one year only. Businesses need stability now more than ever.

4.30 p.m.

Our amendment 4 refers to one of the Government's flagship schemes, 'Skills That Work for Wales'. That strategy is supposedly all about investment and improvement in skills, but I fear that the Government's actions have not supported it. Year after year, we have seen underinvestment in education and skills, with a growing gap between England and Wales. Last year, we had the proposed 7 per cent cut in post-16 education, which, fortunately, the growing outcry reversed. This year, we have seen a further 5 per cent cut, and so far there is no sign that the Government intends to reverse its policy.

The new First Minister has said that he will put education at the heart of his Government. He wants to increase education funding by 1 per cent more each year than the annual block grant from the Treasury increases. It is now time for the new First Minister to ensure that he has not just been mouthing empty words, but that he follows that up with action, with a supplementary budget.

ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi busnesau, a byddai'n fanteisiol hefyd o ran lleihau biwrocratiaeth. Bu'n flwyddyn brysur o ran ardrethi busnes, oherwydd cynhaliwyd yr ymarfer ailbrisio, nad aeth rhagddo yn Lloegr oherwydd cyflwr enbyd yr economi. Bydd effaith yr ymarfer i'w theimlo yma yng Nghymru. Yn ystod cylch y gyllideb, cyflwynasom ni, Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, ein cynigion ein hunain ar gyfer ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, gan obeithio lleihau effaith yr ymarfer ailbrisio hwn. Pleidleisiodd y Llywodraeth yn erbyn ein gwelliant ynghylch y mater hwnnw, ond croesawaf y ffaith ei bod wedi ymestyn y cynllun. Gofynnaf i'r Dirprwy Brif Weinidog roi rhywfaint o sicrwydd inni y bydd y cynllun yn cael ei ymestyn yn ystod y blynnyddoedd a fydd yn dilyn, yn wahanol i'r newidiadau yn y rhyddhad ar gyfer eiddo gwag, a bennwyd am flwyddyn yn unig. Mae ar fusnesau angen sefydlogrwydd yn awr yn fwy nag erioed.

Mae gwelliant 4 a gynigir gennym yn cyfeirio at un o gynlluniau blaenllaw'r Llywodraeth, sef 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Prif fyrdwn y strategaeth honno, yn ôl y sôn, yw buddsoddi mewn sgiliau a'u gwella, ond ofnaf nad yw gweithredoedd y Llywodraeth wedi ategu hynny. O'r naill flwyddyn i'r llall, yr ydym wedi gweld tanfuddsoddi mewn addysg a sgiliau, a bwlch cynyddol rhwng Cymru a Lloegr. Y llynedd, cawsom y gostyngiad arfaethedig o 7 y cant mewn addysg ôl-16, ond yn ffodus, llwyddodd y brotest a dyfodd i wrthdro'i'r gostyngiad hwnnw. Eleni, gwelsom ostyngiad pellach o 5 y cant, a hyd yma ni welwyd arwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu gwrthdroi ei pholisi.

Mae'r Prif Weinidog newydd wedi dweud y bydd yn gosod addysg yng nghanol ei Lywodraeth. Mae am gynyddu'r cyllid ar gyfer addysg 1 y cant yn fwy bob blwyddyn na'r cynnydd yn y grant bloc blynnyddol gan y Trysorlys. Erbyn hyn, mae'n bryd i'r Prif Weinidog newydd sicrhau nad yw wedi bod yn llefaru geiriau gwag, a sicrhau ei fod yn gweithredu ar ôl siarad, gyda chyllideb atodol.

Finally, if we are to lead the way on the economy in the future and not limp along behind as we have done for far too many years in Wales, we must create a climate in which research can flourish hand in hand with locally developed businesses. We need an open innovative approach. We need to increase Government investment in research. We need to match UK Government investment in medical research and development, for example. It is that kind of investment in research, encouraging researchers to link in with businesses and to develop locally Welsh-grown businesses that will create a win-win situation and a much more prosperous future for us here in Wales.

Mark Isherwood: After the longest and deepest recession since records began, yesterday's news that we have finally limped out of recession is to be welcomed, although the 0.1 per cent growth is well below the level forecast. Gordon Brown said that we were the best-placed country to deal with the global downturn, but the UK was the last major G7 economy to be in recession.

Last year, output suffered the biggest drop since 1949 and Welsh manufacturing had shrunk by 10 per cent during the recession. North Wales has been hit by job losses ranging from Corus to Kingspan, from Anglesey Aluminium to Air Products. Experts warn that likely public sector job cuts may still deliver a second round of unemployment.

Unemployment threatens a generation and it is because of a failure by the Welsh Government—Labour and Plaid Cymru—to get to grips with the recession that Wales has the highest unemployment rates of any UK nation. An analysis of the latest labour market statistics in November 2009, published last week, provides cold comfort for this Welsh Government. I welcome the 6,000 increase in employment over the quarter, but I note that that follows two quarters in which almost half of all the jobs lost in the United Kingdom were in Wales.

Yn olaf, os ydym am arwain y ffordd ar yr economi yn y dyfodol, a pheidio â llusgo ein traed y tu ôl i bawb arall, fel yr ydym wedi ei wneud am ormod o flynyddoedd o lawer yng Nghymru, rhaid inni greu hinsawdd lle gall ymchwil ffynnu law yn llaw â busnesau a ddatblygir yn lleol. Mae arnom angen dull gweithredu arloesol ac agored. Mae angen inni gynyddu buddsoddiad y Llywodraeth mewn ymchwil. Mae angen inni sicrhau bod ein buddsoddiad ni mewn ymchwil a datblygu meddygol, er enghraifft, yn cyfateb i fuddsoddiad Llywodraeth y DU. Dyna'r math o fuddsoddiad mewn ymchwil, gan annog ymchwilwyr i ymgysylltu â busnesau a datblygu busnesau Cymreig lleol, a fydd yn creu sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill, a dyfodol tipyn mwy llewyrchus inni yma yng Nghymru.

Mark Isherwood: Ar ôl y dirwasgiad hwyaf a'r dwysaf a gofnodwyd erioed, rhaid croesawu newyddion ddoe, sef ein bod o'r diwedd wedi camu'n gloff allan o'r dirwasgiad, er bod y cynnydd o 0.1 y cant yn is o lawer na'r lefel a ragwelwyd. Dywedodd Gordon Brown mai ein gwlad ni oedd yn y sefyllfa orau i ymdopi â'r cwmp byd-eang, ond y DU oedd yr economi olaf o blith economiau mawr y G7 i ddod allan o'r dirwasgiad.

Y llynedd, gwelwyd y cwmp mwyaf mewn allgynnrych er 1949, a chrebachodd y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru 10 y cant yn ystod y dirwasgiad. Mae'r gogledd wedi colli llawer o swyddi, o Corus i Kingspan, o Alwminiwm Môn i Air Products. Rhybuddia'r arbenigwyr y gallai toriadau tebygol mewn swyddi yn y sector cyhoeddus arwain o hyd at ail gylch o ddiweithdra.

Mae diweithdra'n bygwth cenhedlaeth gyfan, a methiant Llywodraeth Cymru—y Blaid Lafur a Plaid Cymru—i fynd i'r afael â'r dirwasgiad sydd i gyfrif mai yng Nghymru y mae'r cyfraddau diweithdra uchaf yn y DU. Nid yw dadansoddiad o'r ystadegau diweddaraf am y farchnad lafur ym mis Tachwedd 2009, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, ond cysur Job i Lywodraeth bresennol Cymru. Croesawaf y cynnydd o 6,000 yn nifer y bobl a oedd yn gyflogedig yn ystod y chwarter, ond sylwaf fod hynny'n dilyn dau chwarter lle cafodd bron i hanner yr

Further, economic inactivity in Wales, already the highest in the UK, grew yet again, taking the combined number of working-age people in Wales not in work to 554,000. That is one in three—a truly shocking figure.

Unemployment is up by 21,000, employment is down by 33,000, and economic inactivity is up by 7,000. The hard truth is that the combination of 13 years of Labour Government in London and 11 years of Labour-led Government in Cardiff has left us with record levels of economic inactivity, and youth unemployment at the highest level since records began.

A Prince's Trust report last month has warned that a lost generation of unemployed young people in Wales faces decades of poor health and stunted life chances. Prosperity in Wales, measured by relative GVA has fallen to 74.3 per cent of the UK average—the lowest of the 12 UK nations or regions. An Ernst and Young study recently concluded that the UK economy faces a decade of painful readjustment as it refocuses from debt-led consumer spending to increased exports. The governor of the Bank of England, Mervyn King, has renewed his warning to the UK Government that it must cut the public deficit.

He said that a key factor in raising the national saving rate is the elimination, over time, of the structural deficit in the public finances. He told the UK Chancellor that he must specify sharp spending cuts or risk a damaging backlash from the markets. After all, politicians should remember that spending must be funded. Credit agencies have warned that the Treasury's plan to halve the deficit in four years will be too slow.

Lord Mandelson—no friend to my party—has warned that we face a phase of rapid

holl swyddi a gollwyd yn y Deyrnas Unedig eu colli yng Nghymru. At hynny, gwelwyd anweithgarwch economaidd Cymru, yr uchaf eisoes o blith holl wledydd y DU, yn tyfu unwaith yn rhagor, a gwelwyd bod 554,000 o bobl o oed gweithio yng Nghymru yn ddiwaith. Mae hynny'n cyfateb i un o bob tri—sy'n ffigur holol syfrdanol.

Mae diweithdra wedi codi 21,000, mae'r nifer sy'n gyflogedig wedi gostwng 33,000, a nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar wedi codi 7,000. Y gwir plaen yw bod cyfuniad o 13 blynedd o Lywodraeth Lafur yn Llundain a 11 mlynedd o Lywodraeth dan arweiniad y Blaid Lafur yng Nghaerdydd wedi ein gadael gyda lefelau o anweithgarwch economaidd na welwyd eu tebyg o'r blaen, a diweithdra ymhllith pobl ifanc ar y lefel uchaf a gofnodwyd erioed.

Fis diwethaf, rhybuddiodd adroddiad gan Ymddiriedolaeth y Tywysog fod cenhedlaeth goll o bobl ifanc ddi-waith yng Nghymru yn wynebu degawdau o afiechyd a chyfleoedd cyfyngedig mewn bywyd. Mae ffyniant yng Nghymru, a fesurir gan Werth Ychwanegol Crynswth cymharol, wedi disgyn i 74.3 y cant o gyfartaledd y DU—y ganran isaf yn 12 gwlod neu ranbarth y DU. Yn ddiweddar, daeth astudiaeth gan Ernst and Young i'r casgliad bod economi'r DU yn wynebu degawd o ailaddasu poenus wrth iddi ailgyfeirio'i sylw o wariant defnyddwyr, a arweinir gan ddyled, at gynnydd mewn allforion. Mae llywodraethwr Banc Lloegr, Mervyn King, wedi ailadrodd ei rybudd i Lywodraeth y DU, sef bod yn rhaid iddi leihau'r ddyled gyhoeddus.

Dyweddodd fod dileu'r diffyg strwythurol mewn arian cyhoeddus, dros amser, yn ffactor allweddol wrth godi'r gyfradd gynilo genedlaethol. Dywedodd wrth Ganghellor y DU ei bod yn rhaid iddo osod toriadau llym mewn gwariant neu wynebu perygl o adlach andwyol gan y marchnadoedd. Wedi'r cyfan, dylai gwleidyddion gofio'i bod yn rhaid i wariant gael ei ariannu. Mae asiantaethau credyd wedi rhybuddio y bydd cynllun y Trysorlys i haneru'r ddyled ymhen pedair blynedd yn rhy araf.

Mae'r Arglwydd Mandelson—nad yw'n un o gyfeillion fy mhlaid—wedi rhybuddio ein

relative economic decline if the Government fails to cut spending. Instead of responding to the hard facts and debating the real policies proposed to address them, no contribution from the Plaid Cymru and Labour benches is complete without the usual scaremongering about what a UK Conservative Government would do. Only last week, Jane Hutt said that David Cameron would cut the number of health visitors under Sure Start, when he actually stated that we would provide 4,200 more. Thankfully, the public is no longer taken in by scaremongering and party political point-scoring nonsense.

As part of a package of measures designed to get Britain working, the UK Conservatives have published plans for a work programme—a comprehensive welfare reform programme designed to tackle Labour's jobs crisis and break the cycle of long-term benefit dependency that has grown under this Government. With work-pairing places, additional apprenticeships, training places and an expansion of the Government's young apprenticeships scheme, this will consolidate Labour's numerous and piecemeal programmes into one single back-to-work programme for everyone on back-to-work benefits, tailoring return-to-work support to an individual's need, rather than the benefits that he or she is claiming.

Our plans will also reinvigorate self-employment and entrepreneurship as a route back to work. At its peak, the Conservative enterprise allowance scheme of the 1980s was helping more than 100,000 people a year into self-employment. Under Labour's New Deal self-employment option, that fell off to just 5,000 people per year. At a devolved level, we propose the urgent measures included in this motion, which Welsh business has called for. Above all, we must improve contact with the UK Government, and especially the Department for Business,

bod yn wynebu cyfnod o ddirywiad economaidd cymharol gyflym os bydd y Llywodraeth yn methu â thorri ar wariant. Yn hytrach nag ymateb i'r ffeithiau moel, a dadlau am y polisiau go iawn a gynigir i fynd i'r afael â hwy, nid oes yr un cyfraniad yn gyflawn gan feinciau Plaid Cymru a'r Blaid Lafur heb y bwganod arferol a godir ynglŷn â'r hyn y byddai Llywodraeth Geidwadol yn y DU yn ei wneud. Yr wythnos diwethaf hyd yn oed, dywedodd Jane Hutt y byddai David Cameron yn lleihau nifer yr ymwelwyr iechyd dan gynllun Cychwyn Cadarn, ond yr hyn a ddywedodd David Cameron mewn gwirionedd oedd y byddem yn darparu 4,200 yn rhagor. Diolch i'r drefn, nid yw'r cyhoedd bellach yn cael eu twyllo gan y bwganod a godir a'r nonsens a siaredir wrth i bleidau geisio sgorio pwyntiau gwleidyddol.

Fel rhan o becyn o fesurau y bwriedir iddynt gael pobl Prydain i aildechrau gweithio, mae Ceidwadwyr y DU wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer rhaglen waith—rhaglen gynhwysfawr i ddiwygio lles, y bwriedir iddi fynd i'r afael ag argyfwng swyddi'r Blaid Lafur a thorri'r patrwm sydd wedi tyfu dan y Llywodraeth hon, lle mae pobl yn dibynnu am amser ar fudd-daliadau. Drwy leoedd gwaith y gellir eu paru ag unigolion, prentisiaethau ychwanegol, lleoedd hyfforddi, a chamau i ymestyn cynllun prentisiaethau i bobl ifanc y Llywodraeth hon, bydd y rhaglen dan sylw'n cyfuno rhagleni niferus a thameidiog y Blaid Lafur yn un rhaglen dychwelyd i'r gwaith ar gyfer pawb sy'n cael budd-daliadau dychwelyd i'r gwaith, ac yn teiwrw cymorth dychwelyd i'r gwaith er mwyn diwallu angen unigolyn, yn hytrach na'r budd-daliadau y mae'n eu hawlio.

Yn ogystal, bydd ein cynlluniau'n adfywio hunangyflogaeth ac entrepreneurship fel ffordd i ddychwelyd i'r gwaith. Pan oedd yn ei anterth, yr oedd cynllun Iwfans mentro'r Ceidwadwyr yn yr 1980au yn helpu dros 100,000 o bobl y flwyddyn i fod yn hunangyflogedig. Dan opsiwn hunangyflogaeth y Fargen Newydd gan y Blaid Lafur, gostyngodd y ffigur hwnnw i ddim ond 5,000 o bobl y flwyddyn. Ar lefel ddatganoledig, cynigiwn y mesurau brys sydd yn y cynnig hwn ac y mae'r byd busnes yng Nghymru wedi galw amdanynt. Yn anad dim,

Innovation and Skills, whichever party is in power after May.

rhaid inni wella'r cyswllt â Llywodraeth y DU, yn enwedig yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, pa blaid bynnag a fydd mewn grym ar ôl mis Mai.

Jeff Cuthbert: I welcome the opportunity to contribute to this important debate today. I am sure that I speak for us all when I say that I welcome the fact that Britain is now formally out of recession. I acknowledge that it is by the smallest possible margin; nevertheless, surely that is good news. We are not complacent, of course, and would never suggest that the picture is rosy. We have only to look at last week's devastating news from the Bosch plant near Llantrisant to see evidence of that. While the champagne corks may be popping in the City again and the bond markets may be strengthening, the situation for many people on the ground is still precarious.

Jeff Cuthbert: Croesawaf y cyfle i gyfrannu i'r ddadl bwysig hon heddiw. Yr wyf yn siŵr fy mod yn siarad ar ran pawb yma wrth ddweud fy mod yn croesawu'r ffaith fod Prydain allan o'r dirwasgiad yn swyddogol erbyn hyn. Yr wyf yn cydnabod mai prin allan ohono yr ydym; ond siawns nad yw'n newyddion da er hynny. Nid ydym yn hunanfodlon, wrth gwrs, ac ni fyddem byth yn awgrymu bod y darlun yn un ffafriol. Nid oes ond rhaid edrych ar y newyddion trist a ddaeth yr wythnos diwethaf o safle Bosch ger Llantrisant i weld tystiolaeth o hynny. Er y gall y poteli siampêr fod yn cael eu hagor unwaith eto yn y Ddinas, a'r marchnadoedd bondiau'n cryfhau, mae'r sefyllfa i lawer o bobl ar lawr gwlad yn parhau'n ansefydlog iawn.

I welcome the news of the recent fall in unemployment figures across Wales—a trend that my constituency, Caerphilly, is testament to. There may well be more job losses to come, however, and so we cannot rest on our laurels.

Croesawaf y newyddion am y gostyngiad yn ddiweddar mewn ffigurau diweithdra ar draws Cymru—tuedd y gall fy etholaeth i, sef Caerffili, dystio iddi. Mae'n bosibl iawn y bydd rhagor o swyddi'n cael eu colli eto, fod bynnag, ac ni allwn laesu dwylo.

I want to quote briefly from the press release that ConstructionSkills issued today, because the construction industry has probably been hardest hit by this recession. It makes the point and demonstrates the seriousness of the situation that the construction industry faces. It says that

Hoffwn ddyfynnu'n fyr o ddatganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan ConstructionSkills heddiw, oherwydd mae'n debyg mai'r diwydiant adeiladu sydd wedi dioddef waethaf oherwydd y dirwasgiad hwn. Mae'n nodi ac yn dangos difrifoldeb y sefyllfa sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu. Dywed fod

'the prognosis for the UK construction industry in the short term is very severe with construction output expected to have contracted by around 13% in 2009.'

y prognosis ar gyfer diwydiant adeiladu'r DU yn y tymor byr yn ddisgrifol iawn, ac y disgwylir i allgynnrych adeiladu grebachu oddeutu 13% yn 2009.

In Wales, construction output is expected to have contracted by around 12 per cent in 2009, which is slightly below the UK average of 13 per cent.

Yng Nghymru, disgwylir y bydd allgynnrych adeiladu wedi crebachu oddeutu 12 y cant yn 2009, sydd ychydig islaw cyfartaledd y DU o 13 y cant. Yn ogystal, dywed ConstructionSkills

'A further, but marginal, decline is projected for 2010, but consistent recovery is not forecast until 2011, with a slow and steady return to moderate levels of growth as confidence returns to the market. Over the

y rhagwelir dirywiad pellach ond bach ar gyfer 2010, ac na ddisgwylir adferiad cyson tan 2011, a'r economi'n dychwelyd yn araf ac yn raddol i lefelau cymedrol o gynnydd wrth i'r farchnad adenill hyder. Dros y

whole of the 2010 to 2014 period construction output is expected to average 1.7% growth each year.'

In Wales, that is expected to average 2.5 per cent growth each year—higher than that UK average of 1.7 per cent and the fourth highest of the 12 regions and nations of the UK.

'In the construction industry so far, the private sector has borne the brunt of the recession, with the private housing sector suffering its second consecutive double digit decline in output in 2009.'

4.40 p.m.

However, the Welsh construction industry bucks that trend, and private housing is expected to have the highest annual growth at nearly 8 per cent. Wales is also expected to lead the way across the UK in the repair and maintenance sector, with an annual growth rate of 3.8 per cent between 2010 and 2014, which is well above the national average figure of just 0.4 per cent. That growth is predicted to come about primarily as a result of the Welsh housing quality standard scheme, which is also expected to help with the levels of recruits required to service the sector.

I admired David's call for a new manufacturing strategy and, Mark, I do not want to disappoint you on the scaremongering. However, there is no need to scaremonger because we can all remember what the Tories did when they were in power. Those of us whose memories are long enough will rightly regard the phrase 'Conservative manufacturing strategy' as an oxymoron. After all, their aforementioned economic policies decimated Welsh manufacturing in the 1980s and early 1990s. Last week, they criticised us for how we have handled the recent closure of the Bosch plant, yet it was the inward investment regime that it set up, coupled with lax employment rights and laws that allowed multinationals to set up shop here and then to leave on a whim, which sowed the long-term seeds of such a

cyfnod cyfan rhwng 2010 a 2014, disgwylier i allgynnrych adeiladu dyfu 1.7% ar gyfartaledd bob blwyddyn.

Yng Nghymru, disgwylier i hynny gyfateb i gynnydd o 2.5 y cant bob blwyddyn ar gyfartaledd—sy'n uwch na'r cyfartaledd o 1.7 y cant ar gyfer y DU, ac sy'n golygu mai ni fyddai â'r ganran uchaf ond tair yn 12 rhanbarth a gwlad y DU. Yn ogystal, dywed ConstructionSkills,

Yn y diwydiant adeiladu hyd yma, y sector preifat sydd wedi dioddef waethaf yn y dirwasgiad, a'r sector tai preifat yn dioddef gostyngiad ffigur dwbl mewn allgynnrych am yr ail flwyddyn yn olynol yn 2009.

Fodd bynnag, mae'r diwydiant adeiladu yng Nghymru yn mynd yn groes i'r duedd honno, a disgwylier i'r sector tai preifat ddangos y cynnydd blynyddol uchaf, sef bron i 8 y cant. Disgwylier hefyd i Gymru arwain y ffordd o ran y DU gyfan yn y sector atgyweirio a chynnal a chadw, gyda chynnydd blynyddol o 3.8 y cant rhwng 2010 a 2014, sydd ymhell uwchlawn'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 0.4 y cant yn unig. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwnnw'n digwydd yn bennaf o ganlyniad i gynllun safon ansawdd tai Cymru, y disgwylier iddo helpu hefyd gyda lefelau'r reciwtiaid y mae eu hangen i wasanaethu'r sector.

Yr oeddwn yn edmygu galwad David am strategaeth gweithgynhyrchu newydd, a Mark, nid wyf am eich siomi ynglŷn â'ch pwyt ar godi bwganod, ond nid oes angen codi bwganod, oherwydd gall pob un ohonom gofio'r hyn a wnaeth y Torïaid pan oeddent mewn grym. Bydd y rheini yn ein plith sydd â chof digon da'n ystyried yn hollol deg bod y geiriau 'strategaeth gweithgynhyrchu'r Ceidwadwyr' yn ocsimorion. Wedi'r cyfan, cafodd y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ei anrheithio'n llwyr yn ystod yr 1980au a dechrau'r 1990au gan y polisiau economaidd y soniwyd amdanynt eisoes. Yr wythnos diwethaf, cawsom ein beirniadu ganddynt am ein hymdriniaeth o'r newyddion diweddar am gau safle Bosch, ond y drefn fewnfuddsoddi a sefydlwyd gan y Torïaid, ynghyd â hawliau a

situation. Like shoulder pads and big perms, the return of dodgy supply-side economics is another 1980s comeback that we could certainly do without.

chyfreithiau cyflogaeth llac, a oedd yn caniatáu i gwmnïau rhyngwladol ymsefydlu yma ac ymadael wedyn pan fyddent yn dymuno, gan blannu hadau hirdymor sefyllfa o'r fath. Fel padiau ysgwyddau a gwalti cyrliog trwchus, gallem wneud y tro heb weld economeg amheus yr 1980au yn canolbwytio ar gyflenwi yn ailymddangos.

Mark Isherwood: Can you explain why Wales received a higher level of inward investment than any other UK nation or region in the 1990s—and the UK as a whole was second only to the US, internationally—but has now fallen to bottom place in respect of projects funded through inward investment? Is the reason that companies have been disinvesting in Wales not because of the Government that has been in power since then?

Mark Isherwood: A allwch egluro pam y cafodd Cymru lefel uwch o fewnfuddsoddi na'r un o wledydd neu ranbarthau eraill y DU yn yr 1990au—ac mai'r Unol Daleithiau yn unig oedd yn well na'r DU ar lefel ryngwladol—ond ei bod waethaf erbyn hyn o ran prosiectau a ariennir drwy fewnfuddsoddi? Onid y Llywodraeth a fu mewn grym ers hynny yw'r rheswm pam mae cwmnïau wedi bod yn dadfuddsoddi yng Nghymru?

Jeff Cuthbert: Mark, I am never quite sure what world you were living in during the 1980s and early 1990s, but it was not this one. If you go to my communities to talk to people there about what happened to manufacturing during that period, you will get a very rude response. Thankfully, the One Wales Government is committed to helping those affected by job losses, and it has introduced many innovative schemes, such as ProAct and ReAct, to ensure that companies and individuals facing the prospect of redundancy are not left to fend for themselves. I have said this many times in the Chamber, but I will say it again with no apology. Only by investing in our workforce's skill levels, possibly with assistance from European structural funds, can we prepare ourselves not only for our short-term recovery but for the long term and for the knowledge-intensive green jobs that Wales will need in the future.

Jeff Cuthbert: Mark, nid wyf byth yn siŵr ar ba blaned yr oeddech yn byw yn ystod yr 1980au a dechrau'r 1990au, ond nid y blaned hon ydoedd. Pe baech yn mynd i'm cymunedau i siarad â phobl yno am yr hyn a ddigwyddodd i weithgynhyrchu yn ystod y cyfnod hwnnw, byddech yn cael ymateb anweddus iawn. Diolch i'r drefn, mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi ymrwymo i helpu pobl sy'n dioddef oherwydd colli swyddi, ac mae wedi cyflwyno nifer o gynlluniau arloesol, megis ProAct a ReAct, i sierhau nad yw cwmnïau ac unigolion sy'n wynebu posiblirwydd diswyddo yn gorfol ymdopi ar eu pen eu hunain. Yr wyf wedi dweud hyn droeon yn y Siambwr, ond fe'i dywedaf eto heb ymddiheuro. Yr unig ffordd inni ymbaratoi, nid yn unig ar gyfer ein hadferiad byrdymor ond ar gyfer ein hadferiad hirdymor ac ar gyfer y swyddi gwyrdd dwys o ran gwybodaeth y bydd ar Gymru eu hangen yn y dyfodol, yw drwy fuddsoddi yn lefelau sgiliau ein gweithlu, o bosibl gyda chymorth cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

Angela Burns: I am also delighted to be taking part in this important debate. I wish to concentrate my contribution on two key areas. First, we call on the Welsh Assembly Government to set clear and monitored targets for the green jobs strategy and 'Skills That Work for Wales'. I called for all this and more in the debate on the green jobs strategy

Angela Burns: Yr wyf fi hefyd yn falch cael cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Yn fy nghyfraniad, hoffwn ganolbwytio ar ddau faes allweddol. Yn gyntaf, galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i bennu targedau clir a gaiff eu monitro ar gyfer y strategaeth swyddi gwyrdd a 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Gelwais am hynny i gyd a llawer

when it was launched in September 2009. I could not understand why, given its title, it was so woolly. Strategies are supposed to provide direction in a clear and unambiguous way, and successful strategies are supposed to have targets and monitoring criteria. Yet, the green jobs strategy and 'Skills That Work for Wales' do not do that.

Wales's biggest capital asset is its environment. We have the opportunity to develop our tourism industry further, and to understand and get to grips with the whole concept of destination marketing, which the Europeans do extremely well. We also have by far the greatest potential of all the home nations in respect of green energy in the form of wave, wind and water energy—and water energy is not the same as wave energy. Deputy First Minister, could you give an indication in your reply of how far the Minister for Heritage is taking the need to develop further high-quality, high-skilled jobs in the tourism industry, because that would be one way of helping us to move further away from this economic downturn?

The green jobs strategy was a missed opportunity to maximise our potential. Gordon Brown reckons that he can create 400,000 new jobs in England through the UK Government's low-carbon industrial strategy. The Scots, our cousins across the borders, reckon that they can create 16,000 jobs in energy-related opportunities in Scotland over the next 10 years, while our message and green jobs strategy is 'Oh well, let us have a go'. We have no targets and no ambition.

Deputy First Minister, I will try to do what I have done in previous debates when you and I have spoken across the floor, namely provide some ideas and not just say how dreadful I think that it all is. I suggest that we be bold. We need to create two marine hubs—one in north Wales and one in south Wales. Anglesey and Pembrokeshire come to mind, not simply because you and I both represent those areas, but because they are so

mwy yn y ddadl ar y strategaeth swyddi gwyrdd, adeg ei lansio ym mis Medi 2009. Ni allwn ddeall, o ystyried teitl y strategaeth, pam yr oedd mor niwlog. Mae strategaethau i fod i gynnig cyfeiriad mewn modd clir a diamwys, ac mae strategaethau llwyddiannus i fod i gynnwys targedau a mein prawf monitro. Eto i gyd, nid yw'r strategaeth swyddi gwyrdd a 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn gwneud hynny.

Ased mwyaf Cymru o ran cyfalaf yw ei hamgylchedd. Mae gennym gyfle i ddatblygu ein diwydiant twristiaeth ymhellach, a deall yr holl gysyniad o farchnata cyrchfannau, a mynd i'r afael â'r cysyniad hwnnw, sy'n rhywbeth y mae'r Ewropeaid yn ei wneud yn eithriadol o dda. At hynny, gennym ni y mae'r potensial mwyaf o bell ffodd o blith holl wledydd y DU ym maes ynni gwyrdd, ar ffurf ynni tonnau, gwynt a dŵr—ac nid yw ynni dŵr yr un fath ag ynni tonnau. Ddirprwy Brif Weinidog, a allech roi awgrym yn eich ateb i ba raddau y mae'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn ymdrin â'r angen i ddatblygu mwy o swyddi o safon sy'n galw am sgiliau uchel yn y diwydiant twristiaeth, oherwydd byddai hynny'n un ffodd i'n helpu i symud ymhellach oddi wrth y dirywiad economaidd hwn?

Yr oedd y strategaeth swyddi gwyrdd yn gyfle a gollwyd i wneud y gorau o'n potensial. Cred Gordon Brown y gall greu 400,000 o swyddi newydd yn Lloegr drwy strategaeth ddiwydiannol carbon isel Llywodraeth y DU. Cred yr Albanwyr, ein cefndryd y tu hwnt i'r ffin, y gallant greu 16,000 o swyddi mewn cyfleoedd yn ymwneud ag ynni yn yr Alban dros y 10 mlynedd nesaf. Ond ein neges a'n strategaeth ni ar swyddi gwyrdd yw 'O wel, gadewch inni roi cynnig arni'. Nid oes gennym dargedau nac uchelgais.

Ddirprwy Brif Weinidog, ceisiaf wneud yr hyn a wneuthum mewn dadleuon blaenorol pan ydym wedi siarad â'n gilydd o bobtu'r Siambr, sef cynnig rhai syniadau yn hytrach na gwneud dim byd ond dweud mor ofnadwy yw'r sefyllfa. Awgrymaf y dylem fod yn efn. Mae angen inni greu dwy ganolfan fôr—un yn y gogledd ac un yn y de. Meddyliaf am Ynys Môn a Sir Benfro, nid oherwydd ein bod ein dau'n cynrychioli'r

well sited for being able to trial all of these new technologies. Those locations are where we have all of our natural resources in unencumbered abundance.

We need to get rid of the bias against anything that is not wind. Wind is incredibly important and we are committed to wind energy, but we need to take a look at such things as the investment policies of the European Investment Bank and, indeed, of the Welsh Assembly Government. I would like to see a proactive effort by all of us to grab as much of the manufacturing opportunity of the new offshore wind developments as we can, particularly those in the Irish sea and in the Bristol channel.

I recognise where we are in the product life cycle, as far as wind turbine creation is concerned, and I also recognise Germany's predominance in this market. However, offshore wind is a brand new market; it is a new set of skills and a new type of technology and this is a whole new ball game. I would like us to try to push that and to use our marine hubs as a way of trying to enhance the Irish sea and the Bristol channel offshore wind opportunities.

On investment, wave and water companies come to me with excellent ideas that they want to trial—ideas that, if we can invest in them, will provide proper green jobs in Wales—yet they do not have that opportunity because the funding structure is so complex and is also set against any new business with no proven track record. I am talking about simple things such as the fact that, in order to be able to access any funding, you have to have three competitive quotes to manufacture whatever you might want funding for. However, if you have a brand new business and are manufacturing something that no-one else has ever manufactured before, you cannot possibly get those three competitive quotes and because of that, you cannot access the funding.

Finally, because I recognise that we are

ardaloedd hynny, ond oherwydd eu bod mewn lleoliadau cystal i fedru treialu'r holl dechnolegau newydd hyn. Mae holl lawnder ein hadnoddau naturiol ar gael yn ddilysfethair yn y manau hynny.

Mae angen inni gael gwared â'r rhagfarn yn erbyn popeth nad yw'n wynt. Mae gwynt yn bwysig tu hwnt, ac yr ydym wedi ymrwymo i ynni gwynt. Ond mae angen inni ystyried pethau megis polisiau buddsoddi Banc Buddsoddi Ewrop, a Llywodraeth y Cynulliad yn wir. Byddwn yn hoffi gweld ymdrech ragweithiol gan bob un ohonom i fanteisio cymaint ag sy'n bosibl ar y cyfleoedd gweithgynhyrchu sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau ynni gwynt ar y môr, yn enwedig y rheini ym Môr Iwerddon a Môr Hafren.

Yr wyf yn cydnabod lle'r ydym yn oes y cynnrych, o ran cynhyrchu tyrbinau gwynt, ac yr wyf hefyd yn cydnabod amlgrwydd yr Almaen yn y farchnad hon. Fodd bynnag, mae ynni gwynt ar y môr yn farchnad newydd sbon; mae'n set newydd o sgiliau ac yn fath newydd o dechnoleg, ac mae'n sefyllfa holol newydd. Hoffwn pe baem yn ceisio gwthio hynny, ac yn defnyddio ein canolfannau môr fel ffordd i geisio gwella cyfleoedd ynni gwynt ar y môr ym Môr Iwerddon a Môr Hafren.

O ran buddsoddi, daw cwmniau ynni tonnau ac ynni dŵr â syniadau ardderchog ataf yr hoffent eu treialu—syniadau a fydd, os gallwn fuddsoddi ynddynt, yn darparu swyddi gwyrdd go iawn yng Nghymru. Eto i gyd ni chânt y cyfle hwnnw oherwydd bod y strwythur cyllido mor gymhleth, ac am nad yw'n hwylus i fusnes newydd sy'n methu â phrofi ei lwyddiant yn y gorffennol. Yr wyf yn sôn am bethau syml megis y ffaith ei bod yn rhaid ichi er mwyn medru cael gafael ar gyllid, gael tri dyfynbris cystadleuol i gynhyrchu beth bynnag y gallech fod yn dymuno cael cyllid ar ei gyfer. Fodd bynnag, os oes gennych fusnes newydd sbon ac os ydych yn cynhyrchu rhywbeth nad oes neb arall erioed wedi'i gynhyrchu, nid oes modd o gwbl ichi gael y tri dyfynbris cystadleuol dan sylw, ac oherwydd hynny ni allwch gael hyd i'r cyllid.

Yn olaf, oherwydd fy mod yn cydnabod bod

running out of time, the current recession notwithstanding, Ireland has had incredible success in growing its economy. I agree that judicious use of European Union funding had an enormous part to play, but in the 1970s, 1980s and 1990s, they also looked hard at their technical colleges and at the kind of skills that they needed to be able to go forward. ‘Skills That Work for Wales’ does not offer that—it is unambitious.

ein hamser ar ddod i ben, mae Iwerddon, er gwaethaf y dirwasgiad presennol, wedi hybu ei heconomi'n llwyddiannus tu hwnt. Cytunaf fod defnyddio cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn ddoeth wedi bod yn rhan enfawr o'r llwyddiant hwnnw, ond yn yr 1970au, yr 1980au a'r 1990au edrychodd Iwerddon yn fanwl iawn ar ei cholegau technegol a'r math o sgiliau yr oedd arni eu hangen i allu symud ymlaen. Nid yw 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn cynnig hynny—nid oes iddo uchelgais.

The Deputy Presiding Officer: Order. Could you wind up, please?

Angela Burns: For example, the level 2 requirement in it will not get you a decent job in either business, information and communications technology or engineering. We need a complete review of that, Deputy First Minister, and I ask you to do that.

Gareth Jones: Un peth yw gofyn am strategaethau a nodi gwendidau fel y gwna'r Ceidwadwyr, ond mater arall yw gweithredu'n bositif i ddatrys gwendidau economaidd. Cyfng iawn yw'r dewisiadau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r economi, a phe bai'r Ceidwadwyr wedi cael eu ffodd yn 1999, byddai'n fwy cyfng byth arnom. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn fawr o'r pwerau pitw sydd ganddi mewn cyfnod cythryblus—drwy ysgafnua baich cyfraddau busnes, adeiladu tai fforddiadwy, ProAct a ReAct, defnyddio arian y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, uwch-gynadleddau economaidd a defnyddio arian cyfalaf 2010-11 eleni.

Fodd bynnag, erys yr arfau angenrheidiol i wella economi Cymru yn San Steffan. Mae'n rhaid cydnabod bod angen datganoli grym trethiannol ac ariannol i Gymru fel bod Llywodraeth Cymru yn atebol i bobl Cymru dros yr economi Gymreig. Mae'r Ceidwadwyr yn deall y pwyt hwn ond yn amharod i'w gydnabod.

Felly, beth yn union fyddai Llywodraeth Geidwadol yn ei olygu i ni yng Nghymru? Ystyriwch lle mae'r Torïaid mewn grym—yn

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi dynnu at y terfyn, os gwelwch yn dda?

Angela Burns: Er enghraifft, ni fydd y gofyniad lefel 2 yn y strategaeth yn sicrhau swydd dda ichi ym maes busnes, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu beirianneg. Mae angen inni adolygu'r strategaeth yn gyfan gwbl, Ddirprwy Brif Weinidog, a gofynnaf ichi wneud hynny.

Gareth Jones: It is one thing to ask for strategies while highlighting weaknesses as the Conservatives have done, but it is another to take positive steps to address economic problems. There are only limited options available to the Welsh Government when it comes to addressing those problems, and, if the Conservatives had had their way in 1999, those options would have been even more limited. The Welsh Government has made the most of its paltry powers in a period of recession, through easing the burden of business rates, building affordable housing, the introduction of ProAct and ReAct, the use of strategic capital investment funding, holding economic summits, and drawing forward 2010-11 capital funding to this year.

However, the tools we need to repair the Welsh economy remain in Westminster. We must acknowledge that tax-raising and financial powers need to be devolved to Wales so that the Welsh Government is accountable to the people of Wales for the Welsh economy. The Conservatives understand this point but are unwilling to acknowledge it.

Therefore, what exactly would a Conservative Government mean for us in Wales? Consider where the Tories are in

Llundain. Mae Boris yn gwrthwynebu treth ar daliadau bonws bancwyr. Mae'n hawlio y byddai 9,000 o fancwyr yn gadael Llundain neu'n colli eu swyddi pe bai'r dreth ar fonws yn cael ei chyflwyno, ac mae'n mynnu eu gwarchod. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng lles bancwyr a gweithwyr Bosch? Yr hyn sy'n bwysig i Boris ac i'r Ceidwadwyr mewn grym yw taliadau bonws bancwyr a gwarchod y cyfoethog, beth bynnag a ddywedant fel gwrthblaid. Dyna record y blaid Dorïaidd pan gaiff y cyfle i lywodraethu. Mae Jeff Cuthbert eisoes wedi ymhelaethu ar yr 1980au a'r 1990au.

4.50 p.m.

Mae pobl Cymru yn gwybod am record y Ceidwadwyr ac yn gwybod mai eich plaid chi sy'n bygwth tagu unrhyw arwydd o adfer economi Cymru. Mwy o gymorth gyda chyfraddau busnes yw unig bolisi economaidd cadarn y Ceidwadwyr Cymreig. Mantra cyson y Torïaid ydy 'cymorth gyda chyfraddau busnes', ac nid oes ganddynt bolisi cadarn arall.

Nick Ramsay a gododd—

Gareth Jones: Mae'n amlwg bod cwpwrdd polisiau Bourne, *branch manager* y Torïaid yng Nghymru, yn gwbl wag.

Nick Bourne a gododd—

The Deputy Presiding Officer: Order. I do not think that he is taking any interventions.

Gareth Jones: Ond, unwaith eto, maent yn ymwrthod â'r arweinyddiaeth gadarn a ddangoswyd gan Lywodraeth Cymru. [Torri ar draws.]

Hold on a moment.

Fodd bynnag, er bod yr arweinyddiaeth honno'n gryf a deallus, a fydd yn ddigon i ddiwygio patrymau economaidd y 40 mlynedd diwethaf a llunio adferiad economaidd i'r dyfodol?

Ni wn pa un ohonoch sydd am godi.

Nick Bourne: I do not know who has

power—in London. Boris is opposed to taxing bankers' bonuses. He claims that 9,000 bankers would leave London or lose their jobs if a tax on bonuses were introduced, therefore he insists on protecting them. What is the difference between the welfare of bankers and that of Bosch workers? What is important to Boris and the Conservatives in power are bankers' bonuses and protecting the rich, regardless of what they might say as an opposition party. That is the record of the Tory party when afforded the opportunity to govern. Jeff Cuthbert has already alluded to the 1980s and 1990s.

The people of Wales are aware of the Conservative record and know that it is your party that threatens to stifle any signs of economic recovery in Wales. The only concrete economic policy by the Welsh Conservatives is based on further business rate relief. The Tories's constant mantra is 'business rate relief', and they have no other concrete policy.

Nick Ramsay rose—

Gareth Jones: It is evident that the policy cupboard of Bourne, the Tory branch manager in Wales, is completely bare.

Nick Bourne rose—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. N chredaf ei fod yn bwriadu derbyn ymyriadau.

Gareth Jones: Yet, once again, they reject the firm leadership shown by the Welsh Government. [Interruption.]

Arhoswch funud.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick

Cuthbert, Jeff	Burnham, Eleanor
Davidson, Jane	Burns, Angela
Davies, Alun	Davies, Andrew R.T.
Davies, Andrew	Davies, Paul
Davies, Jocelyn	German, Michael
Evans, Nerys	Graham, William
Franks, Chris	Isherwood, Mark
Gibbons, Brian	Law, Trish
Gregory, Janice	Melding, David
Griffiths, John	Millar, Darren
Griffiths, Lesley	Morgan, Jonathan
Hart, Edwin	Ramsay, Nick
Hutt, Jane	Randerson, Jenny
Jenkins, Bethan	Williams, Brynle
Jones, Ann	Williams, Kirsty
Jones, Carwyn	
Jones, Elin	
Jones, Gareth	
Jones, Helen Mary	
Jones, Ieuan Wyn	
Lewis, Huw	
Lloyd, David	
Lloyd, Val	
Mewies, Sandy	
Morgan, Rhodri	
Ryder, Janet	
Sargeant, Carl	
Thomas, Gwenda	
Thomas, Rhodri Glyn	
Watson, Joyce	

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliannau 2 a 4 eu dad-ddethol.
Amendment 2 and 4 were deselected.*

*Ni chynigiwyd gwelliant 3.
Amendment 3 not moved.*

Motion NDM4385 as amended: that

the National Assembly for Wales:

1. recognises the significant impact the recession has had across Wales;
 2. notes that while unemployment has risen in the last year by 21,000, latest statistics show a reduction of 8,000 over the last quarter;
 3. welcomes the decision of the Welsh Assembly Government to engage widely with businesses across Wales on its economic renewal programme which will:
1. yn cydnabod effaith sylweddol y dirwasgiad ar Gymru benbaladr;
 2. yn nodi er bod diweithdra wedi codi 21,000 yn y flwyddyn ddiwethaf bod yr ystadegau diweddaraf yn dangos gostyngiad o 8,000 yn ystod y chwarter diwethaf;
 3. yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n eang â busnesau ledled Cymru ynghylch ei rhaglen adnewyddu'r economi a fydd:

Cynnig NDM4385 fel y'i diwygiwyd: bod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn cydnabod effaith sylweddol y dirwasgiad ar Gymru benbaladr;
2. yn nodi er bod diweithdra wedi codi 21,000 yn y flwyddyn ddiwethaf bod yr ystadegau diweddaraf yn dangos gostyngiad o 8,000 yn ystod y chwarter diwethaf;
3. yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n eang â busnesau ledled Cymru ynghylch ei rhaglen adnewyddu'r economi a fydd:

- a) reflect the manufacturing strategy being devised with the manufacturing forum;
 - b) support the continued implementation of the green jobs strategy;
 - c) align investment, innovation, research and development and skills both within the Assembly Government and with key sectors in the Welsh economy; and
4. endorses the Assembly Governments decision to enhance the small business rates relief thresholds from 1 April 2010 and notes that over half of all business premises in Wales now qualify for small business rates relief.
- a) yn adlewyrchu'r strategaeth gweithgynhyrchu sy'n cael ei llunio ar y cyd â'r fforwm gweithgynhyrchu;
 - b) yn cefnogi'r gwaith o barhau i weithredu'r strategaeth swyddi gwyrdd;
 - c) yn alinio buddsoddiad, arloesedd, ymchwil a datblygu, a sgiliau o fewn Llywodraeth y Cynulliad a chyda sectorau allweddol sy'n rhan o economi Cymru; a
4. yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella trothwyon rhyddhad ardrethi busnesau bach o 1 Ebrill 2010 ymlaen ac yn nodi bod dros hanner eiddo busnesau yng Nghymru yn gymwys bellach ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach.

Cynnig NDM4385 fel y'i diwygiwyd: O blaid 32, Ymatal 2, Yn erbyn 15.

Motion NDM4385 as amended: For 32, Abstain 2, Against 15.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sergeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

German, Michael

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Randerson, Jenny

*Derbyniwyd y cynnig NDM4385 fel y'i diwygiwyd.
Motion NDM4385 as amended agreed.*

Dadl Fer Short Debate

Asbestos: Y Llofrudd Cudd Asbestos: The Hidden Killer

Nick Ramsay: I am pleased to have secured this debate and to be speaking on the subject of asbestos, which I have termed ‘the hidden killer’. I have agreed a one-minute contribution from Eleanor Burnham.

I have raised the issue of asbestos on a number of occasions over the past few years. Last year, I met with Emma Corfield, the founder of Core Surveys Ltd, a Monmouthshire-based company, charged by the Government with carrying out an asbestos audit. I met her and her colleague Phillip Simms to discuss the deadly legacy of asbestos, including the serious problem in public buildings in Wales, such as Welsh schools. A few days later I tabled a statement of opinion calling for a national audit of asbestos in all schools in Wales, and I thank Members who have signed up to that.

Nick Ramsay: Yr wyf yn falch o fod wedi sicrhau'r ddadl hon ac o gael cyfle i drafod asbestos, sef yr hyn yr wyf yn ei alw'n 'llofrudd cudd'. Yr wyf wedi cytuno i gyfraniad o un funud gan Eleanor Burnham.

Yr wyf wedi codi problem asbestos droeon dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Y llynedd cyfarfum ag Emma Corfield, sylfaenydd Core Surveys Ltd, sef cwmni yn Sir Fynwy y mae'r Llywodraeth wedi'i roi benodi i fod yn gyfrifol am archwiliad asbestos. Cyfarfum â hi a'i chydweithiwr, Phillip Simms, i drafod y problemau marwola etifeddwyd oherwydd asbestos, gan gynnwys y broblem ddifrifol mewn adeiladau cyhoeddus yng Nghymru, megis ysgolion Cymru. Ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach, cyflwynais ddatganiad barn yn galw am archwiliad cenedlaethol o asbestos ym mhob ysgol yng Nghymru, a diolch i'r Aelodau sydd wedi cefnogi hynny.

5.20 p.m.

I am resolute that the Government needs to act to address the problem of asbestos in Wales. It is one of the most dangerous substances that people have had to work with. It is used to make tiles, gaskets, brake pads, lagging, boilers, textured surfaces such as Artex, fireproofing and thermal pipe insulation. The name comes from the Greek for ‘unquenchable’. Technically, it is a set of six naturally occurring minerals. Sadly, this is not your everyday compound; it is a potentially life-threatening fibre. The inhalation of asbestos can cause serious illnesses, including malignant lung cancer, mesothelioma and asbestosis.

Yr wyf yn benderfynol fod angen i'r Llywodraeth weithredu i fynd i'r afael â phroblem asbestos yng Nghymru. Mae'n un o'r sylweddau mwyaf peryglus y bu'n rhaid i bobl weithio gydag ef. Fe'i defnyddir i wneud teils, gasgedi, padiau brêcs, deunydd ynysu, boeleri, arwynebau gweadog megis Artex, deunydd diogelu rhag tân a deunydd ynysu thermol ar gyfer pibellau. Daw'r enw o'r gair Groegaidd am 'anniffoddadwy'. Yn dechnegol, mae'n gyfuniad o chwech o fwynau sydd i'w cael yn naturiol. Yn anffodus, nid cyfansoddyn cyffredin mohono; mae'n ffibr a all beryglu bywyd. Gall anadlu asbestos achosi afiechydon difrifol, gan gynnwys canser malaen yr ysgyfaint, mesothelioma ac asbestosis.

To date, the Government's response has been

Hyd yma, bu ymateb y Llywodraeth yn

inadequate, but, to be fair, it mirrors the response of society in general. A Government spokesman has said that when undertaking capital projects, there are already regulations in place that local authorities must comply with in terms of managing asbestos. That is fine as far as it goes, but in many ways, this is a case of stating the obvious. Building owners are compelled by law to manage asbestos, and employers have to comply with the Control of Asbestos Regulations, which were enacted in 2006.

I do not believe that this should stop us from going further. I believe that the Assembly Government has a role in arbitrating on how the process of decontamination is taken forward, through its discussions with the UK Government. At the very least, we need a Wales-wide audit, as many management plans are old and the asbestos surveyed may have deteriorated.

I am sure that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning knows these arguments, and I accept that it will not be easy, particularly in schools. When we hear the word ‘asbestos’ we tend to think of past industrial diseases, like black lung and silicosis, but Europe’s asbestos legacy is a complex problem with no straightforward answer. It is potentially life-threatening and, unless we do something about its prevalence in our public buildings, these carcinogenic fibres will kill tens of thousands of people in a national epidemic.

There has been scepticism about this from some quarters. According to Steve Coldrick, the asbestos time bomb has been blown out of all proportion; he has accused teachers’ unions of being whipped into frenzy by stories of former pupils falling victim to asbestos-related cancers. While I respect Mr Coldrick for sticking his head above the parapet and talking about a difficult issue, I beg to differ on this matter. The statistics surrounding asbestos are truly frightening: 4,000 people a year die of asbestos-related illnesses in the UK, and this figure is set to rise to 10,000 a year by 2020. More than half of those affected will die within 12 months of

annigonol, ond a bod yn deg mae’n adlewyrchu ymateb cymdeithas yn gyffredinol. Dywedodd llefarydd ar ran y Llywodraeth fod rheoliadau ar gyfer rheoli asbestos eisoes ar waith, a’i bod yn rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy wrth gyflawni prosiectau cyfalaf. Mae hynny’n iawn ynddo’i hun, ond ar lawer cyfrif nid yw’n dweud dim mwy na’r hyn sy’n amlwg. Yn ôl y gyfraith, rhaid i berchnogion adeiladau reoli asbestos, a rhaid i gyflogwyr gydymffurfio â’r Rheoliadau Rheoli Asbestos a gyflwynwyd yn 2006.

Ni chredaf y dylai hyn ein hatal rhag mynd ymhellach. Credaf fod gan Lywodraeth y Cynulliad rôl i’w chwarae wrth benderfynu sut i symud y broses ddadlygru yn ei blaen, trwy ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Man lleiaf, mae angen inni gynnal archwiliad ledled dros Gymru gyfan, gan fod nifer fawr o gynlluniau rheoli yn hen, a gallai’r asbestos a archwiliwyd fod wedi gwaethygu.

Yr wyf yn siŵr fod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gyfarwydd â’r dadleuon hyn, a derbyniaf na fydd hyn yn hawdd, yn enwedig mewn ysgolion. Pan glywn y gair ‘asbestos’, tueddw i feddwl am hen afiechydon diwydiannol, fel clefyd y llwch a silicosis, ond mae’r broblem a etifeddwyd ar draws Ewrop oherwydd mae problem asbestos yn un gymhleth heb ateb syml iddi. Gall fod yn berygl bywyd, ac oni wnawn rywbeth am ei lefelau yn ein hadeiladau cyhoeddus, bydd y ffibrau carsinogenaidd hyn yn lladd degau ar filoedd o bobl mewn epidemig cenedlaethol.

Mae rhai wedi mynegi amheuon yngylch hyn. Yn ôl Steve Coldrick, gwnaed môr a mynydd o’r syniad bod asbestos yn broblem tebyg i fom sy’n barod i ffrwydro; mae wedi cyhuddo undebau athrawon o gael eu cynhyrfu gan straeon am gyn-ddisgyblion yn dioddef canserau’n gysylltiedig ag asbestos. Er fy mod yn parchu Mr Coldrick am fod yn ddigon dewr i fynegi ei farn a thrafod mater anodd, mae arnaf ofn na allaf gytuno ag ef ar y mater hwn. Mae’r ystadegau’n ymwneud ag asbestos yn gwbl frawychus: mae 4,000 o bobl y flwyddyn yn marw o afiechydon sy’n gysylltiedig ag asbestos yn y DU, ac mae disgwyl i’r ffigur hwn godi i 10,000 y

being diagnosed. The Health and Safety Executive expects 90,000 people to die in a national epidemic by 2050.

Progress has been made. The production of asbestos was halted around three decades ago, but asbestos remains the primary carcinogenic toxin affecting workers today in Wales. Outside the workplace, asbestos is second only to tobacco as an environmental source of cancer. Asbestos products in homes and commercial buildings continue to cause unprecedented levels of disease and death in Wales. In communities where asbestos companies, such as Turner and Newall, were major employers, I fear that there was a conspiracy of silence. People who worked at many of these factories, their relatives and neighbours, got sick and died.

The abysmal situation has cost the lives of many innocent men and women. For example, Maureen Ward, a constituent of mine who lives in Gilwern, in Monmouthshire, recently lost her husband and childhood sweetheart, Terry Ward, who was diagnosed with mesothelioma in 2006 and died just nine months later at the age of 64. He was due to retire the year after, and had been dreaming about moving out to Cyprus. Terry had spent most of his life working as a builder, and for a while he was dealing with asbestos on a daily basis. Maureen remembers how he used to come home covered from head to foot in white dust. Their children Darren, 43 and Ceri, 36, are still devastated and say that not only have they lost their father but their best friend. In Maureen's words,

'I was holding his hand when he finally passed away. He used to be a very fit and active man, but the way he died was just awful. It breaks my heart when our youngest grandchild, Georgina, keeps asking when her grand-dad is coming back.'

What are we to do? As an Assembly, we need

flwyddyn erbyn 2020. Bydd dros hanner y bobl yr effeithir arnynt yn marw ymhen 12 mis ar ôl cael diagnosis. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn disgwyl i 90,000 o bobl farw mewn epidemig cenedlaethol erbyn 2050.

Mae cynydd wedi'i wneud. Rhoddwyd y gorau i gynhyrchu asbestos ryw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Ond hyd heddiw, asbestos yw'r prif docsin carsinogenaidd sy'n effeithio ar weithwyr yng Nghymru. Y tu allan i'r gweithle, mae asbestos yn ail yn unig i dybaco fel ffynhonnell canser sy'n deillio o'r amgylchedd. Mae cynhyrchion asbestos mewn cartrefi ac adeiladau masnachol yn parhau i achosi lefelau digyffelyb o afiechydon a marwolaethau yng Nghymru. Ofnaf fod cynllwyn i gadw'n dawel wedi bod ar waith mewn cymunedau lle'r oedd cwmnïau asbestos, megis Turner a Newall, yn gyflogwyr mawr. Cafodd pobl a fu'n gweithio yn nifer o'r ffatrioedd hyn, ynghyd â'u perthnasau a'u cymdogion, eu taro'n sâl a marw.

Mae nifer fawr o ddynion a menywod diniwed wedi colli eu bywydau o ganlyniad i'r sefyllfa ddifrifol hon. Er enghraift, yn ddiweddar collodd Maureen Ward, un o'm hetholwyr sy'n byw yng Ngilwern yn Sir Fynwy, ei gŵr a'i chariad ers ei phlentyndod, Terry Ward, a gafodd wybod bod mesothelioma arno yn 2006 ac a fu farw cwta naw mis yn ddiweddarach yn 64 oed. Yr oedd wedi gobeithio ymddeol y flwyddyn wedyn, a bu'n breuddwydio am symud i Gyprus. Treuliodd Terry y rhan fwyaf o'i oes yn gweithio fel adeiladwr, ac am gyfnod bu'n ymdrin ag asbestos bob dydd. Mae Maureen yn cofio sut yr arferai ddod adref yn llwch gwyn o'i gorun i'w sawdl. Mae eu plant Darren, 43 oed, a Ceri, 36 oed, yn dal i deimlo'r boen ac yn dweud eu bod wedi colli nid yn unig eu tad ond eu ffrind gorau hefyd. Yng ngeiriau Maureen,

Yr oeddwn yn dal ei law pan fu farw yn y diwedd. Arferai fod yn ddyn heini a bywiog iawn, ond yr oedd y ffordd y bu farw yn arswyodus. Mae'n torri fy nghalon pan fydd ein hwyres ieuengaf, Georgina, yn gofyn o hyd pryd y bydd ei thad-cu'n dod yn ôl.

Beth allwn ni ei wneud? Fel Cynulliad, mae

to come up with measures so that future generations do not suffer from these deadly diseases. We need to come up with a strategy that we can put into operation with the UK Government. We must ensure that that is achieved and work with companies like Core Surveys Ltd, in my constituency, to ensure that the process of decontamination is as swift as it possibly can be, and achieves the goal in the shortest time possible.

Sadly, it is a cause that is often poorly supported by some charities—even some cancer charities—and it has been a low priority for the Government here and in the UK for too long. In the 1960s and 1970s, the biggest health risk was to tradesmen and people working in asbestos mines; today, asbestos is a danger to teachers and schoolchildren who may be unwittingly exposing themselves to high levels in old buildings.

Some of you may have heard of Ann Parry. She was an occupational therapist who lived in Monmouth. She died of mesothelioma aged 45, after an illness that began with shortness of breath and ended with painful surgery. According to her younger sister, Rhyan, Ann had everything to live for—a fiancé, a good job and model looks. Sadly, her life became blighted by a distant childhood encounter with asbestos—a ceiling had collapsed at her old school, possibly releasing a deadly dust shower. In Rhyan's words, she was an innocent young woman who became a victim. People have no concept of how tragic this situation can be.

I am pleased that the Minister for Children, Education, and Lifelong Learning is answering this debate. I am sure that he will know that the asbestos in schools is not going to disappear overnight and will continue to be a threat to many future generations. Incredibly, teachers are up to 10 times more likely to suffer from asbestos-related illnesses than other people, and their pupils are also at risk. Requests under the Freedom of Information Act 2000 have revealed that more than 377,000 youngsters in Wales have lessons in schools that contain the material. It

angen inni feddwl am fesurau i sicrhau na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn dioddef yr afiechydon marwol hyn. Mae angen inni lunio strategaeth y gallwn ei gweithredu gyda Llywodraeth y DU. Rhaid inni sicrhau bod hynny'n cael ei wneud a'n bod yn gweithio gyda chwmnïau fel Core Surveys Ltd, yn fy etholaeth i, i sicrhau bod y broses ddadlygru yn digwydd mor gyflym ag sy'n bosibl, ac yn cyrraedd y nod yn yr amser byrraf posibl.

Yn anffodus, mae'n achos nad yw'n cael llawer o gefnogaeth gan rai elusennau—hyd yn oed rhai elusennau cancer—a bu'n flaenoriaeth isel i'r Llywodraeth yma ac yn y DU am gyfnod rhy hir. Yn yr 1960au a'r 1970au, crefftwyd a phobl yn gweithio mewn mwyloddiadu asbestos oedd yn wynebu'r perygl mwyaf i'w hiechyd; heddiw, mae asbestos yn beryl i athrawon a phlant ysgol a all, heb yn wybod iddynt, fod yn agored i niwed oherwydd y lefelau uchel o asbestos sydd mewn hen adeiladau.

Hwyrach fod rhai ohonoch wedi clywed am Ann Parry. Therapydd galwedigaethol oedd hi yn byw yn Nhrefynwy. Bu farw o fesothelioma yn 45 oed, ar ôl salwch a ddechreuodd gyda diffyg anadl ac a ddaeth i ben gyda llawdriniaeth boenus. Yn ôl ei chwaer iau, Rhyan, yr oedd gan Ann bopeth i edrych ymlaen ato—darpar âr, swydd dda a phryd a gwedd model. Yn anffodus, cafodd ei bywyd ei ddifetha oherwydd iddi ddod i gysylltiad ag asbestos flynyddoedd yn ôl pan oedd yn blentyn—yr oedd nenfwd yn ei hen ysgol wedi cwympo, gan ryddhau cawod o lwch marwol o bosibl. Yng ngeiriau Rhyan, yr oedd yn ferch ifanc ddiniwed a ddioddefodd. Nid oes gan bobl ddim syniad pa mor enbyd y gall y sefyllfa hon fod.

Yr wyf yn falch fod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ateb y ddadl hon. Yr wyf yn siŵr y bydd yn gwybod na fydd yr asbestos mewn ysgolion yn diflannu dros nos ac y bydd yn parhau'n fygythiad am genedlaethau i ddod. Mae'n anghredadwy fod athrawon hyd at 10 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef afiechydon sy'n gysylltiedig ag asbestos na phobl eraill, ac mae eu disgylion mewn perygl hefyd. Mae ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wedi datgelu bod dros 377,000 o bobl ifanc yng Nghymru yn cael gwensi mewn ysgolion lle

is also believed that, since 1980, nearly 300 teachers and lecturers have died of cancers related to asbestos exposure. It should, therefore, be considered a growing public health problem, as well as an environmental issue.

My guess is that the situation is worse here than it is in England. I say that because the Welsh housing stock is among the oldest in the UK. I will not go through all the statistics, because there are so many of them, but in Blaenau Gwent and Ynys Môn—to name but two areas—around 9,000 pupils are taught in schools that contain asbestos. In Bridgend, 17,000 children are exposed to this deadly mineral. In Caerphilly, 75 schools have some form of asbestos in their ceiling tiles, textured coatings or wallboards. In Cardiff, asbestos-containing materials can be found in 122 schools, exposing 46,500 pupils. In my constituency, there are around 34 schools that contain the deadly substance. I do not think that it is overstressing the situation to say that asbestos is potentially one of the biggest epidemics to have ever hit the Welsh workplace. It affects schools, hospitals, many public buildings and, as many of us know, private homes as well.

The Association of Teachers and Lecturers has called for a national audit. The director of ATL Cymru, Dr Philip Dixon, has criticised the Government for too often passing the buck. I brought this short debate forward today because I believe that this is an issue that has not received enough attention in the past—sometimes, for reasons that are quite easy to understand. The scale of the problem cannot be underestimated, but it has been ignored for far too long. I really hope that this short debate will be a catalyst, or part of a catalyst, to the Assembly Government and the UK Government treating this issue with the seriousness that it deserves. I hope that all of us together can travel much further along the line of seeing the decontamination process being taken forward and being as effective as possible.

Eleanor Burnham: I have been moved to

mae'r deunydd. Credir hefyd, er 1980, fod bron 300 o athrawon a darlithwyr wedi marw o ganserau'n gysylltiedig â bod mewn cysylltiad ag asbestos. Felly, dylid ei ystyried yn broblem iechyd y cyhoedd sy'n tyfu, yn ogystal ag yn fater amgylcheddol.

Yr wyf yn dyfalu bod y sefyllfa'n waeth yng Nghymru nag yn Lloegr. Dywedaf hynny am fod stoc tai Cymru ymhlið yr hynaf yn y DU. Nid wyf am fynd trwy'r holl ystadegau, gan fod cynifer ohonynt, ond ym Mlaenau Gwent ac Ynys Môn—i enwi dwy ardal yn unig—caiff oddeutu 9,000 o ddisgyblion eu haddysgu mewn ysgolion sy'n cynnwys asbestos. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae 17,000 o blant yn agored i niwed gan y mwyn marwol hwn. Yng Nghaerffili, mae gan 75 o ysgolion ryw fath o asbestos yn y teils nenfwd, y gorchuddion gweadog neu'r byrddau mur yn eu hadeiladau. Yng Nghaerdydd, mae deunyddiau sy'n cynnwys asbestos i'w cael mewn 122 o ysgolion, sy'n golygu bod 46,500 o ddisgyblion yn agored i niwed. Yn fy etholaeth i, mae oddeutu 34 o ysgolion yn cynnwys y sylwedd marwol. Ni chredaf fy mod yn gorliwio'r sefyllfa trwy ddweud y gallai asbestos fod yn un o'r epidemigion mwyaf i daro gweithleoedd Cymru erioed. Mae'n effeithio ar ysgolion, ysbytai, nifer o adeiladau cyhoeddus, ac fel y gŵyr cynifer ohonom, cartrefi preifat hefyd.

Mae'r Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr wedi galw am archwiliad cenedlaethol. Mae cyfarwyddwr y Gymdeithas yng Nghymru, Dr Philip Dixon, wedi beirniadu'r Llywodraeth am daflu'r baich yn rhy aml. Deuthum â'r ddadl fer hon gerbron heddiw am fy mod yn credu bod hwn yn fater sydd heb gael digon o sylw yn y gorffennol—weithiau, am resymau sy'n ddigon hawdd eu deall. Ni ellir bychanu maint y broblem, ond mae wedi cael ei hanwybyddu lawer rhy hir. Yr wyf yn mawr obeithio y bydd y ddadl fer hon yn sbardun neu'n rhan o sbardun i Lywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU drin y mater hwn gyda'r difrifoldeb y mae'n ei haeddu. Gobeithio y gallwn i gyd deithio gyda'n gilydd lawer ymhellach ar hyd y daith o weld y broses ddadlygru'n cael ei gweithredu, gan fod mor effeithiol ag sy'n bosibl.

Eleanor Burnham: Yr wyf wedi fy

say a few words because I felt quite devastated when I was unable to help a neighbour who had contracted such a disease. As in the case that you mentioned, she had come into contact with asbestos during her childhood, at a school in Liverpool. When she came to me, the disease was quite far advanced and she wanted me to help her to get swifter medical treatment with an appropriate specialist. She, eventually, discovered that person in Leicester. You can imagine that it was quite a trauma to have this advanced cancer, which was asbestos induced. She was very brave and she had to make that long trip from Rossett to Leicester on a regular basis. It was devastating, as she only lasted a year.

5.30 p.m.

Thank you for bringing forward this debate, and I hope that we can look into the matter. I cannot understand why, in this day and age, we cannot use something other than asbestos. Something simple could be done, such as using sheep wool as insulation, although clearly I am not technically minded and am not an expert on these matters. It is a sad situation, and I hope that the Minister can give us some hope, because even Glan Clwyd Hospital has suffered on a vast scale and has had huge issues with asbestos. I can see Darren Millar nodding, so this is obviously an issue that is close to him. It is about time that we took this matter very seriously. Thank you, Nick.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I congratulate Nick on bringing the debate forward and I recognise his sincerity and commitment to this issue over quite a long period of time. We all know that this is a serious issue, and I suspect that we all know that it is not an issue that can be resolved overnight. I will spare people's blushes, but I suspect that most of us in the Chamber went to schools in Wales where asbestos was present. As Nick said, it is a mineral that has been used commercially for a long time. It was seen as versatile, plentiful, and had properties that were seen as being ideal in its time for fire-proofing and insulation. It was, therefore, used extensively as a building

nghymhell i ddweud ychydig eiriau oherwydd yr oeddwn yn teimlo'n drist iawn pan fethais allu helpu cymydog a gafodd clefyd o'r fath. Fel yn yr achos y soniech amdano, daeth i gysylltiad ag asbestos pan oedd yn blentyn, mewn ysgol yn Lerpwl. Pan ddaeth ataf, yr oedd y clefyd wedi hen gydio ac yr oedd am imi ei helpu i gael triniaeth feddygol ynghynt gydag arbenigwr priodol. Yn y diwedd, daeth o hyd i'r unigolyn hwnnw yng Nghaerlŷr. Gallwch ddychmygu ei fod yn brofiad ingol cael y canser hwn a oedd wedi hen gydio a'i achosi gan asbestos. Yr oedd yn ddewr iawn, a bu'n rhaid iddi wneud y daith hir o'r Orsedd i Gaerlŷr yn rheolaidd. Yr oedd yn drist ofnadwy, gan mai am flwyddyn yn unig y bu hi fyw.

Diolch am ddod â'r ddadl hon gerbron, a gobeithio y gallwn ymchwilio i'r mater. Ni allaf ddeall, yn yr oes sydd ohoni, pam na allwn ddefnyddio rhywbeth ar wahân i asbestos. Gellid gwneud rhywbeth syml, fel defnyddio gwlân defaid fel deunydd ynysu, er nad wyf, yn amlwg, yn un â meddwl technegol nac yn arbenigwr ar y materion hyn. Mae'n sefyllfa drist, a gobeithio y gall y Gweinidog roi rhywfaint o obaith inni, oherwydd mae Ysbyty Glan Clwyd hyd yn oed wedi dioddef ar raddfa fawr ac wedi cael problem enfawr gydag asbestos. Gallaf weld Darren Millar yn nodio, felly, mae'n amlwg bod hwn yn fater sy'n agos at ei galon. Mae'n bryd inni ystyried y mater hwn o ddifrif. Diolch yn fawr, Nick.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Yr wyf yn llonyfarch Nick ar ddod â'r ddadl hon gerbron, a chydabyddaf ei ddiffuantrwydd a'i ymrwymiad i'r mater hwn dros gyfnod eithaf hir. Gwyddom i gyd fod hon yn broblem ddifrifol, a thybiaf ein bod yn gwybod i gyd nad yw'n broblem y gellir ei datrys dros nos. Nid wyf am godi cywilydd ar neb, ond tybiaf fod y rhan fwyaf ohonom yn y Siambrau wedi mynd i ysgolion yng Nghymru lle'r oedd yna asbestos. Fel y dywedodd Nick, mae'n fwyn sydd wedi'i ddefnyddio'n fasnachol ers amser. Ystyrid ei fod yn ddeunydd amlbwras a oedd ar gael yn hawdd, a bod ei briodweddau'n ei wneud yn ddelfrydol yn ei ddydd fel deunydd

material in Great Britain from the 1950s through to the mid-1980s. Across the UK, the Health and Safety Executive estimates that more than 500,000 non-domestic premises, including schools, still contain some form of asbestos.

As we know, asbestos fibres and dust are potentially very dangerous if inhaled in high concentrations over a period of time, and Nick referred to the number of diseases that are associated with asbestos. As a result, since 1993, the use of asbestos in most products has been banned, and regulations have been put in place to ensure that there are stringent testing requirements if asbestos is to be disturbed in the course of any work. Expert advice is that, because of the health risks, it can be safer to leave undamaged asbestos in situ and subject to regular assessment rather than to create additional fibre or dust disturbance through its removal.

Asbestos and its management is a non-devolved issue, and the organisation with responsibility for that is the Health and Safety Executive. Relevant legislation is the Control of Asbestos Regulations 2006, which state that those responsible for managing the maintenance or repair of a building must manage any asbestos in it, as well as protect people from exposure to asbestos fibres. In schools, the duty holder is, in most cases, the local education authority. In Wales, the HSE is in the process of inspecting local authorities in relation to their duty to manage asbestos in all of their premises, including schools and the housing stock. Where appropriate, the HSE has taken enforcement action against them in relation to asbestos. The HSE in Wales has also taken enforcement action in relation to the provision of training to manage asbestos. Most of that enforcement has been in the form of improvement notices.

Local authorities are required to have asbestos surveys undertaken on all premises and to implement an asbestos management system. In discharging their duty to manage

diogelu rhag tân a deunydd ynysu. Felly, fe'i defnyddiwyd yn helaeth fel deunydd adeiladu ym Mhrydain Fawr o'r 1950au i ganol yr 1980au. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn amcangyfrif bod dros 500,000 o safleoedd annomestig ar draws y DU, gan gynnwys ysgolion, yn cynnwys rhyw fath o asbestos o hyd.

Fel y gwyddom, gall ffibrau a llwch asbestos fod yn beryglus iawn os caiff lefelau uchel ohonynt eu hanadlu i mewn dros gyfnod, a chyfeiriodd Nick at nifer yr afiechydon sy'n gysylltiedig ag asbestos. O ganlyniad, er 1993 gwaharddwyd defnyddio asbestos yn y rhan fwyaf o gynhyrchion, a rhoddyd rheoliadau ar waith i sicrhau gofynion profi llym os oes gwaith yn debygol o darfu ar asbestos. O ganlyniad i'r risgau iechyd, y cyngor arbenigol yw y gall fod yn fwy diogel gadael yr asbestos heb ei falu yn y fan a'r lle, a'i asesu'n rheolaidd, yn hytrach na rhyddhau mwy o ffibrau neu lwch wrth gael gwared ag ef.

Mae asbestos a'r gwaith o'i reoli yn fater sydd heb ei ddatganoli, a'r sefydliad sy'n gyfrifol amdano yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Rheoliadau Rheoli Asbestos 2006, sy'n dweud ei bod yn rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am reoli gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio adeilad reoli unrhyw asbestos sydd ynddo, yn ogystal â diogelu pobl rhag dod i gysylltiad â ffibrau asbestos. Mewn ysgolion, dyletswydd yr awdurdod addysg lleol yw hyn gan amlaf. Yng Nghymru, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wrthi'n arolygu awdurdodau lleol o ran eu dyletswydd i reoli asbestos ym mhob un o'u hadeiladau, gan gynnwys ysgolion a'r stoc tai. Lle mae hynny'n briodol, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cymryd camau gorfodi yn eu herbyn mewn perthynas ag asbestos. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yng Nghymru hefyd wedi cymryd camau gorfodi o ran darparu hyfforddiant ar reoli asbestos. Yr oedd y rhan fwyaf o'r camau gorfodi hynny ar ffurf hysbysiadau gwella.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud arolygon asbestos o bob adeilad a gweithredu system rheoli asbestos. Wrth gyflawni eu dyletswydd i reoli hynny, mae awdurdodau

that, local education authorities are dependent on having appropriate asbestos surveys carried out, which are usually undertaken by independent consultants. The HSE has issued guidance relating to asbestos surveying, it has run a national asbestos awareness campaign, and it has raised the topic regularly in meetings with the Welsh Local Government Association. The WLGA, local authorities and the Health and Safety Executive meet regularly to discuss the legal implications and responsibilities. The HSE has also produced guidance for schools. Significant advice and support has been offered by the HSE in respect of this.

From our point of view, if we could safely remove asbestos from every school overnight, then we would want to do so. However, you will appreciate, and I think that Nick gave us the figure, that we are talking about a significant number of premises. While we can support the removal, in the context of our school capital investment programme, it will inevitably take time. So, we have to persist, alongside removal, with a programme where local authorities are rigorous in their management of asbestos on their premises.

It is fair to say that this will remain of concern to us as a Government and to Members, and we will ensure that local education authorities take their responsibilities seriously, as indeed we will with other public authorities in other sectors. These are serious issues and are not simple to resolve, and I do not think that anyone in the Chamber would pretend that they are. We are of course aware that these problems have been there for decades. We will take action, where we can, through our capital building programme to resolve those problems and I will take further advice from my officials as to how we can take these issues forward with the HSE at a UK level.

The Deputy Presiding Officer: That brings

addysg lleol yn dibynnu ar gael arolygon asbestos priodol wedi'u gwneud, fel rheol gan ymgynghorwyr annibynnol. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi dosbarthu arweiniad ar wneud arolygon asbestos, mae wedi cynnal ymgyrch genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth o asbestos, ac wedi codi'r pwnc yn rheolaidd mewn cyfarfodydd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y goblygiadau a'r cyfrifoldebau cyfreithiol. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi llunio arweiniad i ysgolion. Cynigiwyd cyngor a chefnogaeth sylweddol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn hyn o beth.

O'n safbwyt ni, pe gallem gael gwared ag asbestos yn ddiogel o bob ysgol dros nos, byddem am wneud hynny. Fodd bynnag, byddwch yn sylweddoli, a chredaf fod Nick wedi rhoi'r ffigur inni, ein bod yn sôn am nifer sylweddol o adeiladau. Er y gallwn gefnogi'r gwaith o gael gwared ag asbestos, yng nghyd-destun ein rhaglen buddsoddi cyfalaf i ysgolion, mae'n anochel y bydd yn cymryd amser. Felly, ochr yn ochr â'r gwaith i gael gwared ag asbestos, rhaid inni ddyfalbarhau â rhaglen lle mae awdurdodau lleol yn rheoli asbestos yn eu hadeiladau yn llym.

Mae'n deg dweud y bydd hyn yn parhau'n ofid inni fel Llywodraeth ac fel Aelodau, a byddwn yn sicrhau bod awdurdodau addysg lleol yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif, fel y byddwn yn ei wneud gydag awdurdodau cyhoeddus eraill mewn sectorau eraill. Mae'r rhain yn faterion difrifol ac nid ydynt yn hawdd i'w datrys, ac ni chredaf y byddai neb yn y Siambra yn honni eu bod. Yr ydym yn ymwybodol, wrth gwrs, fod y problemau hyn yno ers degawdau. Byddwn yn gweithredu, lle gallwn, trwy ein rhaglen gyfalaf ar gyfer adeiladau, i ddatrys y problemau hynny, a byddaf yn cael cyngor pellach gan fy swyddogion am y modd y gallwn symud y materion hyn yn eu blaen gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar lefel y DU.

Y Dirprwy Lywydd: Dyna ddiwedd ein

today's business to a close.

trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.36 p.m.
The meeting ended at 5.36 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)